Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 15fed Mawrth, 2016 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Bethan Richardson<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.gov.uk |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 16eg O CHWEFROR 2016 | | | 1 - 10 |
| 6 | STRATEGAETH LETYA POBL HŶN | Cyng/Cllr. W Gareth Roberts | Elliw Llŷr | 11 - 41 |
| 7 | MODEL ARIANNOL AR GYFER TAI FFORDDIADWY | Cyng/Cllr. Ioan Thomas | Elliw Llŷr | 42 - 54 |
| 8 | CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016-20 | Cyng/Cllr. Dyfrig Siencyn | Geraint Owen | 55 - 79 |
| 9 | TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 | Cyng/Cllr. Dyfed Edwards | Geraint Owen | 80 - 111 |
| 10 | EFFAITH Y DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 AR BOLISI CODI TÂL GWASANAETHAU OEDOLION | Cyng/Cllr. W Gareth Roberts | Meilys Smith | 112 - 118 |
| 11 | CYNLLUN RHEOLI ASEDAU EIDDO | Cyng/Cllr. Dafydd Meurig | Dafydd Gibbard | 119 - 154 |
| 12 | GWERTHIANT CYN SAFLE YSGOL YR HENDRE, CAERNARFON | Cyng/Cllr. Dafydd Meurig | Dafydd Gibbard | 155 - 161 |
| 13 | BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD | Cyng/Cllr. Dyfed Edwards | | 162 - 163 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 16 CHWEFROR 2016

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwr: Dyfed Wyn Edwards, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrd a Bwrdeistrefol), William E Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Meinir Owen (Rheolwr Rhaglen Arbedion), Janet Roberts (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Rheoleiddio Dros Dro), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – cofnodi).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

### 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

### 5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19EG O IONAWR 2016

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y Cabinet a gynhaliwyd ar 19eg o Ionawr 2016.

## 6. ADOLYGIAD STRATEGOL PRIFFYRDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn canlyniadau'r adolygiad strategol.

2. Tra'n nodi a derbyn gwaith clodwiw y gwasanaeth, er mwyn sicrhau ein bod mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn fod y dylid cynnal adolygiad o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal dros y misoedd nesaf fel rhan o brosiect "Arfogi Unedau i Roi Ffordd Gwynedd ar Waith".

3. Y dylai cyfrifoldeb dros bontydd, waliau cynnal a chwlferi drosglwyddo i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gan ofyn i'r ddau aelod Cabinet perthnasol oruchwylio cynllun rhesymegol ar gyfer gwneud hynny;

4. Y dylid newid i drefn o sefydlu risgiau ein pontydd a waliau cynnal a dilyn cyfundrefn cynnal ar sail risg yn sgil hynny. Er mwyn gwneud hynny, y dylid hefyd cymeradwyo hyd at yr uchafswm o £104,000 o adnoddau unwaith ac am byth o'r gronfa buddsoddi i arbed oni bai fod yna ffyrdd eraill o ariannu'r buddsoddiad angenrheidiol gan adael i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet Adnoddau ystyried y swm sydd angen ei ryddhau o'r Gronfa.

5. Ystyried a dylid lleihau'r gyllideb cynnal ffyrdd a maint y lleihad hwnnw fel rhan o'r ystyriaeth a roddir i doriadau.

## 7. POLISI CLUDIANT ÔL-16

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Polisi Cludiant Ôl-16 newydd (cyflwynwyd i'r Cabinet fel Atodiad 1 i'r adroddiad perthnasol) i'w weithredu o fis Medi 2016 ymlaen

## 8. BIL DRAFFT LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.
Eiliwyd gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r sylwadau a gynhwyswyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod, mewn ymateb i'r Bil ar ran y Cyngor, gan ychwanegu sylwadau a gyflwynwyd gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

## 9. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

## 10. CYNLLUN STRATEGOL 2016/17

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.
Eiliwyd gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo Cynllun Strategol 2016-17 i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 3 Mawrth 2016.

## 11. ARBEDION EFFEITHLONRWYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo cynlluniau effeithlonrwydd a restrir yng nghymalau'r adroddiad i'r cyfarfod:

2.4 (sef cynlluniau Plant1, Plant2, Plant4, OED25, OED27, OED29, OED34, CC3, TAI6)
3.1 (sef cynlluniau OED7, OED8, OED9, OED10)
5.1 sef –

| **Cynllun** | **2014/15** |
|---|---|
| Arbedion Cludiant Ardal Arfon | £267,000 |
| Arbedion Caffael Trawsadrannol | £118,000 |
| Lleihau absenoldebau salwch | £50,000 |
| Arbedion Technoleg Gynorthwyol | £217,000 |

| | |
|---|---|
| (Teleofal) | |
| Arbedion drwy wneud defnydd mwy effeithiol o gerbydau fflyd y Cyngor | £130,000 |
| Ail-ddylunio trefniadau argraffu'r Cyngor | £78,000 |
| **Cyfanswm** | **£860,000** |

gan gymeradwyo hefyd sylw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau parthed Cynllun 4.1 (sef 'Trefn Wahanol o Newid Lampau – cyfanswm o £97,000).

## 12. CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2015) o Gyllideb Refeniw 2015/16, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

Nodi'r amrywiol adolygiadau a nodir yn yr adroddiad a'r camau i'w cymryd gan adrannau i gadw rheolaeth ar eu cyllidebau.

Cymeradwyo defnyddio tan wariant corfforaethol 2015/16 i gynorthwyo Strategaeth Ariannol 2016/17, yn benodol er mwyn ariannu bidiau un-tro.

## 13. RHAGLEN GYFALAF 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. John Wynn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Ragfyr 2015) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd £132,000 mewn defnydd o fenthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £276,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £350,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £268,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw

- lleihad £151,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd £133,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu

**14. a/b/c CYLLIDEB 2016/17, STRATEGAETH ARIANNOL 2016/17 - 2019/20 A THORIADAU I GYFARCH Y BWLCH ARIANNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNIAD**

i. Y dylid mabwysiadu'r gyllideb a grybwyllir yn adroddiad yr aelod cabinet ar gyfer 2016/17 sy'n golygu sefydlu cyllideb o **£227,227,120** ar gyfer 2016/17, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o **£166,950,760** a **£60,276,360** o incwm Treth Cyngor fyddai'n golygu cynyddu'r Dreth Gyngor **3.97%,** sef cynnydd £46.09 yn y Dreth Gyngor Band D o £1,161.07 i £1,207.16 y flwyddyn**.**

ii. Derbyn hefyd y strategaeth ariannol tymor canolig, ac yn sgil hynny y dylid cynllunio hefyd i gynyddu'r Dreth Gyngor 3.97% yn 2017/18 fyddai'n golygu gorfod darganfod bwlch ariannol o £4.94m dros y ddwy flynedd nesaf ar ôl darganfod yr arbedion effeithlonrwydd o £14.054m a nodir yng nghymal 21 o'r adroddiad ***"Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol 2016/17- 2019/20".***

iii. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £22.141m yn 2016/17 a £12.286m yn 2017/18 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r atodiad i'r adroddiad ***"Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol 2016/17- 2019/20".***

iv. Er mwyn cyfarch y bwlch o £4.94m a nodir yn rhan (ii) uchod, y dylid gweithredu ar y rhaglen doriadau canlynol –

| **Rhif** | **Toriad posib** | **Swm £** |
|---|---|---|
| C2 | Dileu 2 swydd allan o 7.5 yn yr Uned cefnogi Systemau o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 80,000 |
| C3 | Dileu 3 swydd allan o 20.6 yn yr Uned Cefnogi Gweithlu sy'n gwasanaethu oedolion a phlant | 90,000 |
| C4 | Dileu 2 swydd allan o 10.5 yn yr Uned datblygu gweithlu o fewn y Gwasanaeth oedolion | 75,000 |
| C5 | Dileu 1 swydd allan o 2.5 yn y maes Rheolaeth a Strategaeth Tai | 37,500 |
| C7 | Dileu 1 swydd allan o 3 yn yr Uned Gwasanaeth Gwybodaeth sy'n delio gyda'r Ddeddf Diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth | 30,000 |

| | | |
|---|---|---|
| C8 | Cau adeiladau Frondeg Pwllheli ac Adeilad Ffordd y Traeth yn y Felinheli **ond gofyn i'r Gwasanaeth adrodd yn ôl i'r Cabinet ar achos busnes cynllun C8 (Frondeg) cyn symud ymlaen i'w wireddu er mwyn sicrhau fod yna atebion derbyniol i anghenion y rhai sydd yno ar hyn o bryd** | 60,000 |
| C9 | Dileu 1 swydd allan o 8.5 yn yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau | 28,000 |
| C10 | Dileu 1.5 swydd allan o 7.2 yn yr Uned Stadau a Chyfleusterau | 40,000 |
| C11 | Dileu 2 swydd allan o 37.62 yn yr Unedau Cyfrifeg | 50,000 |
| C12 | Rhoi'r gorau i gefnogaeth yr Uned Technoleg Gwybodaeth i systemau y tu allan i oriau gwaith arferol | 39,500 |
| C13 | Dileu Cynllun Hyfforddeion Gwynedd a Chynllun Hyfforddeion Proffesiynol | 258,720 |
| C14 | Dileu 2 swydd allan o 8.8 yn yr uned Iechyd a Diogelwch | 80,000 |
| C15 | Ail fodelu'r partneriaethau rhwng Gwynedd a Môn yn sgil y newid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | 130,000 |
| C16 | Dileu cyfraniad y Cyngor i Bartneriaeth Amgylchedd Gwynedd | 7,620 |
| C18 | Dileu cyllideb ar gyfer cefnogi gwaith alcohol a chyffuriau | 28,900 |
| C19 | Dileu 1 swydd allan o 2 yn y maes Rheolaeth Prosiect | 31,060 |
| 1 | Torri gwair prif lecynnau trefi 6 gwaith y flwyddyn yn hytrach nag 8 gwaith **ond dylid ystyried os gellir darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd ar Gynllun rhif 1 (Torri gwair canol Trefi) drwy leihau'r toriadau sylfaenol ymhellach a chan ofyn i gymunedau lleol dalu os dymunir cael gwell safon** | 120,000 |
| 2 | Dileu 1 swydd allan o 10.5 yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 15,000 |
| 3 | Lleihau cyllideb grantiau strategol i'r celfyddydau o 50%, **ond ei weithredu o'r 1 Ebrill 2017 er mwyn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth drafod ei weithrediad gyda'r cyrff a gefnogir a cheisio denu cymorth o ffynonellau eraill i gymryd lle'r lleihad yn y cymorth gan y Cyngor** | 84,850 |
| 4 | Torri 2 swydd allan o 7 yn yr Uned Gwasanaeth | 64,500 |

| | | |
|---|---|---|
| | gorfodaeth stryd | |
| 5 | Lleihau oriau agor Archifdy Dolgellau o 3 diwrnod i 2 ac Archifdy Caernarfon o 4 i 3 diwrnod yr wythnos | 41,670 |
| 6 | Torri gwair y 131 o feysydd chwarae plant bob deufis yn hytrach nag yn fisol | 60,000 |
| 8 | Lleihau elfen o gyllideb “Gwynedd Ni” gan ganolbwyntio ar yr elfen statudol. | 70,000 |
| 9 | Dileu 1 swydd allan o 27.7 yn yr Uned Prosesu Treth Gyngor | 25,000 |
| 10 | Torri 50% ar y gwasanaeth cynnal promenadau, meinciau ac enwau strydoedd | 40,000 |
| 11 | Peidio darparu copïau caled o’r llyfryn twristiaeth “Eryri Mynyddoedd a Môr” | 46,000 |
| 12 | Lleihau 50% ar y grantiau a roddir i fudiadau gwirfoddol ar gyfer prosiectau penodol | 62,500 |
| 13 | Peidio talu’r ffi am dalu Treth Gyngor yn y swyddfa bost | 40,000 |
| 14 | Lleihau amlder torri gwair ym mynwentydd y Cyngor o 7 gwaith y flwyddyn i 5 | 60,000 |
| 15 | Torri 10% ar y gyllideb prynu llyfrau yn y llyfrgelloedd | 26,000 |
| 16 | Dileu 1 swydd allan o 14 yn yr uned Rheolaeth Adeiladu | 40,000 |
| 17 | Dileu ail swydd o’r 10.5 yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd. | 15,000 |
| 19 | Lleihau amser / a neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd | 100,000 |
| 20 | Cadw’r Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) **ond yn hytrach na dileu’r adnodd sy’n cadw golwg parhaus arno, y dylid ceisio cyflawni’r arbediad drwy leihau cyfraniad y Cyngor a gwneud unrhyw newidiadau gweithredu y gellid eu gwneud heb amharu ar effeithioldeb y gyfundrefn** | 90,000 |
| 21 | Dileu 1 swydd allan o 2.45 yn yr Uned Bioamrywiaeth | 30,000 |
| 22 | Lleihau 50% ar y gyllideb rheoli traffig | 65,000 |
| 23 | Dileu 20% ar y gyllideb llwybrau cyhoeddus yn cynnwys 1 swydd allan o 7.2 | 110,000 |
| 25 | Dileu 1 swydd allan o 8 yn yr Uned Rheoli | 35,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | Llygredd | |
| 26 | Dileu grant canolfan Noddfa | 5,000 |
| 27 | Dileu 1 swydd allan o 13.8 yn yr Uned Hylendid Bwyd | 36,000 |
| 28 | Dileu 1 swydd allan o 21.7 yn yr Uned Budd-daliadau Tai a threth Gyngor | 25,000 |
| 29 | Dileu Gwasanaeth gang cymunedol Arfon | 70,000 |
| 30 | Torri'r gyllideb cynnal ffyrdd **(gan nodi yr addaswyd swm y toriad yn unol a'r argymhelliad yn yr adroddiad)** | 850,000 |
| 31 | **Yn hytrach na'r cynnig gwreiddiol o gau 30 allan o'r 42 Clwb Ieuenctid, y dylid newid y cynllun dan sylw i wireddu'r arbediad toriadau o £200,000 (ynghyd a'r arbediad effeithlonrwydd disgwyliedig o £70,000) drwy ail ddylunio'r Gwasanaeth Ieuenctid a chan dderbyn y bydd angen ystyried y grantiau i fudiadau ieuenctid fel rhan o'r holl adolygiad** | 200,000 |
| 32 | Rhoi'r gorau i redeg Amgueddfa Lloyd George **ond gan weithredu o'r 1 Ebrill 2017 er mwyn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth gynnal trafodaethau gydag unrhyw gorff fyddai'n dymuno cymryd cyfrifoldeb am yr amgueddfa** | 27,000 |
| 33 | Cynyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50 **(gan nodi'r newid yn uchafswm y pris y dylid ei godi)** | 105,000 |
| 37 | Dileu 2 swydd allan o 85 yn yr Uned Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Gofal o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 80,000 |
| 38 | Lleihau amlder glanhau pentrefi a stadau diwydiannol i bob 3 mis yn hytrach na bob mis a chynyddu amser ymateb i ddigwyddiadau | 130,000 |
| 39 | Lleihau'r gyllideb lyfrau yn y llyfrgelloedd o 25%. | 39,000 |
| 40 | Dileu 1 swydd allan o 12 yn yr Uned Gorfodaeth Tai | 30,000 |
| 42 | Lleihau 12.4% ar y gyllideb o £801,790 a delir gan y Gwasanaeth Oedolion i sefydliadau gwirfoddol / elusennol. | 100,000 |
| 43 | Dileu 10% o'r gyllideb Gwasanaeth Plant Derwen (sy'n cyflogi 19.4) | 75,000 |
| 44 | Dileu rhaglenni byw'n iach | 54,050 |
| 46 | Dileu'r gyllideb ar gyfer cynnal y Gwarchodfeydd Natur | 59,400 |

| | | |
|---|---|---|
| 47 | Dileu cyllideb prosiectau diogelwch cymunedol a thrais yn y cartref | 24,250 |
| 48 | Rheoli traethau baner las a baner werdd yn unig | 24,200 |
| 49 | Dileu 1 swydd allan o 7.7 ar reoli risgiau llifogydd. | 40,000 |
| 50 | Dileu 1 swydd allan o 7 yn yr Uned sy'n rheoli grantiau adnewyddu a grantiau i'r anabl | 30,000 |
| 51 | Cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y sir | 244,000 |
| 52 | Dileu 1 swydd allan o 21 yn y Gwasanaeth aml asiantaethol Cyfiawnder Ieuenctid. | 25,000 |
| 53 | Dileu rhaglenni datblygu chwaraeon | 71,180 |
| 58 | Cau canolfannau Croeso'r Cyngor | 155,000 |
| 63 | Dileu 1 swydd allan o 7 ar reolaeth gwaith ffyrdd | 30,000 |
| 65 | Dileu 4 swydd allan o 85 yn yr Uned Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Gofal o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 80,000 |
| 71 | Dileu 1 swydd allan o 21.4 yn yr Uned Digartrefedd | 25,000 |

v. Nodi hefyd tra na fyddwn yn disgwyl yr elfen doriadau o £28,000 a nodir gyferbyn â chynllun 55 (Llyfrgelloedd), y bydd yna barhad i ddisgwyl newidiadau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell fydd yn cael eu cyfyngu i'r swm arbediad effeithlonrwydd a dargedwyd ar eu cyfer fydd efallai yn golygu gweithredu elfen helaeth o'r newid a nodir yn erbyn cynllun rhif 55.

vi. Ar gyfer Cynllun 66 (Cymorth i Ferched), tra na ddylid ei dorri ar hyn o bryd, y dylai hyn fod yn amodol ar iddynt fodloni'r Gwasanaeth eu bod wedi edrych am yr holl gyfleon posibl i fod mor effeithlon a phosibl, gan gynnwys unrhyw arbediad fyddai'n deillio o hynny yn yr arbedion effeithlonrwydd.

vii. Ar gyfer Cynlluniau 72 (Pont Abermaw) a 78 (Pont yr Aber), na ddylid torri'r cyllidebau yma ar hyn o bryd, ond fod hynny yn amodol ar gyrraedd targed o leihau'n sylweddol y gost i'r Cyngor o gyfrannu tuag at eu dyfodol, gan gynnwys unrhyw arbediad fyddai'n deillio o hynny yn yr arbedion effeithlonrwydd.

viii. Ar gyfer Cynllun 59 (Neuadd Dwyfor), na ddylid torri'r gyllideb yma, ond fod hynny yn amodol ar drafod opsiynau gydag unrhyw fudiad lleol gyda golwg ar iddynt gymryd cyfrifoldeb amdano gyda'r nod o leihau'r costau sy'n syrthio ar drethdalwyr Gwynedd, ac y dylid cynnwys unrhyw arbedion yn yr arbedion effeithlonrwydd.

ix. Gydag argymhellion vi), vii) a viii) uchod y dylid adrodd yn ôl ymhen blwyddyn gan ail ymweld a'r sefyllfa bryd hynny yn sgil unrhyw

ddatblygiadau.

x. Awdurdodi’r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda’r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i adolygu lefel cronfeydd penodol (fel awgrymir ym mharagraffau 8.6 - 8.8 o’r atodiad “Cyllideb 2016/17”) er mwyn ariannu’r angen i “bontio” £2,106,050 yn 2016/17, oherwydd ni fydd modd cynhaeafu’r holl doriadau ar unwaith o Ebrill 2016.

xi. Awdurdodi’r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda’r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i drefnu i ariannu swm addasedig o gronfeydd, fel bo angen, er mwyn amddiffyn penderfyniadau’r Cyngor ar y gyllideb a’r dreth pe bai newidiadau ymylol mewn grant Llywodraeth, yn dilyn penderfyniadau Llywodraeth Cymru, fydd yn arwain at ddatgan setliad grant terfynol ar gyfer llywodraeth leol ar 2 Mawrth, a phleidlais yn y Cynulliad ar 9 Mawrth 2016 i’w gadarnhau.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.15 y.h.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
15 Mawrth 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Roberts

**Pwnc:** Strategaeth Letya Pobl Hyn

**Swyddog cyswllt:** Elliw Llŷr

---

**Y penderfyniad a geisir**

Mabwysiadu Strategaeth Letya Pobl Hyn

---

**Barn yr aelod lleol**

*Ddim yn fater lleol*

---

1. **Cyflwyniad**

**1.1 Gweledigaeth**
Mae dyhead a gweledigaeth pobl Gwynedd a'r Cyngor yn gyson a'i gilydd; sef hybu a chynnal annibyniaeth pobl hyn o fewn eu cymunedau brodorol. Mae'r Cyngor wedi hwyluso hyn drwy gynyddu nifer o Dai Gofal Ychwanegol, cynyddu nifer o welyau nyrsio mewn rhai ardaloedd a chynyddu'r nifer o welyau ar gyfer rhai â phroblemau cof mewn lleoliadau preswyl a nyrsio.
Er mwyn cynnal hyn bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn comisiynu:

- Llai o welyau preswyl traddodiadol gan ddarparu fwy o wasanaethau i gefnogi unigolion i fyw gartref neu mewn llety addas i'w hamgylchiadau
- Cyfleoedd i bobl gael cyfnod adferiad estynedig
- Cyfleoedd hyblyg i gael gofal ysbaid
- Mwy o welyau gofal preswyl ar gyfer pobl â dementia

Mae Strategaeth Lletya Pobl Hŷn yn amlinellu sut bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau dewis addas o lety ar gyfer pobl hŷn gyda gwahanol anghenion. Gweler atodiad 1 am gopi llawn o'r Strategaeth.

### 1.2 Amcanion y Strategaeth:

**I. Cefnogi unigolion i aros yn eu cartrefi cyn hired â phosib**

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Annog pobl i ystyried ac i gynllunio eu dymuniadau lletya yn gynharach
- Gwneud cartrefi pobl hŷn yn addas iddynt allu aros yn eu cartrefi pan fo hynny 'n addas a phosib
- Hyrwyddo defnydd o offer ac addasiadau posib ee offer teleofal
- Cadw darpariaeth gofal ysbaid/ gwlâu dros dro o fewn y Sir

**II. Sicrhau llety addas i bobl hŷn Gwynedd**

Yn unol â chefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi, rydym am sicrhau bod amrywiaeth o opsiynau lletya ar gael i bobl hŷn Gwynedd
Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Sicrhau bod defnydd llawn yn cael ei wneud o'r ddarpariaeth Tai Gwarchod sydd yn bodoli yn y Sir
- Cynyddu'r ddarpariaeth o Dai Gofal Ychwanegol o fewn y sir
- Lleihau'r angen am wlâu mewn cartref preswyl yn y Sir drwy weithredu ar yr uchod. Yn dilyn cynnydd tebygol mewn galw, bydd angen rhoi ystyriaeth i gynyddu'r ddarpariaeth llety nyrsio cyffredinol
- Yn dilyn cynnydd tebygol mewn galw, bydd angen ymchwilio i gynyddu'r ddarpariaeth llety gofal nyrsio EMI

**III. Canfod ardaloedd daearyddol penodol ble mae'n debygol y bydd galw uchel**

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Archwilio posibilrwydd creu cynlluniau penodol i'r ardaloedd canlynol yn sgil cael eu hadnabod fel ardaloedd i'w blaenoriaethu o ran datblygu opsiynau llety

- Cynnal trafodaeth â phartneriaid i drafod a chyd gynllunio darpariaeth lletya o fewn y Sir

**IV. Sicrhau bod pobl hŷn Gwynedd yn ymwybodol o'r opsiynau llety sy'n bodoli o fewn y Sir a bod gwybodaeth hygyrch ar gael.**

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Gwella ansawdd a darpariaeth gwybodaeth gan sicrhau bod gwybodaeth hygyrch ar gael i bobl ynglŷn â holl opsiynau lletya pobl hŷn Gwynedd ynghyd ag addasrwydd y llety
- Cydweithio a phartneriaid perthnasol i lunio a dosbarthu'r wybodaeth hwn

**2. Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

**2.1 Rhai materion i'w hystyried yng nghyd-destun y Strategaeth:**

Mae'r Strategaeth yn gosod cyfeiriad ar gyfer darpariaeth lletya pobl hyn yn y Sir a bydd yr adroddiad data yn ffurfio sylfaen ar gyfer creu datganiad sefyllfa fel bod cyflenwyr a phartneriaid yn gwybod yn glir beth yw ein hanghenion lletya i'r dyfodol.

Mae oblygiadau i'r hyn sydd yn cael ei osod fel cyfeiriad yn y Strategaeth sef; cynyddu cyflenwad o dai gofal ychwanegol, lleihau dibyniaeth ar ofal preswyl a chynyddu dewis i bobl allu cynnal eu hannibyniaeth o fewn eu cymunedau.

Mae'r Strategaeth hefyd yn gosod cynsail ar gyfer targedu ardaloedd penodol er mwyn adnabod datrysiadau fydd yn osgoi costau uwch i'r Cyngor o ran darpariaeth gofal yn y dyfodol. Mae oblygiadau ariannol yn ogystal i ddarparu Tai Gofal Ychwanegol pe byddai hyn yn cael ei adnabod fel opsiwn ar gyfer ardal benodol.

Mae'n wybyddus bod diffyg darpariaeth gofal preswyl a nyrsio yn y Sir ac mae llawer o ddarparwyr preifat yn cael trafferthion recriwtio mewn rhai ardaloedd a all yn ei dro osod pwysau ychwanegol ar wasanaethau mewnol Cyngor.

Gwelir cyfle yma i wneud y cyswllt gyda darpariaeth o dai addas, natur a math o wasanaethau o ran gofal a sut all y Cyngor ddylanwadu / siapio gofynion galw yn y dyfodol.

**2.2 Adnabod ardaloedd gyda'r dwyster uchaf**

Adnabuwyd ardaloedd penodol sydd gyda'r dwyster uchaf o bobl hyn, casglwyd data o nifer ffynonellau er mwyn creu darlun cynhwysfawr o'r angen sydd yn bodoli yn yr ardaloedd hyn a'r tebygolrwydd o dueddiadau i'r dyfodol.

Mae'r Adroddiad Data cynhwysfawr wedi ei lunio sydd yn nodi'r ardaloedd isod ar sail tystiolaeth bydd galw ar wasanaethau yn y dyfodol:

- Tywyn 1
- Porthmadog Gorllewin
- Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog
- Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel
- Llanbedrog ac Abersoch
- Llanbedr
- Dyffryn Ardudwy
- Menai, Caernarfon

(nid ydynt mewn unrhyw drefn benodol)


Mae'r Adroddiad Data yn nodi'r ffactorau sydd wedi cyfrannu tuag at adnabod yr ardaloedd hyn gyda'r gofyn uchaf am gefnogaeth yn y dyfodol.

## 3. Ystyriaethau perthnasol

Mae'r Strategaeth yn ymateb i ffactorau sydd yn ein hwynebu yng Ngwynedd, sef yn bennaf:

- disgwylir prif dwf mewn poblogaeth ymysg grŵp oedran 85
- bydd canran uchel o yn bobl hyn yn byw ar ben eu hunain
- mae'r ardaloedd yn tueddu i fod yn rhai arfordirol gyda nifer yn dewis ymddeol o fewn yr ardaloedd hyn heb gysylltiadau rhwydwaith cefnogaeth

- bydd cyfraddau dementia yn cynyddu ynghyd ag iselder a chyflwr pryder
- mae cyfradd uchel o bob hyn yn byw o fewn y sector breifat h.y. yn berchen eu cartrefi neu yn rhentu'n breifat, fel mae'r tabl isod yn ei nodi:




**3.1 Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig a chyfeirir chi yn benodol i Atodiad 2. Mae'r asesiad yn amlygu'r ardrawiadau posib a'r trefniadau sydd mewn lle i ymateb. Fe noder fod yr asesiad yn wedi canfod yr ardrawiadau posib canlynol :

Ymateb yn bositif i Ddyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb a nodweddion penodol.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

Bod Partneriaeth Tai Gwynedd yn mabwysiadu'r Strategaeth gan fod yn gyfrifol am lunio a diweddaru'r cynllun gwaith yn flynyddol.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r strategaeth sydd yn cael ei gyflwyno, sydd wedi ei graffu ar y ffordd i'r Cabinet, yn gosod cyfeiriad ar gyfer y gwaith pwysig o geisio sicrhau darpariaeth llety addas ar gyfer poblogaeth sydd yn heneiddio. Mae pedwar amcan y strategaeth yn rhai cadarn a phwysig a bydd yn bwysig yn awr bod y Bartneriaeth Dai yn symud ymlaen i roi Cynllun Gweithredu Blynyddol ar gyfer y strategaeth ar waith

**Y Swyddog Monitro:**
Un o brif amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw ceisio atal pobl rhag bod angen neu fynd yn ddibynnol ar wasanaethau .Felly mae'r strategaeth hwn o geisio cefnogi annibyniaeth am gyhyd a phosib yn gweddu i'r amcan yma. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad gerbron yn gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r 'Strategaeth Letya Pobl Hyn', sy'n cynnwys gweledigaeth ac amcanion pendant yng nghyd-destun y cyfeiriad delfrydol i'r dyfodol, ac yn arbennig mewn cyfnod ble gwelir lleihad mewn adnoddau ariannol. Tydi'r adroddiad ddim yn adnabod ymhlygiadau ariannol posib i'r Cyngor o ganlyniad i weithredu'r Strategaeth. Felly, hyd nes derbynnir manylion perthnasol llawn i'w ystyried, gellid derbyn y strategaeth a'r weledigaeth mewn egwyddor, heb ragfarnu unrhyw ymrwymiadau ariannol gan y Cyngor.

---

**Atodiadau**

*Atodiad 1 – Strategaeth Letya Pobl Hyn*
*Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb*

**Atodiad 1  Strategaeth Lletya Pobl Hŷn**

DRAFFT

**Tudalen Gynnwys**


| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth** | **3** |
| **Cyd-destun cenedlaethol a lleol** | **4** |
| **Tueddiadau poblogaeth** | **8** |
| **Darpariaeth bresennol** | **10** |
| **Ymgysylltu a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid** | **12** |
| **Adnabod ardaloedd penodol** | **15** |
| **Prif negeseuon** | **16** |
| **Cynllun gweithredu** | **18** |


DRAFFT

**Gweledigaeth**

Mae dyheadau pobl hŷn Gwynedd yn glir. Mae pobl hŷn Gwynedd eisiau byw gartref cyn hired â phosib gan gydnabod angen am gefnogaeth pan yn briodol i sicrhau hyn. I gefnogi'r dyheadau hyn, mae gweledigaeth y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhoi pwyslais ar hybu a chynnal annibyniaeth cyn belled â phosib i ganiatáu unigolion aros yn eu cartrefi. Pe byddai sefyllfa yn codi lle na fydd bellach yn opsiwn i rywun aros yn eu cartref eu hunain, bydd opsiynau eraill megis Tai Gwarchod, Tai Gofal Ychwanegol neu math arall o gartref addas yn cael eu hyrwyddo i unigolion. I'r dyfodol ystyrir gofal preswyl yn bennaf fel:

- Cyfle pellach i adennill annibyniaeth
- Cyfle ysbaid i ofalwyr fel y gallant barhau â'u rôl gofalu
- Opsiwn gofal parhaol i bobl â dementia na ellid gofalu amdanynt gartref na mewn tai gofal ychwanegol

Gweledigaeth y Cyngor felly ar wasanaethau preswyl i bobl hŷn yw:

- Lleihau nifer y gwelyau preswyl traddodiadol
- ↑ nifer y gwelyau mewn Tai Gofal Ychwanegol neu fodel cyffelyb i Tai Gofal Ychwanegol
- ↑ nifer y gwelyau nyrsio mewn rhai ardaloedd
- ↑ nifer y gwelyau i'r rheini â phroblemau cof, preswyl a nyrsio

Bwriad y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r dyfodol felly yw comisiynu:

- Llai o welyau preswyl traddodiadol gan ddarparu fwy o wasanaethau i gefnogi unigolion i fyw gartref neu mewn llety addas i'w hamgylchiadau
- Cyfleoedd i bobl gael cyfnod adferiad estynedig
- Cyfleoedd hyblyg i gael gofal ysbaid
- Mwy o welyau gofal preswyl ar gyfer pobl â dementia

Fel pob cyngor yng Nghymru, mae Gwynedd yn wynebu toriadau sylweddol yn y cyllid y mae'n cael gan y llywodraeth tuag at dalu am wasanaethau lleol. Ar yr un pryd mae'r pwysau ar wasanaethau'r Cyngor yn sicr o gynyddu'n aruthrol. Oherwydd hyn, nid oes modd i bethau barhau fel y maent ac mae angen newidiadau sylweddol ar unwaith fel y gall y Cyngor barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n bobl fwyaf bregus dros y degawdau nesaf.

Bydd y Strategaeth Lletya Pobl Hŷn yn amlinellu sut bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau dewis addas o lety ar gyfer pobl hŷn gyda gwahanol anghenion.

DRAFT

## Cyd-destun cenedlaethol a lleol

Pwrpas llunio Strategaeth Lletya Pobl Hŷn yw sicrhau bod Cyngor Gwynedd a phartneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un weledigaeth a bod cyfeiriad clir wedi cael ei osod i'r holl bartneriaid yng nghyd-destun darparu lletya pobl hŷn yng Ngwynedd.

Mae cytuno ar Strategaeth Letya Pobl Hŷn wedi ei nodi yn **Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017** fel blaenoriaeth yn ystod 2013-2014. Mae'r strategaeth hon yn ogystal am gefnogi blaenoriaethau sydd wedi ei adnabod yn **Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2013-2017**.

Fe nodir mewn nifer o ddogfennau polisi ac ymchwil wedi ei gyhoeddi bod cydberthynas rhwng cartrefi ag amgylchedd y mae unigolyn yn byw ynddo fel bod yn allweddol i safon bywyd yr unigolyn gan nodi'r angen i gartref fod yn addas i gael ei addasu fel y mae person yn mynd yn hŷn a'u hanghenion yn newid.

Mae dogfen **Cartrefi Gwell i bobl Cymru**[1] yn nodi bod nifer o bobl hŷn angen cartref sydd yn addasadwy a gyda mynediad da i gyfleusterau. Mae **Gwella Bywydau a Chymunedau- Cartrefi yng Nghymru**[2] yn cydnabod yr her fawr sydd o'n blaen yn y maes gyda phoblogaeth sy'n heneiddio yn cael ei nodi fel goblygiad sylweddol ar gynllunio tai a'r a'r cymorth sydd ar gael i bobl barhau i fyw yn eu cartrefi cyn hired â phosib. Maent yn nodi'r ffyrdd canlynol o ymdrin â hyn:

i. Darparu mwy o dai o'r math cywir a chynnig mwy o ddewis
ii. Gwella cartrefi a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a presennol
iii. Gwella gwasanaethau a chefnogaeth gysylltiedig â chartrefi.

I ategu i hyn noda'r **Sefydliad Gofal Cyhoeddus** bod pobl hŷn eisiau:

• Cartref sydd yn hawdd edrych ar ei ôl
• Bod yn ddiogel
• Mynediad at gyfleusterau a chludiant

[1] Strategaeth a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru 2001

[2] Strategaeth dai genedlaethol a gyhoeddwyd yn 2010

• Cymdogaeth dda
• Llety sy'n ddeniadol ac yn addas i'r pwrpas
• Aros yn eu cartrefi heb orfod mynd i ofal preswyl

Mae'r **Joseph Rowntree Foundation** hefyd yn hyrwyddo'r un cysyniad drwy gyhoeddi 16 o safonau sydd yn anelu i ddarparu cartrefi sydd yn hyblyg ac yn addas i bobl ac amrediad o anableddau.

Yn ogystal â'r Strategaeth hon, mae dogfennau eraill yn cael eu llunio sydd wedi bwydo i'r ddogfen hon, gyda'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y broses o adolygu eu **Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn** ac mae data o'r **Datganiad Sefyllfa Marchnad** wedi cyfrannu tuag at y ddogfen hon o ran adnabod darpariaeth bresennol preswyl a nyrsio yng Ngwynedd, tueddiadau i'r dyfodol a llunio blaenoriaethau.

Er mwyn llunio'r ddogfen hon, fe ganolbwyntiwyd y gwaith ymchwil ar yr elfennau canlynol:

- Adnabod tueddiadau er mwyn cael darlun clir
- Cael mewnbwn trigolion Gwynedd er mwyn cael strategaeth ymatebol
- Gallu adnabod ardaloedd sydd angen darpariaeth o'r newydd neu addasu darpariaeth i'r dyfodol

Mae polisi cenedlaethol sy'n ymwneud a Gofal Cymdeithasol a Thai ar gyfer Pobl Hŷn yn canolbwyntio at dri ffactor allweddol - annibyniaeth, dewis a chyflenwad o dai addas a digonol. Mae Strategaeth Pobl Hŷn Cymru (2013-2023) yn hyrwyddo dewis a byw'n annibynnol ac yn nodi "there is a growing recognition of the values of developing service models that have the citizen at their core, and that seek to protest protectand support all opportunities for independent living".

Un o ganlyniadau mae'r Strategaeth Pobl Hŷn Cymru yn anelu i wireddu erbyn 2023 yw sicrhau bod gan bobl hŷn mynediad at dai a gwasanaethai sy'n cefnogi eu hanghenion a hyrwyddo annibyniaeth; bod cyflenwad addas o opsiynau llety at gyfer pobl hŷn; bod cefnogaeth ddigonol i symud; ac yn olaf bod modelau llety amgen (sy'n cynnwys "retirement communities"; tai gwarchod a thai gofal ychwanegol) yn



DRAFT

cael ei gynnig i sicrhau dewis i bobl hŷn yn y math o lety sydd ar gael i gwrdd â'u hanghenion a'u dyheadau.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn glir. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu "fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol ac iechyd i ymgysylltu efo a grymuso dinasyddion i gefnogi nhw gyflawni annibyniaeth a llesiant, ac yn lle mae'n briodol, cael y gefnogaeth maen nhw angen". Gweledigaeth y Ddeddf yw uchafu annibyniaeth pobl, cysylltu pobl efo'r cymunedau a lleihau neu oedi dibyniaeth bobl ac ymyrraeth gan ofal cymdeithasol ac iechyd.

Mae pwysig i beidio anwybyddu pwysigrwydd cyflenwi tai addas ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. Mae adolygiad o lenyddiaeth ddiweddar gan Brifysgol Bangor yn adnabod:

a) Mae stoc tai Cymru o fewn y gwaethaf yng Ngogledd Ewrop - caiff hyn effaith sylweddol ar iechyd a llesiant pobl hŷn;

b) Mae mynediad tuag at addasiadau ac atgyweiriadau yn hanfodol tuag at sicrhau bod pobl hŷn yn gallu parhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain;

c) Mae'n hanfodol i gyfarch cyflenwad ac addasrwydd mathau arbennig o dai sy'n cwrdd ag anghenion pobl hŷn;

d) Mae 80% o'r tir yng Nghymru yn cynnwys 'tai gwledig', sy'n golygu eu bod angen datrysiadau a dulliau gwahanol.

Mae effaith cyflwr gwael tai yn effeithio yn fawr ar grwpiau bregus megis pobl hŷn. Mae gwresogi isel/aneffeithiol wedi ei brofi i leihau disgwyliadau oes. . Yn ychwanegol, mae addasu tai yn lleihau anabledd a'r risg o ddamweiniau.

I grynhoi, mae sicrhau cyflenwad addas a digonol o dai ar gyfer pobl hŷn yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol megis gofal preswyl a mynediad i ysbytai. Ar hyn o bryd yng Ngwynedd, mae pobl yn dod yn ddefnyddwyr gwasanaeth yn rhy fuan gyda gorddibyniaeth ar fodelau gofal a llety traddodiadol, megis gofal preswyl. Nid ydym yn gwerthfawrogi capasiti a gallu pobl i

DRAFT

fyw bywydau annibynnol, ac i barhau i fyw gartref ac o fewn eu cymunedau cyn hired â phosib.

Un o'r prif heriau mae'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ei wynebu yw poblogaeth sy'n heneiddio a'r goblygiadau ar gyfer dyluniad tai a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer cefnogi pobl i fyw yn annibynnol cyn hired â phosib. Yn ôl amcangyfrifon canol flwyddyn 2013, mae pobl 65 oed a throsodd yn cyfri fel 22% o boblogaeth Gwynedd. Mae mwy o bobl dros 65 oed o'i gymharu â phobl ifanc 'dan 16 oed yn byw yng Ngwynedd. Yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth, rhwng 2015 a 2030, bydd twf sylweddol o fewn poblogaeth 85 oed a throsodd yng Ngwynedd. Rhagamcan y bydd y grŵp hwn yn cynyddu bron i 60% erbyn 2030.

Blaenoriaeth allweddol arall yw lleihau'r galw ar fodelau gofal mwy traddodiadol, er enghraifft Gofal Preswyl a datblygu modelau gofal newydd megis Tai Gofal Ychwanegol.

Fel rhan o Gynllun Strategol 3 Blynedd Cyngor Gwynedd, mae datblygu Strategaeth Letya ar gyfer Pobl Hŷn wedi ei osod fel un cynllun 'dan raglen lletya Gwasanaethau i Oedolion. Bydd y strategaeth yn eistedd 'dan Strategaeth Partneriaeth Tai Gwynedd a byddai'n bwydo fewn i'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2016, a'r Cynllun Unedol (2013-2017), ynghyd â'r Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn 2011-2016.

DRAFT

## Tueddiadau Poblogaeth

Yn seiliedig ar amcangyfrifon[3], mae 121,911 o bobl yn byw yng Ngwynedd. Am y tro cyntaf, mae mwy o bobl dros 65 oed a throsodd o'i gymharu â phobl ifanc 'dan 16 oed yn byw yng Ngwynedd.  Mae 14277 o bobl oed 65-74, 8688 o bobl 75 i 84 a 3707 o bobl dros 85.

Ar sail amcangyfrifon presennol[4], rhwng 2015 a 2030, mae'r prif dwf mewn poblogaeth ymysg y grŵp oedran 85 oed a hŷn. Disgwylir i'r grŵp oedran yma yng Ngwynedd gynyddu 59% erbyn 2030, gyda'r grŵp oedran 75-84 oed yn cynyddu 27%. Ond, disgwylir i'r grŵp 65-74 oed leihau yn raddol erbyn 2030.

Wrth i ni edrych ar boblogaeth o fewn Gwynedd, yr un ardaloedd oedd yn gyson ar ben y rhestr o ran dwysedd poblogaeth bobl hŷn uchaf a/ neu'r niferoedd bobl hŷn uchaf, a hynny yn y grwpiau oedran 75-84 a 85+.  Wrth edrych ar gyfansoddiad cartref yn yr ardaloedd hyn, roedd nifer yn dod i'r brig yn y tabl o ran cartrefi un person neu deuluoedd dros 65 mewn oedran.

Un o'r pethau i nodi yw bod yr ardaloedd hyn yn gyffredinol mewn ardaloedd arfordirol poblogaidd, ac mae awgrym bod nifer yn dewis dychwelyd i'r ardaloedd hyn i ymddeol.  Mae angen rhoi ystyriaeth i hyn wrth ystyried opsiynau llety a chynllunio gwasanaethau yng Ngwynedd gan fod rhagdybiaeth bod y bobl hyn yn byw yn bell o unrhyw rwydwaith gefnogaeth.

## Dadansoddiad o ragamcaniadau niferoedd dementia Gwynedd

Mae pobl hŷn yn tueddu i ddioddef yn fwy gyda phroblemau iechyd meddwl.  Gall hyn, yn ei dro, effeithio annibyniaeth a safon bywyd unigolion a'u teuluoedd.  Y ddau brif gyflwr iechyd meddwl sy'n effeithio pobl hŷn yw dementia ac anhwylderau gweithredol megis iselder a chyflwr pryder.

DRAFT

[3] Amcangyfrifon canol blwyddyn 2013 Stats Wales

[4] Amcangyfrifon Daffodil  www.daffodilcymru.org.uk

Mae data a gesglir yn rhagfynegi y bydd niferoedd y bobl hŷn 65+ sydd â dementia yng Ngwynedd yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf o 1,863 yn 2013 i 2,115 yn 2020 ac yna 2,664 erbyn 2030[5].

**Mudo mewnol**

Nifer bach o'i gymharu â'r boblogaeth o fudo mewnol sy'n digwydd o fewn i Wynedd. Mae cynnydd bach wedi bod yn ystod y ddegawd ddiwethaf gan gynyddu o 110 o bobl yn mudo i mewn i Wynedd yn 2001-2002 i 130 o bobl yn 2012-2013[6].

DRAFFT

[5] Amcangyfrifon Daffodil www.daffodilcymru.org.uk

[6] StatsWales

DRAFT

**Darpariaeth bresennol**

**Daliadaeth a chyflwr tai**

Edrychwyd ar ddata cyfrifiad 2011 o ran daliadaeth o fewn Gwynedd ac mae 26.4% o aelwydydd Gwynedd a phawb 65 oed a drosodd gyda 21.6% o aelwydydd Arfon gyda phawb 65 oed a throsodd, 30.6% o aelwydydd Dwyfor a 26.4% o aelwydydd Meirionydd.

Yn ôl data[7] ynglŷn â daliadaeth cartrefi Gwynedd mae 76% o bobl 65 oed a throsodd Gwynedd yn berchennog/ preswylydd, 13% yn awdurdod lleol, 6% gan gymdeithasau tai a 5% yn rhentu'n breifat.

Mae ein data[8] yn dangos bod 1,659 o bobl 65 oed a throsodd yn byw mewn cartrefi heb wres canolog sydd yn gyfatebol i 6.82% o'r boblogaeth hŷn.

Gall addasrwydd rhai tai yn ei gwneud hi yn anodd cael darpariaeth megis gwely / darpariaeth pwrpasol meddygol mewn rhai amgylchiadau.

**Darpariaeth Tai Gwarchod a Thai Gofal Ychwanegol presennol yng Ngwynedd**

- Mae cyfanswm o 24 cynllun Tai Gwarchod 689 o unedau unigol gan Bartneriaeth Tai Gwynedd.
- Mae 3 o Bartneriaid Tai Gwynedd yn berchen cynlluniau Tai Gwarchod yng Ngwynedd. Cartrefi Cymunedol Gwynedd yw'r darparwr mwyaf gyda 13 o gynlluniau, 10 gan Grŵp Cynefin ac yna 1 gan Gymdeithas Tai Gogledd Cymru.
- Yn nhermau lleoliad, Arfon yw'r ardal gyda'r mwyafrif o ddarpariaeth Tai Gwarchod gyda 10 cynllun a 194 (47%) o unedau ,Meirionnydd gyda 9 chynllun a 173 (42%) o unedau a Dwyfor gyda 5 cynllun a 46(11%) o unedau.
- Mae 2 gynllun Tai Gofal Ychwanegol yn weithredol yng Ngwynedd, gyda 30 uned yn Awel y Coleg yn y Bala a 42 uned yng Nghae Garnedd ym Mangor ac mi fydd cynllun 40 uned ym Mhorthmadog erbyn diwedd 2017.

Mae Tai Gwarchod yn cynnig diogelwch a thawelwch meddwl i lawer o'i denantiaid ac aelodau teulu. Yn bennaf oherwydd gwasanaeth warden sydd ar gael yn ogystal

[7] Swyddfa Ystadegau Gwladol

[8] Amcangyfrifon Daffodil www.daffodilcymru.org.uk

ag rhai cynlluniau yn cynnig gweithgareddau cymdeithasol i'w preswylwyr. Mae Grant Cefnogi Pobl yn rhoi cefnogaeth ariannol hanfodol i'r cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, mae cyllideb Cefnogi Pobl sydd yn cael ei weinyddu i Awdurdodau Lleol yn wynebu toriadau sylweddol, cymaint ag 10% yn ystod 2014-15. Tra mae gwarchod gwasanaethau rheng flaen yn bwysig ni ellir rhoi sicrwydd na fydd cynlluniau tai gwarchod yn imiwn doriadau pellach yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth hon cynnig cyfle unigryw i weithio gyda'n Partneriaid Tai I ddilyn trywydd model gwahanol yng Ngwynedd.

Mae datblygu Tai Gofal Ychwanegol wedi ei gynnwys fel nod o fewn **Cynllun Strategol y Cyngor**. Rydym yn cydweithio gyda Grŵp Cynefin a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru i ddatblygu cartrefi sy'n addas ar gyfer pobl hŷn prysur gan addasu'r cymorth fel mae eu hanghenion yn newid wrth iddynt fynd yn hŷn. Byddwn yn cydweithio i ddatblygu ac ystyried opsiynau eraill o ran datblygu ac ariannu darpariaeth yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys edrych ar Dai Gwarchod sy'n eiddo i Gymdeithasau Tai.

Mae Tai Gofal Ychwanegol yn cael ei weld fel cysyniad weddol newydd yng Ngwynedd, mae'r ddau gynllun presennol wedi bod yn llwyddiannus gyda'i trigolion ond mae hyrwyddo ei nod a buddion yn parhau yn her. Un peth sydd yn glir, bydd cynnig yr un lefel o gynllun o ran maint a darpariaeth gweithgareddau i breswylwyr am fod yn her. Eto, mae'r Strategaeth yn cynnig cyfle i ddatblygu tai gofal ychwanegol 'ysgafn' yng Ngwynedd gan ddefnyddio stoc bresennol tai gwarchod a darpariaeth bwrpasol o fewn ein hardaloedd gwledig.

**Crynodeb o'r ddarpariaeth gofal Preswyl a Nyrsio presennol yng Ngwynedd**

- Mae 37 Cartref Preswyl a Nyrsio yng Ngwynedd. Mae 26 Cartref o fewn y sector breifat, a 11 Cartref yn rhan o ddarpariaeth fewnol y Cyngor
- Darperir gofal nyrsio gan y sector breifat yn unig, gyda 16 o'r Cartrefi efo gwelyau Nyrsio
- Mae 16 Cartref wedi eu lleoli yn ardal Arfon; 11 Cartref yn Nwyfor a 8 Cartref ym Meirionnydd
- Mae cyfanswm o 1,108 gwely preswyl neu nyrsio yng Ngwynedd, 790 gwely o fewn y sector breifat a 318 gwely yng nghartrefi'r cyngor

- Mae 539 gwely preswyl; 95 gwely preswyl EMI; 356 gwely Nyrsio; 118 gwely Nyrsio EMI
- Ar y 31 o Orffennaf, 2014 roedd 94% o’r gwelyau preswyl a/neu nyrsio yn llawn yng Ngwynedd. Roedd 68 gwely gwag ar gael o fewn y Sir
- Nid oedd gwelyau gwag Preswyl na Nyrsio EMI yn ardal Meirionnydd ar y 31 o Orffennaf, 2014
- Roedd 49 (6%) gwely gwag o fewn y sector breifat a 19 (6%) gwely gwag o fewn cartrefi’r Cyngor

Ar ddiwedd 2013/14 roedd cyfartaledd o 25.59 person am bob 1,000 o’r boblogaeth dros 65 oed wedi eu cefnogi mewn gofal preswyl neu nyrsio. 19.84 oedd cyfartaledd Cymru.

Yr hyn sydd yn glir o’r uchod yw nad oes cysondeb o ran gwasanaeth Preswyl a Nyrsio ar draws y Sir. Nid yw’n bosib chwaith ddatgan yn glir beth y bwriad rhai o’r ddarpariaeth breswyl yn y sector breifat gydag enghreifftiau diweddar o gartrefi yn cau oherwydd rhesymau gwahanol. Mae’n fwriad edrych ar ddarpariaeth tymor hir y sector hwn ar lefel rhanbarthol.

**Awdurdodau Lleol eraill**

Fel rhan o’n gwaith ymchwil fe edrychwyd ar ddata awdurdodau lleol cyfagos gan gymharu'r stoc llety sydd yn bodoli ynddynt. Yn gyffredinol mae Môn a Conwy yn cynnig llawer mwy o unedau TG a TGY neu wlâu preswyl a nyrsio i bobl hŷn na Gwynedd a Cheredigion.

Ar hyd yr holl amrediad oedran yr edrychwyd arno 65-74, 75-84 a 85+ mae Ceredigion yn cynnig mwy o unedau Tai Gwarchod y pen gyda Gwynedd yn cynnig mwy o unedau Tai Gofal Ychwanegol a gwelyau preswyl a nyrsio.

DRAFT

**Ymgysylltu a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid**

**Ymgysylltu a phartneriaid allweddol**

Yn dilyn cyflwyniad i **Bartneriaeth Tai Gwynedd** yn amlinellu ein bwriad wrth greu'r strategaeth hon, fe ddatganwyd diddordeb ganddynt i ymwneud a'r prosiect o'r dechrau, gan weithio gyda ni i adnabod canlyniadau strategol a llunio datrysiadau a chynllun gweithredu fel rhan o'r strategaeth.

Cysylltwyd hefyd â holl **Gynghorau Cymuned** Gwynedd gyda 9 Cyngor yn gyrru ymateb. Derbyniwyd canlyniadau holiadur, a gafodd ei ddosbarthu yn ddiweddar gan Gyngor Cymuned Felinheli[9].

Fe gysylltwyd hefyd a nifer o fudiadau perthnasol i'r gwaith hwn. Derfynwyd adroddiad defnyddiol gan y **RNIB** Homes for **People with dementia and sight loss** ac fe e-bostiwyd canllawiau penodol gan y **Gymdeithas Alzheimer** yn cynnig sylwadau ar addasiadau i ddarparu ar gyfer pobl gyda dementia. Gellir gweld y rhain yn Atodiad B ac Atodiad C. Hefyd fe gafwyd ymateb gan a **Canllaw**, sydd yn canolbwyntio ar alluogi pobl hŷn fregus i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol yn y gymuned.

**Ymgysylltu a defnyddwyr gwasanaeth presennol a dyfodol**

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu mi drefnwyd grwpiau ffocws gyda fforymau ardal **Age Cymr**u yng Ngwynedd, **Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd** a **Grŵp Craidd Cydraddoldeb Anabledd Gwynedd.**

**Prif negeseuon o'r gwaith ymgysylltu**

-mwyafrif helaeth o bobl a gymerodd rhan yn y grwpiau ffocws yn nodi bod eu cartref presennol yn addas i'w anghenion nawr, gyda nifer yn datgan bod addasiadau wedi cael eu gwneud i'w wneud yn addas.

-nifer yn cydnabod mae'n debyg na fyddai eu cartrefi presennol yn debyg o fod yn addas pe bai eu hiechyd yn dirywio.

-y prif rwystrau a gafodd eu hadnabod oedd gardd fawr, costau cynnal a chadw, grisiau yn y cartref ac ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf.

-roedd consensws ymysg y grwpiau bod gwneud y penderfyniad i symud o'ch cartref presennol yn un anodd iawn, gan fod nifer wedi byw yn eu cartrefi presennol ers blynyddoedd.

[9] Gellir gweld yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad A.

-nifer fach iawn oedd wedi ystyried eu sefyllfa lletya ar gyfer y dyfodol, gyda chydnabyddiaeth bod pobl yn aml yn amharod i'w gymryd o ddifrif tan y bydd yn broblem

-roedd y mwyafrif y bobl a gymerodd rhan yn credu y byddai'n well ganddynt symud i Dai Gofal Ychwanegol yn hytrach na Gartref Preswyl

-roedd nifer yn poeni am ddarpariaeth dementia o fewn y sir, gyda hyn amlycaf ym Meirionydd.

-yn gyffredinol dymuniadau pobl oedd aros mor agos ag y gallent at eu cartrefi presennol, gan fod ganddynt rwydwaith o bobl a chymdeithas yno.

-daeth yn amlwg nad oedd pobl yn ymwybodol o'r opsiynau llety sydd yn bodoli yng Ngwynedd nag ychwaith gwasanaethau ataliol sydd yn cael eu cynnig.

-angen ystyried anghenion pobl hŷn ac anabledd wrth gynllunio datblygiadau newydd.

-diddorol oedd nodi bod rhai o ardal Bangor wedi ystyried Tai Gofal Ychwanegol yn sgil cyhoeddusrwydd am ddatblygiad newydd yn yr ardal.

--------------------------

-trafodwyd ymateb nifer o Gynghorau Gymuned yr angen am dai fforddiadwy un/dwy lofft ar un llawr (yn benodol mewn ardal wledig Dwyfor).

- pwysleisiwyd gan y Cynghorau Cymuned pwysigrwydd cael amrywiaeth o opsiynau llety ar raddfa leol, fel nad yw pobl yn gorfod symud i le dieithr.

-roedd nifer yn tynnu sylw at ddarpariaeth o lety addas ar gyfer bob a dementia o fewn y sir.

DRAFT

**Adnabod ardaloedd penodol**

Wrth ddadansoddi'r data, mi ddaeth i'r amlwg bod rhai ardaloedd yn dod i'r brig mewn nifer o feysydd ac felly mi edrychwyd yn fwy manwl ar yr ardaloedd hyn, gan edrych ar boblogaeth 65-74, 75-84 a 85+ (canran a niferoedd) ar hyn bryd, amcangyfrif i'r dyfodol a thueddiadau'r gorffennol. Edrychwyd hefyd ar gyfansoddiad cartrefi bobl 65+ yn yr ardaloedd hyn, rhagfynegiad niferoedd dementia, stoc llety yn yr ardaloedd hyn a phellter teithio i gartrefi preswyl a nyrsio. Ar gyfer dadansoddiad llawn o'r anghenion yn yr ardaloedd hyn gweler Atodiad 2.

Wrth edrych ar ddata poblogaeth yn unig mi roedd 10 LSOA[10] yn dod i'r brig, ond wrth i ni ychwanegu a chymharu mwy o ddata i'w cymharu mi roedd 5 LSOA yn dod i'r amlwg yn gyson ar ben y rhestr. Y 8 LSOA oedd:

- Tywyn 1
- Porthmadog (Gorllewin)
- Aberdaron Botwnnog a Tudweiliog
- Dyffryn Ardudwy, Llanbedr
- Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel
- Llanbedrog ac Abersoch
- Llanbedr
- Caernarfon (Menai)

Gellir cyfuno rhai o'r ardaloedd hyn gyda'i gilydd yn ôl ardal ddaearyddol:

- Dyffryn Ardudwy a Llanbedr
- Tywyn ac Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel
- Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog a Llanbedrog ac Abersoch

[10] Local Super Output Area

**Prif negeseuon**

1. **Cefnogi unigolion i aros yn eu cartrefi cyn hired â phosib**

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Annog pobl i ystyried ac i gynllunio eu dymuniadau lletya yn gynharach
- Gwneud cartrefi pobl hŷn yn addas iddynt allu aros yn eu cartrefi pan fo hynny'n addas a phosib
- Hyrwyddo defnydd o offer ac addasiadau posib ee offer teleofal
- Cadw darpariaeth gofal ysbaid/ gwlâu dros dro o fewn y Sir

2. **Sicrhau llety addas i bobl hŷn Gwynedd**

Yn unol â chefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi, rydym am sicrhau bod amrywiaeth o opsiynau lletya ar gael i bobl hŷn Gwynedd

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Sicrhau bod defnydd llawn yn cael ei wneud o'r ddarpariaeth Tai Gwarchod sydd yn bodoli yn y Sir
- Cynyddu'r ddarpariaeth o Dai Gofal Ychwanegol neu fodel cyffelyb o fewn y sir
- Lleihau'r angen am wlâu mewn cartref preswyl yn y Sir drwy weithredu ar yr uchod. Yn dilyn cynnydd tebygol mewn galw, bydd angen rhoi ystyriaeth i gynyddu'r ddarpariaeth llety nyrsio cyffredinol
- Yn dilyn cynnydd tebygol mewn galw, bydd angen ymchwilio i gynyddu'r ddarpariaeth llety gofal nyrsio EMI

DRAFT

**3. Canfod ardaloedd daearyddol penodol ble mae'n debygol y bydd galw uchel**

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Archwilio posibilrwydd creu cynlluniau penodol i'r ardaloedd canlynol yn sgil cael eu hadnabod fel ardaloedd i'w blaenoriaethu o ran datblygu opsiynau llety:
    - Dyffryn Ardudwy a Llanbedr
    - Tywyn ac Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel
    - Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog a Llanbedrog ac Abersoch

Cynnal trafodaeth â phartneriaid i drafod a chyd gynllunio darpariaeth lletya o fewn y Sir

**4. Sicrhau bod pobl hŷn Gwynedd yn ymwybodol o'r opsiynau llety sy'n bodoli o fewn y Sir a bod gwybodaeth hygyrch ar gael.**

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Gwella ansawdd a darpariaeth gwybodaeth gan sicrhau bod gwybodaeth hygyrch ar gael i bobl ynglŷn â holl opsiynau lletya pobl hŷn Gwynedd ynghyd ag addasrwydd y llety
- Cydweithio a phartneriaid perthnasol i lunio a dosbarthu'r wybodaeth hwn

DRAFT

DRAFT

**Cynllun Gweithredu Chwefror 2016- Chwefror 2017**

Er mwyn llunio cynllun gweithredu gellir ei gyflawni drwy fodd cynhwysol mae'r isod yn cael ei awgrymu fel pwynt gweithred gyntaf:

- Trefnu sesiwn drafod gyda Phartneriaeth Tai Gwynedd i drafod prif negeseuon gyda hwy
- Cynnal trafodaeth gyda phartneriaid o fewn y maes iechyd

Mae'r isod yn enghraifft / man cychwyn ar lunio cynllun gwaith cynhwysfawr:

| **Nod** | **Gweithred** | **Swyddog/ Grŵp cyfrifol** | **Amserlen** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi unigolion i aros yn eu cartrefi cyn hired â phosib** | | | | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o opsiynau ar gyfer pobl hyn ymysg staff proffesiynol o fewn iechyd a gofal | Hyrwyddo dewisiadau ar gyfer pobl hyn | Gweithwyr rheng flaen | Yn barhaus | |
| Sicrhau bod darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol i'w gael yn Arfon, Dwyfor a Meirionydd | Sicrhau bod Cynllun Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog yn cael ei adeiladu o fewn yr amserlen | Grŵp Gweithredol Hafod y Gest | Hyd cyfnod gosod cynllun TGY | Gwaith i gychwyn ar safle mis Chwefror 2016 gyda chynllun gwaith mewn lle ar gyfer y Grŵp Gweithredol |
| Asesu effaith cynnal gwasanaeth warden sydd gan Gymdeithasau Tai o fewn y gymuned yn ehangach | CCG i arwain ar waith asesu effaith | Cyfarwyddwr cynorthwyol CCG | I'w bennu gan CCG | |
| Rôl iechyd /gwasanaethau cymdeithasol / Tai wrth ddarparu step up step down / gofal canolraddol / a chyd gomisiynu | Grŵp Strategol Iechyd a Tai 2025 yn edrych ar hwn | Grŵp Strategol Gogledd Cymru 2025 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Teleofal- bod y math priodol o offer yn cael ei gynnig er mwyn cynnal annibyniaeth | Adolygiad o weledigaeth tefeofal gan Canllaw | Canllaw | Cyflwyno adroddiad yn mis Mehefin | |
| Cynnig cynllun 'symud i eiddo llai' mewn cydweithrediad gyda Chymdeithasau Tai a Canllaw | Bod swyddogion tai Cymdeithasau Tai yn rhoi cefnogaeth i bobl hyn symud i dai gwarchod neu TGY Cais i ddatblygu Cynllun Busnes i gynnig gwasanaeth symud ymlaen yn fasnachol yn y Sir drwy Canllaw | Cymdeithasau Tai a Canllaw | | Derbyn ystadegau yn flynyddol |
| **Canfod ardaloedd daearyddol penodol ble mae'n debygol y bydd galw uchel** | | | | |
| Cynnal gwaith ymchwil bellach i'r ardaloedd gyda'r dwysedd uchaf o bobl hyn | Gwasanaethau Tai a Chymdeithasol i bennu 3-4 ardal blaenoriaeth gyda'r bwriad o gasglu data ansoddol am alw am wasanaeth yn yr ardaloedd | Swyddog Comisiynu a Rheolwr Strategol Tai | Ymhen mis | |
| Adnabod opsiynau o ran darpariaeth yn yr ardaloedd sydd ag dwysedd uchaf | Sefydlu grŵp tasg a gorffen i adnabod ardaloedd o flaenoriaeth o ran darpariaeth i'r dyfodol | Partneriaeth Tai | Adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth Tai ymhen 6 mis | |
| **Sicrhau llety addas i bobl hŷn Gwynedd** | | | | |
| Creu datganiad sefyllfa o ran darpariaeth tai a gofal yn y Sir | Grŵp Tasg a Gorffen i yrru ymlaen i greu datganiad sefyllfa | Bwrdd Lletya a Partneriaeth Tai | Adroddi yn ôl i'r Bartneriaeth Tai ymhen 6 mis | |
| Creu safon ac egwyddorion | Cysoni gwybodaeth a safonau ar | Partneriaeth | Ymhen 3 | |

Tud. 35

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gwasanaeth ar gyfer tai gwarchod yn y Sir sy'n seiliedig ar fodel Tai Gofal Ychwanegol | draws Cymdeithasau Tai | Tai | mis | |
| Darpariaeth llety nyrsio / gofal EMI | Gwaith rhanbarthol yn digwydd i sefydlu hwb comisiynu fydd yn rhoi arweiniad ar sut allwn ddylanwadu'r farchnad breifat mewn rhai ardaloedd | Grwp Rhanbarthol | Adrodd yn ôl bob 2 mis | |
| **Sicrhau bod pobl hŷn Gwynedd yn ymwybodol o'r opsiynau llety sy'n bodoli o fewn y Sir a bod gwybodaeth hygyrch ar gael** | | | | |
| Sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn ag opsiynau llety ee TG a TGY ar gael i bobl hŷn Gwynedd | Adolygu'r a diweddaru'r daflen wybodaeth | Partneriaeth Tai | Ymhen 3 mis | Taflen wybodaeth ar gael ac wedi ei rhannu a grwpiau/ mudiadau perthnasol |

DRAFT

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Elliw Llŷr

## 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

Uned Comisiynu, Adran Oedolion, Llesiant ac Iechyd
Cynghorau Cymuned yng Ngwynedd
Aelodau Fforwm Pobl Hyn Gwynedd

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

Chwerfor 2016

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

Mawrth 2016

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Cefnogi unigolion i aros yn eu cartrefi cyn hired â phosib

Sicrhau llety addas i bobl hŷn Gwynedd

Canfod ardaloedd daearyddol penodol ble mae'n debygol y bydd galw uchel

Sicrhau bod pobl hŷn Gwynedd yn ymwybodol o'r opsiynau llety sy'n bodoli o fewn y Sir a bod gwybodaeth hygyrch ar gael.

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda pobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

| |
|---|
| Cynghorau Cymuned<br>Aelodau Fforwm Pobl Hyn Gwynedd<br>Partneriaeth Tai Gwynedd |

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

| |
|---|
| Adroddiad cynhwysfawr o ran data cenedlaethol a lleol sydd yn rhoi gwybodaeth am alw am wasanaeth o ran gofal, oedran pobl hyn sydd angen gwasanaethau ac am pa hyd |

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

| |
|---|
| Gwaith pellach o ran incwm trigolion a faint sydd yn gallu ariannu gwasanaethau gofal / darpariaeth cymorth eu hunain |

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Positif | Cyfle i bobl hyn allu cyfrannu i'w cymdeithas drwy gynnal eu hannibyniaeth drwy gynnal cartref sydd yn addas ar eu cyfer |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Cyfle i bob hyn allu cyfrannu i'w cymdeithas drwy gynnal eu hannibyniaeth drwy gynnal cartref sydd yn addas ar eu cyfer |
| **Meithrin perthnasau da** | Positif | Annog pobl i aros o fewn eu cymunedau a chynnal eu cysylltiadau cymdeithasol a theuluol |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Anabledd** | Positif | Annog pobl i aros o fewn eu cymunedau a chynnal eu cysylltiadau cymdeithasol a theuluol |
| **Rhyw** | Positif | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Crefydd neu gred** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Yr iaith Gymraeg** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Oedran** | Positif | Cydnabyddiaeth bod cartref addas yn helpu person hyn gynnal eu hannibyniaeth |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br>Pwpras y Stratetgaeth yw rhoi cyngor a gwasanaeth priodol ac addas er mwyn galluogi pobl hyn i fyw yn annibynnol gyn hired â phosib o fewn eu cymuned cynhenid |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br>Dim wedi eu hadnabod |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br>Nac oes |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er fod yr asesaid uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Cynllun gwaith i'w adolygu bob blwyddyn |

## 12) PENDERFYNU

| |
|---|
| Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar 15.3.16 |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
15 Mawrth 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas

**Pwnc:** Model Ariannol i gynyddu cyflenwad o dai fforddiadwy

**Swyddog cyswllt:** Elliw Llŷr

---

**Y penderfyniad a geisir**
Er mwyn cyflawni prosiectau strategol i ddiwallu rhai o'r anghenion tai yn y Sir, bwrw ymlaen i ddarparu benthyciadau, lle ceir sicrwydd trwy ernes neu warant briodol ac amodau cymesur sydd i'w pennu mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ar gyfer pob cynllun unigol

---

**Barn yr aelod lleol**

*Ddim yn fater lleol*

---

**I. Cyflwyniad**

Mae'r Cabinet yn cydnabod gall y Cyngor cyfrannu yn strategol er mwyn darparu mwy o dai ar gyfer grwpiau penodol o bobl o fewn Gwynedd. Cyflwynir y model amgen o gynyddu cyflenwad a chyflymu nifer o dai fforddiadwy er mwyn cyflawni mwy na'r yr hyn sydd yn cael ei ddarparu drwy Grant Tai Cymdeithasol ar hyn o bryd.

O fewn ein cynllun strategol 2015-17 rydym yn nodi ein dymuniad i adolygu sut rydym yn sicrhau bod cyflenwad digonol o dai addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd ac mae'r model ariannol a gyflwynir yn ymateb i'r dyhead hwn.
Mae 4 maes penodol wedi ei adnabod a'i gytuno dylid ymyrryd:

**1.1 Maes Pobl Hyn / Maes Gofal**
Mae egwyddorion Ffordd Gwynedd yn ymgeisio i drawsnewid y modd darperir gwasanaethau i bobl ag anghenion gofal ac yn hanesyddol mae'r Cyngor wedi adnabod "broblemau" ee (gwariant uwch yn y maes gofal) fyddai bosib eu lleddfu rhywfaint drwy wneud mwy yn y maes

lletya/tai.  Hynny yw, rydym yn credu bod achos busnes i wella'r cyflenwad llety/tai er mwyn rheoli a lleihau gwariant mewn meysydd arall.

Fel rhan o'r agenda rheoli galw/ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol mae'n hanfodol yn ogystal cofio'r canlynol:-




**1.2 Maes Digartrefedd**
Yn y maes digartrefedd, mae diffyg yn y ddarpariaeth llety addas yn parhau sydd yn golygu bod y Cyngor yn gwario oddeutu £100k ar lety "anaddas dros dro". Mae cyfle i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau eiddo addas gyda chefnogaeth o fewn ardaloedd sydd wedi eu hadnabod ag angen. Mae Adroddiad Craffu diweddar ar Wasanaethau Digartrefedd yn nodi'r gwaith da sydd yn digwydd o fewn y gwasanaeth ac yn cydnabod angen buddsoddiad yn hosteli cyfredol sydd ym mherchnogaeth y Cyngor.

**1.3 Cofrestr Dai**
Ar hyn o bryd mae 1,993 o geisiadau ( hy teulu / unigolyn) ar y gofrestr tai cyffredin( Ebrill 2015)yn disgwyl am beth y byddan yn diffinio fel "llety addas", cyplysir hyn gyda'r ffigwr o tua 500 o dai sydd yn cael eu gosod yn flynyddol gan y Cymdeithasau Tai.

Diffyg cyflenwad mewn rhai ardaloedd penodol
Mae yna rwystr mewn rhai amgylchiadau ac ardaloedd lle nad yw datblygiadau yn naturiol ddod drwodd, a hyn oherwydd diffyg mewn hyder yn y sefyllfa ariannol.  Felly, mewn rhai ardaloedd mae diffyg tai addas i'r bobl hynny sydd eisiau aros yn lleol.

Mae gwybodaeth o'r Gofrestr Tai Cyffredin yn amlygu'r angen mewn ardaloedd penodol. Byddai'r model ariannol yn ddull o gynyddu nifer o unedau tai cymdeithasol yw rhentu, bydd llawer ohonynt yn opsiwn ddaliadaeth niwtral, sef opsiwn i brynu i mewn ymhen amser.

Fel modd o ymateb i ddiffyg cyflenwad o fewn ardaloedd gwledig mae model Ymddiriedolaeth Tir yn cynnig cyfle i ddatblygu clwstwr bach o dai er mwyn galluogi pobl o fewn cymunedau i brynu / rhan berchnogi eu cartref. Mae gwaith sgopio cychwynnol yn dangos bod modd cael y model i weithio mewn ardaloedd gwledig ar draws Wynedd.

Mae'r rhain yn cynnwys leiniau bychain o dir na fyddai o bosib yn denu datblygwyr i'w cymryd ymlaen gan fyddai gofynion amodau cynllunio yn golygu byddai angen gostyngiad ar bris marchnad agored.

**2. Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae'r 4 tabl isod yn cynnig datrysiadau i'r materion uchod
Mae'r tabl isod yn crynhoi'r math o gynllun gall y model cyllido ei ariannu ar buddion a geir o wneud hynny:

| **Cynllun** | **I. Tai Gofal Ychwanegol (TGY) neu amrywiad o'r cynllun** |
|---|---|
| **Nodweddion** | Darpariaeth yn bennaf ar gyfer pobl dros 55 oed |
| **Cost** | O gwmpas £8 miliwn (42% yn gyllideb breifat gan Gymdeithas Tai) Cost o greu datblygiad ychwanegol i'r 3 cynllun presennol<br>Cost fesul uned £200,000 gyda 58% o hwn yn gyfraniad gan y Cyngor |
| **Nifer yr unedau** | 40 uned yn seiliedig ar gynlluniau gofal ychwanegol. Byddai modd cael modelau gwahanol neu lai o unedau |
| **Budd ddeiliaid** | • Trigolion dros 55 mlwydd oed a phobl gydag anableddau<br>• Tenantiaid tai cymdeithasol sydd eisiau symud i eiddo llai<br>• Perchnogion a rhentwyr sydd eisiau symud i eiddo llai |
| **Problem i'w datrys** | Cydnabyddiaeth bod cyfradd uwch o bobl hyn yn byw yn hirach fydd syn golygu dibyniaeth ar y Cyngor am wasanaeth gofal mewn cyfnod o doriadau sylweddol.<br>Her o ddarparu gofal dros ardal eang.<br>Gorddibyniaeth ar fodelau traddodiadol . |
| **Buddion i'r Cyngor /** | • Cynnig model amgen i ofal preswyl<br>• Cost bob uned yn rhatach na gofal preswyl<br>• Canoli gwasanaeth gofal mewn un lleoliad |

| | |
|---|---|
| | • Atal dibyniaeth ar wasanaeth gofal a dyluniad yn golygu costau is<br>• Hybu a chadw annibyniaeth unigolion |
| **Ystyriaethau eraill** | • Gwaith ymchwil eang sy'n profi bod TGY yn lleihau'r teimlad o unigedd a'r galw ar wasanaethau eraill.<br>• Ymdeimlad o gymdogaeth a thenantiaid yn cynnal a chefnogi ei gilydd gan leihau/atal dibyniaeth.<br>• Canlyniadau positif o ran y tenant sydd yn lleihau dibyniaeth ar ofal cymdeithasol ac iechyd<br>• Model megis Tai Gofal Ychwanegol 'Lite' yn opsiwn sydd gyda chost cyfalaf is ac o bosibl yn fwy addas ar gyfer ardal gyda phoblogaeth is/ gwledig.<br>• Dyluniad da yn lleihau risgiau a sicrhau amgylchedd diogel. |
| **Effaith peidio buddsoddi** | • Gofynion ar wasanaeth gofal yn parhau ac yn cynyddu<br>• Sail tystiolaeth o'r Strategaeth Letya Pobl Hyn yn dangos bydd ardaloedd penodol yn gweld cynnydd mewn galw gwasanaethau gofal ac iechyd yn arbennig rhai dros 85 a rhai sydd angen 3 galwad y dydd. |
| **Enghreifftiau eraill o'r model mewn ardaloedd eraill** | 2 gynllun TGY wedi agor yng Ngwynedd yn barod 3ydd i'w ddatblygu ym Mhorthmadog<br>Partneriaid Tai yn ddigon profiadol i gyflawni cynllun arall.<br>Cynllun "Lite" newydd agor yn ardal Conwy |
| **Ystyriaethau ariannol / cyfreithiol** | Cymdeithas Tai fyddai yn adeiladu a rheoli'r cynllun.<br>Cyngor yn parhau i dalu costau gofal.<br>Posibl cynnig benthyciad ynghyd ag elfen o grant ar gyfer datblygu'r cynllun hwn gan ei fod yn gynllun cost uchel a byddai angen elfen o gyfraniad gan y Cyngor (cyfalaf neu dir) |

*Mae potensial i addasu'r model allai amrywio cost y cynllun os mai darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol sydd eu hangen (hyn yn ddibynnol ar waith pellach ar y Strategaeth Letya Pobl Hyn) gall opsiynau eraill megis*

*Tai Gofal Ychwanegol 'lite' fod yn opsiwn neu gall fod potensial i addasu a gwella cynllun tai gwarchod mewn rhai cymunedau*

| **Cynllun** | **II. Ymestyn ac Addasu darpariaeth ar gyfer Pobl Ddigartrefedd** |
|---|---|
| **Nodweddion** | Rhoi llety i bobl ddigartref yn unol â gofynion Deddf Tai 2014 |
| **Cost** | £700k ( gyda 42% yn gyllideb breifat gan Gymdeithas Tai)<br>Cost fesul uned £100,000 gyda 58% yn gyfraniad y Cyngor |
| **Nifer yr unedau** | 7 uned |
| **Budd ddeiliaid** | • Pobl sengl a theuluoedd bregus sydd dan fygythiad o ddigartrefedd<br>• Pobl mewn sefyllfa o argyfwng fyddai yn anodd ei lleoli mewn mannau eraill ac sydd angen sefydlogrwydd cyn cael cartref parhaol.<br>• Pobl angen cymorth cefnogaeth i symud ymlaen i lety addas. |
| **Problem i'w datrys** | • Darpariaeth yr hosteli presennol yn Neiniolen a Corris angen eu moderneiddio (cyflwr ac ansawdd adeiladau)<br>• Costau cyfalaf presennol i'r Cyngor tua £200,000<br>• Potensial i arbediad costau refeniw i'r Cyngor gan gynnwys talu costau 'voids'<br>• Arbed costau cynnal ar y cynllun Cynllun Lesu Tai Preifat / Gwely a Brecwast<br>• Angen gwasanaeth argyfwng ar gyfer unigolion mwyaf bregus<br>• Adnoddau Cefnogi Pobl wedi ac yn debygol o ddirywio ymhellach fyddai yn gadael bwlch ariannol. |
| **Buddion i'r Cyngor /** | Cynnig model amgen a modern gan roi gwasanaeth tai a chefnogaeth<br>Allanoli'r gwasanaeth/adeiladau i Gymdeithas Dai. |
| **Effaith peidio buddsoddi** | • Angen uwchraddio'r ddarpariaeth bresennol heb adnodd wedi dynodi<br>• Cynnal adeiladau sydd ddim yn wirioneddol addas ar gyfer safonau presennol |

| | |
|---|---|
| | • Lleihad mewn cyllideb Cefnogi Pobl yn golygu byddwn yn gorfod darparu llai o gefnogaeth na'r hyn sydd ar gael yn bresennol. |
| **Enghreifftiau eraill o'r model mewn ardaloedd eraill** | Darpariaeth hosteli yn amrywio gyda rhai Awdurdodau Lleol yn dewis darparu hosteli eu hunain ac eraill yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Tai |
| **Ystyriaethau ariannol / cyfreithiol** | Cymdeithasau Tai gyda phrofiad o gynnig gwasanaeth tai a chefnogaeth i bobl fregus ac o reoli hosteli |

| **Cynllun** | **III. Ymddiriedolaeth Tir (YMTIC)** |
|---|---|
| **Nodweddion** | Cynllun fyddai'n caniatáu gwireddu datblygiadau bach o tua 4-7 o gartrefi ar y tro o fewn pentrefi gwledig. Bydd yn sicrhau cartrefi addas i bobl leol a chefnogi hyfdra cymunedau gwledig |
| **Cost** | Ymrwymiad hyd at £3.5 miliwn o fenthyciad cychwynnol er mwyn sefydlu'r YMTIC (mae Cynllun Busnes wedi ei ddatblygu ar gyfer sefydlu YMTIC)<br>Cost fesul uned £128,000 |
| **Nifer yr unedau** | • Swm a nodir yn caniatáu cynllunio ar gyfer 24 cartref newydd mewn 3 cymuned wledig dros gyfnod byr.<br>• Ar ôl i'r unedau gael eu perchnogi a'i gwerthu bydd y buddsoddiad yn cael ei rhyddhau ac yn cylchdroi byddai yn caniatáu cyllido rhagor o unedau i'r dyfodol heb yr angen am fuddsoddiad pellach. |
| **Cost yr Uned** | £128,000 cost yr uned ond arian yn cael ei adennill unwaith mae'r unedau yn cael eu gwerthu ac yn cael ei ailgylchu i ddatblygu mwy o unedau. |
| **Budd ddeiliaid** | • Pobl sydd yn methu prynu ar y farchnad agored<br>• Targedu'r 'squeezed middle' sydd ddim yn gymwys/flaenoriaeth am eiddo cymdeithasol, ar gyflogau canolig ond yn methu cynilo ar gyfer blaendal.<br>• Noder fod hyd at 57.9% o boblogaeth Gwynedd wedi eu prisio allan o'r farchnad |

| | |
|---|---|
| **Problem i'w datrys** | • Cynorthwyo rhai sydd yn methu prynu cartref o fewn eu cymunedau lleol<br>• Cynnig model o weithio gyda'r gymuned leol i adnabod a datrys anghenion tai ac i gadw pobl ifanc o fewn ei gymuned<br>• Preswylwyr yn fudd ddeiliaid yn y cynllun ein hunain<br>• Anhawster hunan adeiladu a gwireddu cynlluniau o faint bach o fewn cymunedau |
| **Buddion i'r Cyngor** | Sefydlu model hunan gynhaliol fydd yn targedu ardaloedd gwledig lle mae brwdfrydedd gan y gymuned i'w helpu ei gilydd. Lleddfu pwysau ar y Gofrestr Dai. |
| **Ystyriaethau eraill** | • Cyfle i fuddsoddi mewn ardaloedd gwledig lle na fyddai datblygwyr traddodiadol gyda diddordeb datblygu.<br>• Polisïau Cynllun Datblygu Lleol yn cymryd i ystyriaeth model Ymddiriedolaeth Tir o fewn eu polisi Tai Fforddiadwy |
| **Effaith peidio buddsoddi** | Methu ymateb i ddyheadau pobl i aros o fewn eu cymunedau<br>Gellir addasu'r' cynllun i gynnwys unrhyw demograffig mewn cymuned e.e. gallai fod yn gynllun penodol ar gyfer pobl hyn gall hefyd gynnig benthyciad i hunan adeiladwyr wireddu cynlluniau ar safleoedd llai. |
| **Enghreifftiau eraill o'r model mewn ardaloedd eraill** | Cyngor Cernyw wedi datblygu model llwyddiannus iawn sydd hefo nodweddion cymdeithasol / economaidd tebyg i Wynedd<br>Cynllun Busnes wedi ei ddatblygu gan ddefnyddio sgiliau ac arbenigedd swyddogion o Gernyw<br>150 o gartrefi wedi eu cwblhau yng Nghernyw gyda'r Cyngor yn buddsoddi £4 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd (cynllun yn bodoli yna ers 2006) |
| **Ystyriaethau ariannol / cyfreithiol** | • Endid ymbarél fyddai'r Ymddiriedolaeth Tir gyda'r Cyngor yn un o brif randdeiliaid y Cynllun.<br>• Byddai Grŵp Cynefin yn darparu'r arbenigedd o ran rheoli ac adeiladu'r cynlluniau ynghyd â hyrwyddo'r Ymddiriedaeth ar lawr gwlad drwy'r |

| | |
|---|---|
| | swydd Hwylusydd Tai Gwledig<br>• Bydd angen llunio/ystyried dogfennau cyfreithiol priodol ar gyfer y cynllun |

| **Cynllun** | **IV. Tai Gwag yn ôl i ddefnydd.** |
|---|---|
| **Nodweddion** | Gallu targedu ymdrech mewn ardaloedd penodol a hefyd canolbwyntio ar fath a maint arbennig o eiddo ar sail tystiolaeth. |
| **Cost** | £200,000<br>Cost fesul uned £7,000 (gyda photensial i ailgylchu ar rai cynlluniau) |
| **Nifer yr unedau** | Gellid sicrhau 30 o unedau ychwanegol ar sail y swm uchod.<br>Mae potensial i addasu'r swm yn ddibynnol ar faint o arian sydd ar gael neu uchelgais y Cyngor o ran cynyddu nifer o uned fforddiadwy. |
| **Budd ddeiliaid** | • Trigolion o fewn eu cymunedau yn cael cartrefi mewn tai presennol<br>• Pobl ar y gofrestr dai sydd eisiau eiddo i'w rentu<br>• Pobl ifanc sydd eisiau sefydlu cartrefi ond yn cael anhawster cael morgais. |
| **Problem i'w datrys** | Gwynedd gyda'r lefel uchaf o dai gwag yng Nghymru.<br>Adnodd sydd yn cael ei gwastraffu<br>Potensial i rentu /gwerthu neu werthu ymlaen i Gymdeithas Dai<br>Cost adeiladu o'r newydd ac amser i gwblhau eiddo newydd. |
| **Buddion i'r Cyngor /** | • Ceisiadau o'r Gofrestr Tai neu ddigartref yn cael cynnig tenantiaeth.<br>• Cyfleoedd ddatblygu eiddo yn gyfyngedig<br>• Gallu i roi amod gyda'r perchnogion mai person sydd ar gofrestr tai neu yn ddigartref sydd yn cael cynnig tenantiaeth. Sicrhad am o leiaf 5 mlynedd. |
| **Ystyriaethau eraill** | • Rheolaeth gan y Cyngor ar osod yr eiddo am 5 mlynedd.<br>• Gwella edrychiad ac eiddo sy'n broblem yn |

| | |
|---|---|
| | gymdeithasol<br>• Cwmnïau lleol yn ymgymryd â'r gwaith adnewyddu hyn yn hybu economi lleol |
| **Effaith peidio buddsoddi** | Eiddo gwag yn parhau yn wag. Adnodd sy'n cael ei wastraffu ac yn dirywio ymhellach<br>Rhestr aros am dy Cymdeithasol yn aros yr un fath / cynyddu |
| **Enghreifftiau eraill o'r model mewn ardaloedd eraill** | Cynllun llwyddiannus yng Ngwynedd eisoes ac yn cael ei ystyried yn flaengar ar lefel Gymreig.<br>Arbenigedd a phrofiad wedi datblygu yn lleol gyda gallu i ymestyn ac ymateb. |
| **Ystyriaethau ariannol / cyfreithiol** | Trefniadau eisoes mewn lle o ran cytundebau a hawl ar yr eiddo.<br>Polisïau a chanllawiau wedi ei ddatblygu ac yn aeddfed i'w hymestyn . |

**3. Ystyriaethau perthnasol**

**3.1 Pam ddylai'r Cyngor ymyrryd yn y maes hwn?**

Mewn cyfnod o leihad mewn arian cyfalaf gan LC a lleihad mewn adnoddau gan y Cyngor mae'r model yn cynnig dull o gyflenwi ar sawl lefel i ddarparu tai ar ran y Cyngor, cartrefu pobl sydd mewn angen a chyfrannu at yr economi yn lleol. Byddai telerau yn cael eu gosod ar sail:

I. Byddai arwystl ac amodau benthyciadau yn gymesur â lefel y benthyciad fydd ei angen

II. Byddai cyfradd llog unrhyw fenthyciad a awdurdodir yn ddigonol i wasanaethu'r benthyciad yn ogystal â bodloni gofynion ariannol ac unrhyw faterion 'state aid'. Rhagwelir byddai hyn ar leiafswm o 0.5% uwchlaw cyfradd PWLB

III. Bydd hyd y benthyciad yn amrywio yn ddibynnol ar y cynllun, byddai benthyciad yn gallu bod yn dymor byr YMTIC ac yn cael ei ailgylchu tra byddai benthyciad i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ar delerau hirach, hyd at 25 mlynedd

**IV.** I'r Cabinet roi grym i'r Uwch Reolwr Tai weithredu gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol

**V.** Byddai pwyslais unrhyw gynllun iddo fod yn hyfyw ac yn y pendraw yn fforddiadwy

**4. Camau nesaf ac amserlen**

Mae'r isod yn nodi blaenoriaeth o ran symud ymlaen gyda'r cynlluniau :

I. **Ymddiriedolaeth Tir (YMTIC)**

Byddai angen hyd at £3.5miliwn ar gyfer sefydlu Ymddiriedolaeth Tir gyda'r bwriad o dargedu tair ardal i gychwyn, sef:

- Bethesda – 8 uned a'r gost o £1.1 miliwn gyda'r unedau i gyd yn cael eu gwerthu
- Penygroes – 12 uned a'r gost o £1.511miliwm gyda'r unedau i gyd yn cael eu gwerthu
- Waunfawr – 4 uned a'r gost o £0.5 miliwn gyda 4 uned yn cael eu gwerthu

Byddai bob cynllun yn cael ei asesu ac arian yn cael ei ryddhau fesul cynllun. Mae'r cynlluniau hefyd wrth gwrs yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio priodol.

Mae'r isod yn rhoi enghraifft sut byddai'r model yn gallu gweithio:

- Tir wedi ei brynu gan Grŵp Cynefin

- Cyngor yn rhoi benthyciad ac yn cael arwystl cyntaf ar y tir
    - ( benthyciad yn cael ei wneud i Grŵp Cynefin yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth Tir hyd nes bydd yr YMTIC wedi ei sefydlu a gydag asedau)

- Grŵp Cynefin yn cwblhau'r unedau - cost adeiladu tua £128,000 yr uned

- Unedau yn cael eu gwerthu rhwng 70% a 100% bris farchnad agored

- Benthyciad gyda llog yn cael ei ad- dalu i'r Cyngor

- Benthyciad yn cael ei ailgylchu ar gyfer y cynllun nesaf

- Bydd yr elfen ecwiti o fewn y tai yn ailgylchu i greu'r Ymddiriedolaeth Tir

II. **Tai gwag yn ôl y defnydd**

Mae'r Cyngor eisoes yn cynnig benthyciadau tai gwag y bwriad gyda'r cynllun hwn fydd cynyddu'r  nifer o dai gwag yn ôl i ddefnydd. Bwriad yw rhoi benthyciad er mwyn cymell adnewyddu tai.

Byddai sicrwydd eto o ran y Cyngor gyda arwystl a/neu gyfradd llog sy'n gymesur a lefel y benthyciad.

### III. Darpariaeth ar gyfer Gwasanaeth Digartref

Mae'r cynlluniau hyn yn destun gwaith pellach o ran adnabod ardaloedd lle byddai cynnig gwasanaeth tai a chefnogaeth yn addas o ran galw am wasanaeth. Pan ddaw'r prosiect ymlaen bydd angen i'r Cyngor asesu'r angen am sicrwydd drwy arwystl neu warant a chyfradd llog priodol.

### IV. Tai Gofal Ychwanegol

Mae'r cynlluniau hyn yn destun gwaith manylach o ran adnabod ardaloedd addas fyddai yn darparu model tebyg i Tai Gofal Ychwanegol. Bydd y Strategaeth Letya Pobl Hyn yn rhoi cyfeiriad i'r gwaith hwn. Eto yma, bydd angen i'r Cyngor asesu'r angen am sicrwydd drwy arwystl neu warant a chyfradd llog priodol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae bron yn ystrydeb bellach i ddweud bod tai digonol ac addas yn un o hanfodion cymdeithas hyfyw a chynaliadwy. Ffaith arall yw bod gallu'r Cyngor i gyfrannu yn y maes hwn wedi crebachu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf wrth i'r lefel o adnoddau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau yn sylweddol. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ymdrech i ymateb i'r angen ar y naill law a'r cyfyngiadau adnoddau ar y llall. Rwy'n ei gymeradwyo.

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yn rhoi cefndir a sylw priodol i'r rheswm dros ariannu'r prosiectau penodol drwy fenthyciadau. Nodir fod amodau priodol i'w gosod ar unrhyw fenthyciadau fydd yn cynnwys gwarant ariannol i'r Cyngor drwy arwystl cyntaf lle ystyrir hynny yn angenrheidiol. Dylid sicrhau bod asesiad ariannol llawn o'r benthyciwr yn cael ei ystyried cyn benthyg, er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gosod amodau angenrheidiol fydd yn gymesur a'r risg ar yr adeg. Dim sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae'r adroddiad yn cyflwyno 4 cynllun gwahanol, lle gall y Cyngor wneud gwahaniaeth o ran darpariaeth tai yn y sir trwy ddarparu benthyciadau. Wrth fenthyg arian sylweddol, rhaid gofalu bod sicrwydd cawn ad-daliad llawn ac amserol. Mae'r argymhelliad a'r adroddiad y nodi'r angen am sicrwydd trwy arwystl a /neu amodau cymesur eraill ym mhob achos.

---

**Atodiadau**

*Atodiad 1 –Amserlen ar gyfer Cynllun Gwaith*

**Atodiad 1**

**Cynllun Gwaith Sefydlu Model Ariannol**

| | **Gweithred** | **Cyfrifoldeb** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|
| 1. | Cytuno Penawdau'r Termau a chytundeb benthyca | Uned Gyllid, Uned Gyfreithiol a Chymdeithasau Tai | diwedd Mawrth 2016 |
| 2. | Cymeradwyo Cynllun Busnes Ymddiriedolaeth Tir Gwynedd | Uned Gyllid, Uned Gyfreithiol a Grwp Cynefin | Diwedd Mawrth 2016 |
| 3. | Sefydlu Ymddiriedolaeth Tir Gwynedd | Cyngor Gwynedd a Grwp Cynefin | Mawrth – Hydref 2016 |
| 4. | Cymeradwyo Cynllun Busnes Tai Gwag yn ôl i ddefnydd | Cyngor Gwynedd a Chymdeithasau Tai | Diwedd Mai 2016 |
| 5. | Adnabod ardal sydd angen darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol | Cyngor Gwynedd a Chymdeithasau Tai | Diwedd Mawrth 2017 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **15 Mawrth 2016** |
| **TEITL** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 i'w gymeradwyo.

**2 Cyflwyniad**

2.1 Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 Cyngor Gwynedd ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Mae'r cynllun wedi ei baratoi yn unol â'r dyletswydd sydd wedi ei osod gan Deddf Cydraddoldeb 2010 ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan ymgynghori â'r cyhoedd fel rhan o hynny.

2.2 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r cynllun ar gyfer ymgynghori gan y Cabinet ar 19 Ionawr 2016.

**3 Ystyriaethau Perthnasol**

**Y cynllun**

3.1 Mae'r cynllun yn nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r camau y byddwn yn cymryd i'w gwireddu. Mae'r amcanion hyn wedi eu seilio ar:

- Wybodaeth fewnol
- Llais a chyfranogiad
- Data ar nodweddion cydraddoldeb

3.2 Mae'r cynllun yn:

3.2.1 Dangos y pwyslais rydym yn ei osod ar dderbyn sylwadau a barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb ac ymateb i'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym wrth gynllunio ein gwasanaethau.

3.2.2 Amlygu ein bod yn canolbwyntio ar dreiddio materion cydraddoldeb i waith dydd i ddydd y Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb.

3.2.3 Tynnu sylw at y gwelliannau rydym eisiau eu gwneud er mwyn sicrhau asesiadau effaith cydraddoldeb sy'n gyson ac o'r ansawdd uchaf.

3.2.4 Gyson â'r chwe amcan rhanbarthol sydd wedi eu cytuno fel rhan o waith y Cyngor gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.

**Materion eraill**

3.3 Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd wedi ei baratoi i gyd-fynd â'r cynllun yn dangos effaith gadarnhaol y cynllun ar bobl Gwynedd.

3.4 Bydd cynnydd y cynllun yn cael ei fonitro yn rhan o waith rheoli perfformiad arferol y Cyngor. Yn unol â gofynion y ddeddf, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol fydd yn dangos y cynnydd y byddwn wedi ei wneud tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

**Ymgynghoriad**

3.5 Ymgynghorwyd ar y cynllun drafft gyda'r grwpiau canlynol o fudd-ddeiliaid rhwng 19 Ionawr ac 1 Mawrth 2016:

- Trydydd Sector a'r Sector Wirfoddol
- Grwpiau ymgynghori penodol, e.e. Grwp Pobl Hþn
- Y cyhoedd, drwy'r wasg a gwefannau cymdeithasol
- Staff y Cyngor, drwy'r mewnrhwyd

3.6 Derbyniwyd 23 ymateb i'r ymgynghoriad, a diolchir i bawb am gymryd yr amser i ystyried y cynllun ac am eu sylwadau.

Derbyniwyd y sylwadau canlynol ar yr amcanion penodol yn y cynllun:

Amcan 1: Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb

Roedd cytundeb y dylid gwella ein trefniadau ymgysylltu a chryfhau cyfathrebu wyneb yn wyneb.

Amcan 2: Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb

Roedd y sylwadau yn gefnogol i barhau i wella ein trefniadau yn y cyswllt yma.

Amcan 3: Lleihau'r gwahaniaeth rhwng cynrychiolaeth aelodau etholedig a nodweddion poblogaeth y sir

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai amgylchiadau sy'n galluogi cynrychiolaeth dda o nodweddion poblogaeth Gwynedd fodoli.

Amcan 4: Adnabod unrhyw wahaniaethau tâl a gweithredu i'w lleihau

Roedd cefnogaeth i'r amcan hon a barn fod angen ei daclo.

3.7 Mae barn gyffredinol drwy'r sylwadau y dylid cofleidio'r egwyddor o drin pawb yr un peth yn hytrach nag amlygu gwahaniaethau. Roedd yr ymatebwyr hefyd o'r farn y dylid defnyddio yr hyn rydym yn ei ddysgu drwy Amcanion 1 a 2 i hysbysu y penderfyniadau rydym yn ei gwneud.

3.8 Trafodwyd y cynllun gyda'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2016, a chydnabyddwyd y gwaith da yn llunio'r cynllun.

3.9 Yn gryno, gellir adrodd fod y sylwadau yn dangos fod ewyllys cryf i leihau anghydraddoldeb yng Ngwynedd.

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Yn dilyn cymeradwyo'r adroddiad, bydd yn cael ei gyhoeddi a'i gyfathrebu drwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Bydd y cynllun hefyd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1: Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20
Atodiad 2: Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Dim i'w ychwanegu ar y cynllun hwn sydd wedi ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol. Yn amlwg, fel y dywedodd y Pwyllgor Craffu, yn ôl a ddeallaf, bydd angen monitro cynnydd ar y gweithredu yn y maes hwn yn ofalus.

**Y Swyddog Monitro:**

Mabwysiadawyd y cynllun gwreiddiol yn 2012 am 4 blynedd yn unol â dyletswyddau'r Cyngor dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn adrodd yn briodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ac mae gofyn rhoi sylw priodol i'r canlyniadau yma ynghyd â holl faterion perthnasol arall. Mae'r cynllun yn rhan pwysig o gyfarch dyletswyddau'r Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

**Pennaeth yr Adran Gyllid:**

Rwyf yn croesawu'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb yma, sy'n cyfarch y gofyn statudol perthnasol. Rwyf yn fodlon fod y Cynllun a'i gynllun gweithredu yn canolbwyntio ar newid agweddau ac ymddygiadau, ac nad oes gofynion ariannol ychwanegol i wneud hyn.

Felly, rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir.

# Cynllun Strategol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2016-20










www.gwynedd.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth**
Uned Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

E-bost: cynlluniostrategolapherfformiad@gwynedd.gov.uk

Ffôn: 01286 679 708

**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print Bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall, cysylltwch â Delyth Gadlys Williams ar 01286 679 708**

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

# Mynegai


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb | 04 |
| Sut ydym ni am weithredu? | 05 |
| Asesu Effaith ar Gydraddoldeb | 06 |
| Amcanion Rhanbarthol | 07 |
| Amcanion Cyngor Gwynedd 2016-20<br>a) Gwybodaeth fewnol<br>b) Llais a chyfranogiad<br>c) Data ar nodweddion cydraddoldeb | 08 |
| Gwybodaeth Bellach<br>a) Proffil o Wynedd<br>b) Hyfforddiant a Datblygiad<br>c) Deddfwriaeth<br>ch)Cyhoeddi<br>d) Monitro | 14 |
| Crynodeb | 16 |

# Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas.  Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

*(Deddf Cydraddoldeb 2010)*

Yr hyn mae Cyngor Gwynedd eisiau ei wneud ydi rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.  Mae cael trefniadau addas i sicrhau cydraddoldeb yn holl bwysig wrth wneud hynny. Fydd hi ddim yn bosib rhoi gwasanaeth cyson i bawb fel arall.

Er bod y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol wedi bod yn ei le ers pedair blynedd bellach, rydym ni'n ymwybodol fod lle i wella ar ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wrth galon popeth mae'r Cyngor yn ei wneud.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod y cynllun newydd yma'n cael ei ysgrifennu ar gyfnod anodd pan mae Cyngor Gwynedd yn gorfod gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau.  Ar adeg fel hyn rhaid cydnabod y bydd rhai grwpiau o bobl yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill.  Mae'n bwysig iawn ein bod yn ymwybodol o hyn ac yn gwneud popeth posib i leihau'r effeithiau yna.

# Sut ydym ni am weithredu?

Rydym yn credu mai'r ffordd orau o hybu cydraddoldeb a lleihau effeithiau'r toriadau ar bobl ag amrywiol nodweddion cydraddoldeb yw gwrando ar eu barn a phrofiad cyn gweithredu. Ein bwriad felly yn ystod y pedair blynedd nesaf yw blaenoriaethu hynny gan gryfhau'r ffordd rydym yn derbyn a defnyddio cyfraniadau pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb penodol. Bydd yn bosib i'r wybodaeth yma ein harwain yn y gwaith yn gyffredinol ond hefyd byddwn yn gofyn am fewnbwn i bolisïau, prosiectau a dulliau o weithio penodol. Credwn felly y byddwn yn gallu adnabod ffyrdd o wneud gwahaniaeth go iawn i bobl gyda'r nodweddion yma.

Rydym wedi pennu amcanion i'n helpu i wneud hynny, yn unol â'n dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd yn adnabod yr hyn allwn ni ei wneud i weithio tuag at yr amcanion hynny. Mae'n bwysig fod y cynllun yn hyblyg i ymateb i'r newidiadau fydd yn digwydd yn ystod y pedair blynedd nesaf. Yn bwysicach, rhaid bod yn barod i ymateb i'r adborth fyddwn ni'n ei dderbyn gan bobl â nodweddion cydraddoldeb arbennig. Dim ond wrth fod yn hyblyg fydd hi'n bosib i ni weithredu'n arloesol a darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon fydd yn diwallu anghenion pobl Gwynedd.

Mae gennym eisoes wasanaethau sy'n gwarchod y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau i sicrhau diogelwch, tegwch ac annibyniaeth unigolion bregus fel plant mewn gofal, pobl hŷn, plant a phobl anabl. Rydym yn gweithio i wella canlyniadau plant a phobl Gwynedd drwy wella safonau addysg, hybu'r economi a gwaith i atal tlodi. Mae gwaith ataliol e.e. gwasanaethau i droseddwyr ifanc, hybu byw'n iach, Strategaeth Heneiddio'n Dda, Strategaeth Trais yn y Cartref, hefyd yn rhan o waith y Cyngor o ddydd i ddydd.

Gan fod gweithdrefnau, prosiectau a strategaethau ar gael yn barod ar y meysydd hyn nid ydym am ymhelaethu arnynt yn y cynllun yma. Mae gwybodaeth ar gael amdanynt eisoes, e.e. yng Nghynllun Strategol y Cyngor. Yn hytrach, ein bwriad yw cryfhau ein ffordd o weithio er mwyn sicrhau fod mewnbwn a dyheadau pobl Gwynedd yn cael ystyriaeth deg wrth weithredu a bod yr effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodweddion cydraddoldeb yn cael ei ystyried. Bydd hyn yn fodd o adnabod unrhyw rwystrau neu fylchau a'n caniatáu i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Hefyd mae'n bwysig nad yw meysydd cydraddoldeb yn cael eu cyfyngu i unrhyw brosiect neu wasanaeth benodol. Yn hytrach dylai dreiddio trwy waith y Cyngor e.e. nid mater i'r Tîm Iechyd Meddwl yn unig yw ystyriaethau iechyd meddwl, ond yn hytrach mater i'r Cyngor i gyd.

Er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio trwy'r Cyngor, fe fydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn adnabod unrhyw faterion cydraddoldeb a'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y gwasanaeth. Disgwylir i'r materion yma gael eu pennu ar sail tystiolaeth, yn arbennig mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i reoli drwy gydol y flwyddyn.

# Asesu Effaith ar Gydraddoldeb

Dull pwysig o sicrhau fod llais pobl â nodweddion cydraddoldeb yn cael ystyriaeth deg yw Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Mae asesu effaith fel hyn yn fodd i sicrhau ein bod yn adnabod unrhyw anghydraddoldeb a gweithio i leihau ei effaith. Mae gofyn eisoes fod asesiad o'r fath yn cael ei wneud ar unrhyw bolisi sy'n mynd at y Cabinet a'r Cyngor ac ar unrhyw newid i arfer sy'n cael effaith ar bobl. Un o hanfodion asesu effaith yw sicrhau mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb.

Wrth edrych ar yr asesiadau effaith sy'n cael eu cwblhau rydym wedi adnabod nad yw'r safon yn gyson ac nad yw'r gwaith o'u datblygu bob tro'n cael ei gyflawni'n addas. Rydym felly yn blaenoriaethu gwella safon ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb fel un o'n hamcanion dros y pedair blynedd nesaf.

# Amcanion Rhanbarthol

Mae'r Cygor yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae'r rhwydwaith wedi adnabod chwe amcan i weithio tuag atynt:

i. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran iechyd
ii. Ymdrin a chanlyniadau anghyfartal o ran addysg er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion
iii. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran gwaith a thâl
iv. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran diogelwch personol
v. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran cynrychioli a llais y bobl
vi. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran cael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.

Fel ag y nodwyd ym mhwynt 3, mae gan y Cyngor strategaethau, gweithdrefnau a phrosiectau sy'n ymateb i'r uchod. Teimlwn mai'r ffordd orau i weithio tuag at yr amcanion yma'n lleol yw cryfhau'r trefniadau gweithio. Bydd hyn yn gwreiddio'r ymwybyddiaeth o anghenion cydraddoldeb yn ddyfnach o fewn gwaith dydd i ddydd y Cyngor gan wella ein hymateb i'r amcanion uchod. Byddwn yn edrych ar sut mae ein gwaith yn plethu mewn i'r amcanion yma yn fwy penodol yn yr adroddiadau blynyddol ar y cynllun.

# Amcanion Cyngor Gwynedd 2016-20

Rydym yn nodi isod y pedwar amcan mae Cyngor Gwynedd am weithio tuag atynt dros y pedair blynedd nesaf. Rydym wedi penderfynu ar yr amcanion yma ar sail amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys:

## a) Gwybodaeth fewnol

Yn anffodus, mae ein cyswllt gyda rhai grwpiau penodol wedi llithro. Mae hyn yn arbennig o amlwg gyda'r Grwp Craidd Anabledd sydd wedi crebachu'n sylweddol mewn aelodaeth. Ein bwriad felly yw edrych o'r newydd ar ein trefniadau, gan greu cyswllt gyda grwpiau penodol a sefydlu Grwp Craidd Cydraddoldeb i gynrychioli pob nodwedd.

Wrth edrych ar yr asesiadau effaith sydd wedi eu cwblhau, rydym yn adnabod fod lle i wella eu cysondeb a'u datblygiad. Rhaid hefyd wella'r ffordd rydym yn defnyddio'r mewnbwn sy'n cael ei dderbyn er mwyn sicrhau fod barn a dyheadau pobl Gwynedd yn cael ystyriaeth deg wrth i ni gynllunio ein gwaith.

Rydym hefyd wedi adnabod fod yr wybodaeth sydd gennym ar nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu angen ei wella. Wrth dderbyn nad oes angen i bobl rannu gwybodaeth gyda ni mae'n bwysig fod yr wybodaeth yma mor gyflawn â phosib er mwyn i ni allu lleihau unrhyw anghydraddoldeb neu rwystr sy'n ymddangos.

Rydym hefyd wedi adnabod yr angen i greu sefyllfa sy'n lleihau unrhyw rwystrau sy'n atal pobl â rhai nodweddion cydraddoldeb rhag ymgeisio am aelodaeth o'r Cyngor.

## b) Llais a chyfranogiad

Rydym wedi derbyn mewnbwn trwy nifer o ffynonellau. Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu rhanbarthol gydag amrywiol fudd-ddeiliaid i drafod ein hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth ar flaenoriaethau pobl drwy ymarferiad casglu barn Her Gwynedd, oedd yn cynnwys cyfarfod gyda grwpiau pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio wrth lunio'r amcanion isod ond hefyd bydd yn cael ei defnyddio wrth gynllunio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae sicrhau mewnbwn y gwahanol garfannau yn un o amcanion y cynllun yma ac felly am chwarae rhan bwysig nid yn unig wrth sefydlu'r amcanion ond yn holl waith y Cyngor dros y pedair blynedd nesaf. Gobeithiwn y bydd pobl Gwynedd yn ein helpu i ganfod ffyrdd arloesol ac addas o weithio.

Rydym wedi penderfynu ar yr amcan yma oherwydd bod pobl Gwynedd wedi dweud wrthym dro ar ôl tro fod hyn yn flaenoriaeth iddynt. Maent wedi dweud eu bod yn teimlo fod penderfyniadau wedi eu gwneud cyn iddynt hwy gael rhoi barn arnynt. Mae'n hynod bwysig fod y Cyngor yn parhau gyda'r gwaith o gynnwys pobl er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn ei waith. Dylid nodi nad ydym o reidrwydd yn golygu ymgynghoriadau ffurfiol yma, er bod gan y rheini rôl i'w chwarae,

ond hefyd bod â gwybodaeth o ddyheadau a barn gwahanol garfannau sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith bob dydd.

Mae swyddogion a rheolwyr o fewn y Cyngor hefyd wedi nodi eu bod wedi canfod ffyrdd o wella gwasanaethau oherwydd mewnbwn gan y cyhoedd, e.e. casglu clytiau babanod yn wythnosol yn sgil newid i gasgliadau sbwriel bob tair wythnos, dulliau amgen o ddarparu gofal.

Rydym hefyd yn awyddus i dderbyn barn ar y cynllun a'r amcanion yma. Os ydych chi eisiau rhoi sylwadau, mae'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen.

## c) Data ar nodweddion cydraddoldeb

Mae'r Cyngor yn casglu data cydraddoldeb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar nodweddion cydraddoldeb er mwyn cael darlun gwell o anghenion. Mae'r wybodaeth yma yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd wedi cyhoeddi "A yw Cymru'n Decach" ym mis Rhagfyr sydd yn edrych ar gyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol ym 2015. Bydd yr wybodaeth yma yn hysbysu ein gwaith hefyd e.e. mae'n nodi "Ychydig iawn o welliant a fu mewn cynrychiolaeth wleidyddol yn y pum mlynedd ddiwethaf, gyda menywod, pobl anabl, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, lleiafrifoedd gwleidyddol a phobl LGBT* yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol ar bob lefel o wleidyddiaeth yng Nghymru".

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth i ni er mwyn penderfynu ar ein hamcanion, mi fydd y data uchod yn ein helpu wrth benderfynu ar waith mwy penodol yn ystod y pedair blynedd sydd i ddod.

(*Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol)

| **Amcan 1** | **Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae gwrando ar bobl yn bwysig er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn addas ar eu cyfer. Mae digonedd o dystiolaeth anecdotaidd i ddangos fod pobl Gwynedd yn teimlo fod hyn yn flaenoriaeth. Rydym yn ymwybodol fod ein cyswllt gyda rhai grwpiau wedi llithro, e.e. dirywiad y Grŵp Craidd Anabledd. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Cryfhau cyswllt y Cyngor gyda grwpiau penodol a sefydlu grŵp craidd cydraddoldeb gan rannu'r wybodaeth a ddaw o'r grŵp drwy'r Cyngor.<br>• Rhannu gwybodaeth o ymarferiadau casglu barn ar fewnrwyd y Cyngor fel ei fod ar gael i bawb.<br>• Cryfhau'r elfen cydraddoldeb yn y Llawlyfr Ymgysylltu ar sail ymarfer da er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu hatgoffa o'r budd sy'n dod o dderbyn barn pobl hefo nodweddion cydraddoldeb, yn ogystal â'r ddyletswydd i wneud hynny. |
| Beth yw'r amserlen? | Parhaol gyda'r gwaith ar sefydlu'r grŵp craidd a'r Llawlyfr Ymgysylltu yn digwydd yn 2016-17 |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Fod trefniadau cyswllt cryf newydd rhwng y Cyngor a grwpiau nodwedd ac unigolion. Fod y grwpiau hynny'n teimlo fod y Cyngor yn gwrando ar eu barn.<br>• Fod gan bob gwasanaeth yr wybodaeth angenrheidiol i gasglu a defnyddio cyfraniad unigolion a grwpiau yn unol â'u dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy sicrhau fod ystod o wybodaeth ar gael ar y fewnrwyd.<br>• Canfod ffyrdd arloesol ac addas o weithio drwy dderbyn barn a mewnbwn arbenigol grwpiau ac unigolion hefo nodweddion cydraddoldeb. |

| **Amcan 2** | **Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Er bod trefniadau asesu effaith wedi eu datblygu fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol rydym wedi adnabod, o edrych ar yr asesiadau sydd wedi dod i law, fod lle i wella eu cysondeb a'u datblygiad. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Pobl Hyn yn pwysleisio pwysigrwydd asesiadau o'r fath. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Rhoi cymorth a hyfforddiant i swyddogion i sicrhau fod ganddynt wybodaeth am eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. Dylai hyn gynnwys sicrhau fod asesiadau effaith yn rhan o ddatblygiad unrhyw bolisi, prosiect neu weithdrefn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.<br><br>• Sicrhau fod y negeseuon sy'n dod o geisio mewnbwn grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhannu drwy'r Cyngor ar gyfer eu cynnwys mewn asesiadau effaith. |
| Beth yw'r amserlen? | Parhaol |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Gweithlu sy'n ymwybodol o'n dyletswydd i ymgysylltu ac asesu effaith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r budd sy'n dod o wneud hynny, fel bod asesu effaith yn dod yn rhan naturiol o weithredu.<br><br>• Gwella parhaus i greu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon drwy adnabod yr effaith ar wahanol garfannau a lleihau unrhyw ganlyniadau annheg. |

| **Amcan 3** | **Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig.** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb wedi adnabod fod angen gwaith pellach yn y maes gan nad oes llawer o welliant wedi bod mewn cynrychiolaeth wleidyddol gan unigolion â nodweddion cydraddoldeb dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Deddf Llywodraeth Leol (2012) hefyd yn rhoi dyletswydd arnom i gynyddu amrywiaeth. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Cynnal arolwg lleol i adnabod yr elfennau sy'n rhwystr i unigolion rhag sefyll etholiad i fod yn gynghorydd lleol<br>• Gweithredu (lle'n bosib) ar ganlyniadau'r uchod i symud rhwystrau<br>• Amrywiol ddulliau i godi ymwybyddiaeth pobl Gwynedd o ddemocratiaeth a'r cyfleon i gynrychioli fel cynghorydd lleol |
| Beth yw'r amserlen | 2016/17 – 2017/18 |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | Cynyddu amrywiaeth yn yr unigolion sy'n sefyll yn etholiadau Mai 2017. |

| **Amcan 4** | **Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae'r awdit tâl diwethaf wedi dangos fod y Cyngor wedi gweithredu i sicrhau fod tâl sylfaenol yn gydradd. Yr hyn sydd angen sylw yw adnabod os oes rhwystrau yn atal unrhyw garfan rhag cael cyfleoedd i ddatblygu o fewn y gwaith.<br><br>Ar hyn o bryd dim ond 46% o staff sydd wedi datgelu gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb. Wrth dderbyn hawliau'r unigolyn i beidio â datgelu, byddai cael gwybodaeth lawnach ei gwneud yn haws i ni adnabod gwahaniaethau. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Bydd cael gwybodaeth lawnach yn gwella dealltwriaeth o bob nodwedd, ond disgwylir iddo effeithio meysydd rhyw ac anabledd yn fwyaf penodol |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Ymgyrch i lenwi bylchau yn y data nodweddion cydraddoldeb<br>• Cwblhau awdit tâl<br>• Gweithredu ar sail y dystiolaeth o'r awdit tâl ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall |
| Beth yw'r amserlen | • Cychwyn yr ymgyrch i lenwi bylchau ym Mehefin 2016<br>• Bydd gweddill y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod bywyd y cynllun |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Cael mwy o wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb aelodau staff er mwyn adnabod os oes rhwystrau<br>• Lleihau unrhyw anghydraddoldeb ar sail y dystiolaeth a gasglwyd |

# Gwybodaeth bellach

## a) Proffil o Wynedd

Mae 75 Aelod Lleol yn eistedd ar Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer 122,273 o breswylwyr, gan gynnwys: addysg ac ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau cynllunio, priffyrdd, rheoli gwastraff, gwarchod y cyhoedd, gwasanaethau ieuenctid a datblygu'r economi.




Ers 2011, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu o 0.6% (750 o bobl). Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 0.9% yng Nghymru.

Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint mewn termau daearyddol. Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n werth 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.

Mae 65% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg a hithau hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.

Yn 2015-16, roedd Gwariant Refeniw Crynswth y Cyngor yn £367 miliwn. Ymhlith amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, defnyddiwyd yr arian hwn i addysgu dros 16,000 o ddisgyblion, cynnal 2,888 cilomedr o briffyrdd a 301 cilomedr o arfordir.

Mae 95 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am redeg 12 Canolfan Hamdden o fewn y sir ac 17 o Lyfrgelloedd.

Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr o ran denu twristiaeth. Yn 2014, daeth oddeutu 6.9 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £975 miliwn mewn refeniw.

Mae 67.5% o dir Gwynedd wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

Cafodd ran helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956, un o bump yng Nghymru.

Yn 2015, roedd canolrif incwm cartref yng Ngwynedd (£22,458) yn 8% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru (£24,271) ac 28% yn is na'r ffigwr ar gyfer Prydain (£28,696).

Yn 2015, y pris canolrif ar gyfer tŷ yn cael ei werthu yng Ngwynedd oedd £145,000 sydd yn gynnydd o 9.8% o'i gymharu â 2011.

Amcangyfrifir bydd nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd wedi cynyddu o 12.5% erbyn 2036. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o gynnydd ar gyfer Cymru oll, sef 14.6%.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau drwy ymweld â'r wefan - www.gwynedd.gov.uk

## b) Hyfforddiant a Datblygiad

Darparwyd hyfforddiant i staff ar asesiadau effaith a derbyniwyd ymateb da iawn o ran adborth a niferoedd. Mae gan y Cyngor fodiwl e-ddysgu cydraddoldeb hefyd ar gyfer staff ac aelodau.

Gan ein bod yn adnabod y pwysigrwydd o wreiddio cydraddoldeb yn bob dim ryda ni'n wneud, yn enwedig yn wyneb y cyfnod heriol sydd o'n blaenau, byddwn yn adolygu anghenion hyfforddiant a datblygiad yn fuan.

## c) Deddfwriaeth

Wrth baratoi'r cynllun yma mae'r Cyngor wedi dilyn canllawiau anstatudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n rhoi arweiniad ar sut ddylid ymateb i ddyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010.

Maes gwaith arall dros y pedair blynedd nesaf fydd sicrhau ein bod yn edrych i'r dyfodol a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn creu Gwynedd yr ydym i gyd eisiau byw ynddi (Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fydd yn dod i rym yn Ebrill 2016). Ein bwriad yw plethu'r gwaith yma gyda'r gwaith ar gydraddoldeb.

## ch) Cyhoeddi

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi a'i gylchredeg gan ddefnyddio dulliau amrywiol. Bydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais. Cysylltwch os gwelwch yn dda â'r cyfeiriad ar gychwyn y ddogfen.

## d) Monitro

Wrth wynebu heriau'r pedair blynedd nesaf mae'n hollbwysig ein bod yn monitro cynnydd yn erbyn y pedwar amcan ac yn penderfynu ar ffyrdd gwahanol o weithredu. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn dangos y camau y byddwn fel Cyngor wedi eu cymryd dros y deuddeg mis i weithio tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

# Crynodeb

Mae Cyngor Gwynedd yn falch o gyflwyno drafft o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ar gyfer ymgynghoriad.

Bwriad y cynllun ydi lleihau anghydraddoldeb i bobl hefo nodweddion cydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 sef oedran, ailbennu rhywedd, rhyw, hil, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred), priodas a phartneriaeth sifil.

Mae Cyngor Gwynedd eisiau rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae cael trefniadau addas i sicrhau cydraddoldeb yn holl bwysig wrth wneud hynny. Fydd hi ddim yn bosib rhoi gwasanaeth cyson i bawb fel arall.

Rydym ni'n ymwybodol fod lle i wella'n trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wrth galon popeth mae'r Cyngor yn ei wneud. Rydym yn credu mai'r ffordd orau, ar adeg anodd fel hyn, i sicrhau tegwch ydi gwrando ar y bobl berthnasol cyn gweithredu. Ein bwriad felly yn ystod y pedair blynedd nesaf yw cryfhau'r ffordd rydym yn derbyn a defnyddio barn a sylwadau pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb amrywiol.

Rydym wedi pennu pedwar amcan, wedi eu selio ar dystiolaeth fewnol, barn a data er mwyn gwneud hynny:

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb |
| Amcan 2 | Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb |
| Amcan 3 | Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig |
| Amcan 4 | Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau |

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi a'i gylchredeg gan ddefnyddio dulliau amrywiol. Bydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r cyfeiriad ar gychwyn y ddogfen.

Wrth wynebu heriau'r pedair blynedd nesaf mae'n hollbwysig ein bod yn monitro cynnydd yn erbyn y pedwar amcan. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn dangos y camau y byddwn fel Cyngor wedi eu cymryd dros y deuddeg mis i weithio tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN
# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Delyth G Williams, Swyddog Polisi

## 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

- Pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Grwpiau sy'n cynrychioli pobl á'r nodweddion yma

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

8 Hydref 2015

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

7 Ionawr 2016

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y bwriad yw gwneud hynny drwy bennu amcanion fydd yn sicrhau fod llais pobl hefo'r nodweddion hynny'n cael ystyriaeth teg. Pwysig hefyd yw sicrhau fod cydraddoldeb yn treiddio trwy holl waith y Cyngor.

### 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad?  Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda pobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

Rydym wedi derbyn mewnbwn trwy nifer o ffynonellau.  Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu rhanbarthol gydag amrywiol fudd-ddeiliaid i drafod ein hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth ar flaenoriaethau pobl drwy ymarferiad casglu barn Her Gwynedd, oedd yn cynnwys cyfarfod gyda grwpiau pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl.  Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio wrth lunio'r amcanion isod ond hefyd bydd yn cael ei defnyddio wrth lunio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth o ymgysylltiadau blaenorol wedi ei dderfynddio hefyd.

Y bwriad rwan ydi cael cyfnod o ymgysylltu gan hysbysebu'n eang a chysylltu gyda grwpiau penodol.

### 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

Mae ein tystiolaeth wedi dod o amryw o ffynonellau gan gynnwys

- Ymgysylltu – gweler uchod
- Gwybodaeth fewnol y Cyngor
- Data ar nodweddion cydraddoldeb

Rydym yn ymhelaethu ar y data yma yn y Cynllun.

### 8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

Rydym wedi nodi bylchau mewn tystiolaeth yn y Cynllun ac wedi adnabod dulliau o'u cywiro e.e. casglu gwybodaeth ar nodweddion cydraddoldeb y gweithlu.

## 9) PERTHNASEDD AC EFFAITH

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |
| **Meithrin perthnasau da** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Anabledd** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Rhyw** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Oedran** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br><br>Disgwlyir i'r cynllun a'r amcanion gael effaith bositif o safbwynt cydraddoldeb. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Monitro ac adolygu, gweler isod. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nac Oes |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er fod yr asesaid uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gwblhau yn flynyddol i nodi'r gwaith fydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ac i adnabod unrhyw fylchau |

## 12) PENDERFYNU

| |
|---|
| Cyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r cyhoedd. |

# Eitem 9

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **15 Mawrth 2016** |
| **TEITL** | **Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015-16 - meysydd Gofal; Tlodi, Amddifadedd, Economi a Chymuned; Amgylchedd** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Gofal, Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai ac hefyd yr Amgylchedd sydd yn rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Gareth Roberts
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies
Y Cynghorydd Ioan Thomas
Y Cynghorydd John Wynn Jones
Y Cynghorydd Dafydd Meurig

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y Cynllun Strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn bwysig i bobl Gwynedd ac yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prif negeseuon**

3.1 Mae'r prosiectau yn cyflawni yn unol â'r cerrig milltir sydd wedi eu gosod.

3.2 Ym maes Eiddo, lle bu adolygiad Ffordd Gwynedd, gwelwyd newid yn y mesurau perfformiad a ddefnyddir i reoli'r perfformiad. Mae hyn yn ei dro yn gwella'r wybodaeth sydd gan y swyddogion am eu perfformiad ac yn eu galluogi i ddadansoddi yn fwy trylwyr er mwyn gwella perfformiad y gwasanaeth.

3.3 Mae mesurau yn dangos datblygiad i fod yn fesurau sy'n canolbwyntio mwy ar roi pobl Gwynedd yn ganolog, e.e. mesurau Eiddo a Pharcio.

3.4 Mae tystiolaeth y derbynnir barn gadarnhaol gan gwsmeriaid a bod swyddogion yn ymchwilio i sut y gellir gwella gwasanaethau ar sail sylwadau gan gwsmeriaid sydd yn anfodlon ynglyn â'r gwasanaeth a dderbynnir.

**4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol**

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015/16 yn y meysydd Gofal, Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol, a dylid nodi nad oes prosiectau ym maes Amgylchedd (sydd ym mhortffolio'r Cynghorwyr John Wynn Jones a Dafydd Meurig).

**Gofal**
**Y Cynghorydd Gareth Roberts**

**G1 Her Gofal**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy gydweithredu'n gymunedol.**

Mae'r rhaglen gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth yn barod ar waith gyda'r grwpiau budd-ddeiliaid gwahanol. Mae'r Adran yn y broses o benodi 'Rheolwr Llesiant' a bellach rydym wedi derbyn y rhan fwyaf o'r deunyddiau cenedlaethol sydd ynghlwm â'r ddeddf - megis y codau ymarfer ayyb. Ar sail hyn felly, mae'r Aelod Cabinet yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol o ran elfennau llesiant y prosiect yn ystod y misoedd nesaf. Er bod y gwaith o drafod gyda chymunedau yn barod wedi dechrau, mae cais wedi ei wneud yn gofyn am raglen waith fanwl yn gofyn pryd a ble y byddwn yn ymweld â hwy dros y misoedd nesaf.

**G2 Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio gan sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn yr achos yma) yn gwbl ganolog.**

Mae'r prosiect hwn yn cyflawni yn unol â'r disgwyl o ran y cerrig milltir a'r amserlen, ond mae'r Aelod Cabinet wedi rhoi her i'r amserlen wreiddiol o gyflawni'r prosiect a bydd arweinydd y prosiect yn ystyried hyn. Mae risgiau wrth reswm o fod yn ceisio gyrru newid diwylliannol fel hwn yn rhy gyflym ond creda'r Aelod Cabinet y dylid o leiaf ystyried y posibiliadau. Ymwelodd Aelodau'r Cabinet ag Ysbyty Alltwen ar y 23 Chwefror 2016 er mwyn cael blas o brofiadau'r gweithwyr sydd ynghlwm â'r prosiect.

**G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**
**Os am lwyddo gyda'r newid sylweddol a newid meddylfryd a diwylliant yr adran, mae'n hanfodol bod strwythur staffio'r adran yn addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol. Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ar ail-strwythuro'r adran.**

Mae penodiadau ar gyfer cyflawni Carreg filltir 1 (Haen Uwch Reolaeth) wedi eu gwneud ac mae y cyd-destun yn sylfaenol ar gyfer yr Haen Reolaeth hefyd yn ei le. Fodd bynnag, ni ellir rhoi'r trefniadau terfynol ar gyfer cwblhau y rhan hon o'r strwythur oherwydd dylanwadau allanol. Mae rhan o'r strwythur yn cael ei gyd ariannu gan y Bwrdd Iechyd ac er derbyn eu cefnogaeth mewn egwyddor, nid ydynt hyd yma wedi gwneud yr ymrwymiad ffurfiol fyddai yn galluogi'r Cyngor i sefydlu strwythur parhaol. Mae'r amserlen ar gyfer cyflawni'r rhan hon wedi ymestyn o Ebrill 2016 i Hydref 2016. Fodd bynnag, nid yw llithriad hwn o reidrwydd yn mynd i amharu ar gyflawni'r cam olaf sef strwythur ehangach erbyn Rhagfyr 2016, ond mae yn cael effaith ar ansicrwydd staff am y dyfodol a gallai hynny gael effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaeth.

**G4 Strategaeth Lletya Pobl Hŷn**
**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid**

Mae'r strategaeth yn cael ei chyflwyno'n derfynol i'r Cabinet ar y 15 Mawrth 2016. Yn dilyn cyflwyno'r strategaeth i'r Cabinet, bydd y prosiect wedi ei gwblhau. Er hyn disgwylir y bydd y strategaeth yn cael ei gweithredu fel rhan o brosiect T9 – Strategaeth Cyflenwad Tai.

**G5 Tai Gofal Ychwanegol (Porthmadog)**
**Pwrpas y prosiect yma yw adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.**

Bydd y gwaith o ddymchwel adeiladau ar gyn safle Hafod y Gest yn dechrau yn ystod mis Mawrth. Er y llithriad yn yr amserlen wreiddiol, mae'r Aelod Cabinet yn hyderus y byddwn wedi cyflawni'r hyn addawyd erbyn diwedd cyfnod y cynllun strategol.

**G6 Frondeg**
**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.**

Pwrpas gwreiddiol y prosiect oedd sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. Mewn cyfarfod o'r Cabinet ar 19 Ionawr 2016, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghoriad ffurfiol, penderfynwyd datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu ar safle Frondeg, a dod â defnydd cyfredol yr adeilad i ben unwaith y bydd y datblygiad newydd ar gael.

Erbyn Mawrth 2017, byddwn wedi cytuno ar bartner gweithredol, e.e. cymdeithas dai, er mwyn cydweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r model llety newydd. Rhagwelir y bydd y safle wedi ei drosglwyddo i'r partner hwnnw erbyn yr hydref 2017. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd cerrig milltir newydd yn cael eu gosod er mwyn sicrhau bod modd mesur cynnydd y gwaith.

**G7 Darpariaeth Fewnol**
**Pwrpas y prosiect yma yw penderfynu ar sut ryda'n ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaeth gofal) a gweithredu ar hynny.**

Mae opsiynau dechreuol wedi eu trafod, a gwaith pellach wedi ei gomisiynu sydd yn cynnwys asesiad ariannol. Bydd hyn o bosib mewn amser yn arwain at osod cerrig milltir ychwanegol yn seiliedig ar raglen waith.

## 4.1 Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

**Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**
**T1 Swydd Gwerth Uchel ac o Ansawdd**
**Pwrpas y prosiect hwn yw creu'r amodau er mwyn creu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd yn y sir.**

Mae sectorau mwyaf arwyddocaol i Wynedd o ran creu swyddi gwerth uchel wedi eu hadnabod, sef y sectorau Ynni, Digidol, Creadigol ac Ymchwil a Datblygu. Mae rhwydwaith o fusnesau o fewn y sector diwydiannau creadigol wedi ei sefydlu, yn ogystal â thri rhwydwaith pellach ar y cyd gyda rhaglen Gwynedd Digidol. Mae gwaith yn parhau gyda'r sector addysg a'r Consortiwm ôl-16, ac o ganlyniad mae'r Consortiwm Addysg Ôl-16 wedi gweithio gyda Phrifysgol Bangor a bellach yn gweithio tuag at gynnig cwrs Lefel A/AS o fewn y maes Cyfrifiadureg. Yn ogystal, rydym yn cydweithio gyda Menter Môn a Phrifysgol Bangor, trwy ddarpariaeth LEADER (rhaglen ddatblygu gwledig), i gynnig lleoliadau gwaith o fewn cwmnïau digidol lleol i israddedigion a disgyblion ysgol.

Mae gwedd newydd Llwyddo'n Lleol yn cael ei ddatblygu dan y pennawd STEM Gogledd, a bydd  cynllun busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Nod y prosiect yw cynyddu'r niferoedd o bobl ifanc 11-19 sydd yn astudio pynciau STEM, sef Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, gan godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cyflogaeth a hunan gyflogaeth fydd o fewn y sectorau ar draws y rhanbarth.

Mae'r gwaith i ddenu buddsoddiadau i safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr yn cynnal momentwm, gyda gwaith Ardal Fenter Eryri bellach hefo ffocws clir ar ddenu adweithydd bychan i Drawsfynydd, ac i gefnogi datblygiad safle Llanbedr fel canolfan ragoriaeth ar gyfer awyrennau di-beilot. Rydym yn parhau i weithio'n agos hefo Llywodraeth Cymru i fonitro'r hinsawdd polisi sydd yn llywio'r gwaith.  Mae cynllun lobio ar gyfer y ddau safle yn parhau i gael ei weithredu yn llwyddiannus.

Rydym yn parhau i fwydo'r trafodaethau ynglŷn â'r cyfleoedd a ddaw o raglen Ynys Ynni, er mwyn cael y gorau i drigolion Gwynedd.

Disgwylir i'r prosiect wireddu yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn.

**T2 Cadw'r budd yn lleol**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau bod gan fusnesau'r sir yr wybodaeth a'r gallu i fanteisio ar drefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd y Cyngor.**

O ran yr agwedd rheolaeth categori (sef prynu gwasanaethau yn strategol), mae strwythur y tîm Categori Pobl (a fydd yn canolbwyntio ar wasanaethau yn y maes gofal) wedi ei sefydlu, a chynllun gwaith yn y broses o gael ei ddylunio. Mae gweithdai cychwynnol gyda swyddogion categori Amgylchedd a Chorfforaethol wedi eu cynnal a'r gwaith o ddadansoddi canran amser ar waith caffael wedi digwydd. Mae hyn yn waith sylfaen hanfodol ar gyfer gwthio'r agenda cadw'r budd yn lleol. Bydd yn caniatáu i'r Cyngor gael trosolwg o'r farchnad leol, gan adnabod ffyrdd o uchafu'r budd lleol.

Mae'r gwaith o adnabod a lleihau rhwystrau cyflenwyr lleol wedi arwain at ddiweddaru dogfennaeth cefnogi busnes a thargedu a chynnig cefnogaeth benodol ar gyfer Cytundeb Bwyd a'r meysydd Gofal ac Adeiladwaith. Mae cyfarfodydd gyda darparwyr a chyflenwyr o'r meysydd Gofal ac Adeiladwaith yn bennaf (lle mae gwariant uchaf y Cyngor) wedi eu cynnal. Mae holiadur ar wefan y Cyngor er mwyn derbyn sylwadau a phryderon y farchnad ynglŷn â phrosesau a gofynion dendro. Ar wefan Caffael y Cyngor mae rhestr o gyfleoedd tendro all fod ar y gweill, canllawiau ar brosesau a gofynion tendro a gwybodaeth ynglŷn â chamgymeriadau cyffredin mewn tendro a lle i dderbyn cymorth.

Disgwylir i'r prosiect wireddu yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn.

**T3 Gwynedd Ddigidol**
**Pwrpas y prosiect hwn yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fand eang cyfoes ar draws y sir.**

Mae Adroddiad Isadeiledd 2015 Ofcom yn dangos fod 93% o eiddo Gwynedd yn gallu cael mynediad i fandeang cyflym gyda 65% yn gallu derbyn cyflymder o >30Mbps. Mae dros 50,000 o gartrefi a busnesau Gwynedd yn gallu derbyn bandeang.

Ar gyfer cefnogi busnesau Gwynedd mae cynllun cenedlaethol £12.5m wedi cael ei gymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cynllun sy'n cefnogi busnesau i fanteisio ar fandeang cyflym yw hwn. Mae'r cynllun yn cael ei gyflawni drwy gytundeb Busnes Cymru ac wedi cychwyn ers Ionawr 2016.

Mae cynllun hefyd ar waith i ddatblygu gwytnwch digidol trigolion Gwynedd (wedi ei ariannu gan y Loteri Fawr, ac yn un o bedair ardal ledled y DU). Mae Cydlynydd Prosiect ar gyfer Gwynedd a Hwylusydd Pencampwyr Digidol lleol bellach yn eu lle ac yn dilyn y rhaglen waith ynghlwm.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu cynllun clir ar gyfer marchnata a rhannu enghreifftiau byw o'r cyfleoedd digidol i fusnesau Gwynedd.

Disgwylir i'r prosiect wireddu yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn.

**T4 Cefnogi'r economi wledig**
**Pwrpas y prosiect yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth ar draws cymunedau Gwynedd.**

Mae drafft terfynol Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd wedi ei lunio a rhaglen weithredu yn cael ei llunio i ymateb iddo.

Rydym wedi sicrhau cyllideb gwerth dros £4 miliwn ar gyfer rhaglen LEADER hyd at 2020, trwy Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru. Mae brand i LEADER yng Ngwynedd wedi ei sefydlu – Arloesi Gwynedd Wledig (www.arloesigwyneddwledig.com). Mae ymchwil / gwaith datblygu drwy law LEADER yn cael ei gynnal o fewn ystod o feysydd pellach gan gynnwys:

- gofod gweithio ar y cyd i fusnesau
- gwasanaeth wi-fi cyhoeddus ym mhentrefi gwledig
- isadeiledd ceir trydan yng nghanolfannau ymwelwyr
- cyllid torfol (crowdfunding)
- gwobrau busnes mwyaf Cymraeg yn y byd

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i hyrwyddo'r cyfleoedd sy'n deillio o Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru i sefydliadau cymunedol Gwynedd.

Disgwylir i'r prosiect wireddu yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn.

**T5 Safle Treftadaeth y Byd**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd.**

Mae cais i UNESCO, mudiad addysgol, gwyddonol a diwylliannol y Cenhedloedd Unedig, am statws safle treftadaeth y byd yn parhau i gael ei ddatblygu, gwerthusiad technegol wedi ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth y DU ac rydym yn disgwyl ymateb. Mae gwefan yn y broses o gael ei datblygu, ac mae cynllun ymgysylltu/strategaeth gyfathrebu wedi ei mabwysiadu er mwyn hyrwyddo balchder a gwaith yn y cymunedau. Yn ogystal mae strategaeth lobio gynhwysfawr wedi ei llunio ac yn cael ei gweithredu.

Mae’r broses cynllunio busnes wedi cychwyn fel rhan o gais rhanbarthol gan Croeso Cymru sy’n targedu arian Ewropeaidd ar gyfer rhaglen Glannau Menai. Mae’r camau cyntaf wedi eu cyflwyno i WEFO. Mae datblygiadau strategol yn parhau i ddatblygu ochr yn ochr â'r ceisiadau ariannol. Yn dilyn cais llwyddiannus am adnoddau Llywodraeth Cymru, mae Cronfa Fenthyciadau Canol Tref Caernarfon gwerth £700k wedi ei sefydlu a’i lansio.

Disgwylir i’r prosiect wireddu yn unol â’r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn.

**T6 Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae’n brosiect rhanbarthol (Gogledd Cymru) gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at gomisiynu’r gwaith.**

Un ffordd o fynd i’r afael â thlodi yw gwella mynediad pobl i waith. Pwrpas y prosiect felly yw hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith.

Mae trefniadau llywodraethu cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer y prosiect. Fel rhan o hyn mae Grŵp Cyflogaeth Gwynedd wedi ei sefydlu gyda’r nod o gydweithio/ rhannu gwybodaeth ac ymarfer da ymysg y prosiectau.

Mae Trac 11-19oed yn canolbwyntio ar ddarpariaeth bwrpasol ar gyfer yr unigolyn, gan ddefnyddio cwricwlwm amrywiol a hyblyg, canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn, rhoi cefnogaeth bwrpasol gyda gweithiwr allweddol a chan ddefnyddio cwricwlwm amgen wedi ei deilwra.

Mae gwaith yn parhau, ond mae llithriad i’r amserlen gan WEFO ers adrodd y tro diwethaf, ac rydym bellach yn disgwyl cymeradwyaeth ffurfiol i fwrw ymlaen gyda’r prosiect yn ystod mis Chwefror.

Nod Trac 16-24 yw targedu grwpiau bregus o bobl ifanc sydd ag amrediad o rwystrau sydd yn atal eu hymgysylltiad. Mae Cynllun Busnes Rhanbarthol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Rydym yn disgwyl cadarnhad gan Lywodraeth Cymru i gychwyn “cyfnod 1”o’r cynllun am dair blynedd ym mis Ebrill.

Mae Cyngor Conwy yn arwain ar y cynllun OPUS, ac mae Gwynedd yn cyd-weithio gyda chynghorau Conwy ac Ynys Môn. Mae'r pwyslais ar wella sgiliau a pharatoi pobl at waith. Trwy'r gwaith bydd ymgais i blethu gyda chynlluniau TRAC a chydweithio gydag Ynys Môn ar yr elfen awtistiaeth. Mae nod o gefnogi 500 o bobl dros gyfnod y cynllun, (60 i waith, 100 i gael cymhwyster ac oddeutu 150 i wirfoddoli). Mae Cynllun Busnes Rhanbarthol wedi ei gyflwyno i WEFO, gyda'r gobaith y bydd y cynllun yn weithredol ddechrau Ebrill.

Mae'r cynllun Cymunedau am Waith wedi derbyn cymeradwyaeth WEFO, ac mae paratoadau ar waith i fod yn weithredol yn erbyn mis Ebrill. Pwrpas y cynllun yma yw cyfrannu tuag at y nod o daclo tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy. Mae'n canolbwyntio ar drigolion clwstwr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Gwynedd. Disgwylir i'r prosiect wireddu yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn.

**Y Cynghorydd Ioan Thomas**
**T7 Cydymdrechu yn erbyn tlodi**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd mabwysiadu a gweithredu strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid.**

Comisiynwyd darn o waith i adnabod a diffinio tlodi yng Ngwynedd heddiw, i fapio ymyraethau, ac i adnabod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Mae'r comisiwn yn cadarnhau fod patrwm tlodi yng Ngwynedd yn un cymhleth, ond ei fod yn ei hanfod yn ddibynnol ar gyflwr yr economi. Yn benodol mae patrwm tlodi yng Ngwynedd yn cael ei effeithio gan Dlodi Lluosog (h.y. cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan nifer o fathau gwahanol o dlodi), tlodi mewn gwaith a thlodi gwledig.

Mae sesiwn benodol wedi ei threfnu gyda'r aelodau Cabinet ym mis Mawrth er mwyn ystyried yr argymhellion a goblygiadau mabwysiadu'r strategaeth. Yn dilyn hyn bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet. Mae'r cerrig milltir sydd wedi eu gosod hyd yn hyn wedi eu cyflawni, ac mae elfennau gweithredol y prosiect eisoes yn symud yn eu blaen yn dda o ran gweithgareddau cynhwysiad ariannol, cynhwysiad digidol a chynhwysiad economaidd.

**T8 Adolygu Strategaeth Cyflenwad Tai**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd adolygu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd.**

Bydd yr achos busnes yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 15 Mawrth 2016. Mae llithriad wedi bod i gyflwyno'r achos busnes i'r Cabinet ac un o'r prif resymau am hyn ydi fod pedwar cynllun tra gwahanol dan sylw, ac roedd angen cadarnhau telerau fesul cynllun. Er y llithriad i gyflwyno'r achos fusnes, mae'n debyg y bydd modd cychwyn gweithredu yn Ebrill - yn enwedig y cynlluniau mwy aeddfed megis 'Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig'.

## 5.0 Mesurau

**5.1 Gwaith datblygol** – Mae gwaith yr unedau gwaith ar draws y Cyngor i ail edrych ar ddiffinio eu pwrpas drwy lygaid ein dinasyddion wedi gwneud cynnydd. Mae mesurau yn dechrau dangos newid fel eu bod yn sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu mesur. Bydd y gwaith yma yn parhau.

Rhestrir isod y mesurau y dylid tynnu sylw yn benodol atynt er mwyn amlygu'r perfformiad. Cyflwynir rhestr gyflawn o'r mesurau sy'n berthnasol i'r meysydd a drafodir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.

### 5.2 Gofal

**Y Cynghorydd Gareth Roberts**

SCA/001 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed
Mae'n ymddangos fod yr oedi yn fwy o broblem yn y cyswllt gydag Ysbyty Tywyn nag unrhyw le arall yn y sir. Er bod diffyg capasiti wedi ei roi fel rheswm, mae'r Aelod Cabinet wedi gofyn am gael dadansoddiad pellach o hyn er mwyn ceisio gweld os oes unrhyw beth yn benodol y gellir ei wneud er mwyn gwella'r sefyllfa.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

SCA/007 - Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn
Y prif reswm am y perfformiad is yn y mesur hwn yw'r diffyg capasiti mewn ambell i ardal. Mae'r sefyllfa'n fwy dyrys ym Meirionnydd ac mae'r Pennaeth wedi cadarnhau ei fod yn gwneud yr hyn sy'n bosib i gyfarch hyn. Mae penodiadau diweddar wedi eu gwneud er mwyn ceisio ymateb i'r diffyg dan sylw. Mae Gareth Roberts wedi nodi'n glir ei fod yn awyddus i weld perfformiad y mesurydd pwysig hwn yn codi mor fuan â phosib.

SCA/019 - O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth)
Mae'r mesur hwn yn allweddol o ran sicrhau bod ein trefniadau diogelu yn gweithio fel y dylent. Dylai perfformiad y mesur hwn fod yn 100%, a bellach mae cadarnhad fod y chwe achos oedd yn tynnu'r ffigwr i lawr i 94% wedi cael eu rheoli ond fod hynny heb gael ei gofnodi'n gywir yn wreiddiol. Yn dilyn y gwiriad gellir adrodd fod y perfformiad yn perfformio 100% o ran y mesur hwn.

**5.3 Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**

**Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**

5.3.1 Mae mesurau'r maes hyd yma yn cwrdd â'r uchelgais.

5.3.2 Mae'r mesurau Caff07 - Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau o fewn Gogledd Cymru (os yw'r brif swyddfa gyda chod post o fewn Gogledd Cymru) a Caff08 - Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau o fewn (os yw'r brif swyddfa gyda chod post o fewn Cymru) wedi eu datblygu er mwyn gallu nodi'n fwy cywir lle mae ein gwariant yn cael ei ganolbwyntio.

**Y Cynghorydd Ioan Thomas**

5.3.3 Strat6 - Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd
Er bod y nifer o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd yn is o'i gymharu â'r llynedd (46 o'i gymharu â 97) rydym yn parhau i berfformio yn eithaf da. Rhagwelir y byddwn yn perfformio yn llawer is ar y mesur hwn y flwyddyn nesaf oherwydd y buddsoddiad ariannol sylweddol yn Nhai Gofal Ychwanegol Porthmadog, sydd yn golygu wedyn na fydd adnoddau yn weddill i fod yn datblygu unrhyw beth arall. Er hyn, rhagwelir gweld cynnydd eto yn y mesurydd pan fydd yr Unedau Gofal Ychwanegol wedi eu cwblhau. Noder fod niferoedd yr unedau sy'n cael eu hadrodd ym mlwyddyn 2014/15 yn cynnwys 42 uned Cae Garnedd ac felly yn egluro'r amrywiaeth sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

5.3.4 TAI 05 - Mae'r perfformiad yn is o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf o ran 'Nifer o unigolion/cyplau/teuluoedd sydd wedi elwa o ganlyniad i ddarpariaeth tai fforddiadwy', ac mae hyn yn cyd fynd â'r duedd a welir yn y mesurydd 'Strat6' uchod. Mae'r mesurydd TAI 05 yn adrodd ar nifer yr unigolion yn hytrach na nifer yr unedau. Mae'r rheswm dros yr amrywiaeth rhwng eleni a'r blynyddoedd cynt yr un fath felly ag sydd wedi ei nodi uchod o ran datblygiad Cae Garnedd.

5.3.5 DAT04 - Nifer o dai ar y cynllun Tai Cynllun Lesu
Er ein bod wedi methu'r uchelgais o dri, mae'r Gwasanaeth Tai yn fodlon gyda'r niferoedd sydd gennym. Mae'r tuedd dros y blynyddoedd yn dangos fod niferoedd wedi gostwng ond gwyddom nad oes chwaith angen mwy o eiddo.

## 5.4 Amgylchedd

**Y Cynghorydd John Wynn Jones**

5.4.1 STS/006- Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd.
Mae perfformiad yn parhau'n gyson, ond mae'n bwysig nodi bod cynnydd wedi bod yn y digwyddiadau o waredu slei bach, a bod hwn yn batrwm cynyddol ar draws y DU. Mae'r cynnyrch yn tueddu i fod yn swmpus e.e. teiars neu rewgell, ac yn draddodiadol mae hyn yn cael ei wneud gan fasnachwyr, oherwydd nad ydynt yn cael defnyddio canolfannau ail-gylchu'r Cyngor.

Mae'r mater yn cael sylw'r gwasanaeth sydd yn rhan o grwp ar y cyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru sy'n edrych ar fenthyg camerâu symudol cuddiedig er mwyn eu rhoi mewn mannau lle mae digwyddiadau cyson o waredu slei bach.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

5.4.2 WMT/009- Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio.
Rydym yn hyderus o gyrraedd y targed cenedlaethol o 58% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd effaith y newidiadau yn Arfon yn dod yn amlwg ddiwedd Chwarter 4. Mae'r gwasanaeth yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd â'r targed. Mae'n gadarnhaol adrodd hefyd bod y cyfanswm gwastraff bwyd i fyny'n sylweddol yn y tair ardal.

5.4.3 PB51- Canran lefelau ailgylchu/ compostio masnachol
Mae'r perfformiad yn parhau'n galonogol. Bellach mae masnachwyr yn talu mwy os nad ydynt yn ailgylchu, ac mae hyn wedi golygu bod y perfformiad yn cynyddu. Mae trafodaethau'n parhau ar ffioedd y gwasanaeth, ac fe fyddant yn cynyddu gyda chwyddiant eleni. Daeth deddfwriaeth newydd i rym yn Ionawr 2015 ar draws Cymru, sy'n golygu bod masnachwyr yn gyfrifol am ailgylchu eu gwastraff eu hunain. Mae gwybodaeth o'r ddyletswydd newydd wedi mynd allan i fasnachwyr.

5.4.4 PB60- Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (lwfans tirlenwi)
Rydym yn parhau i weithio o fewn y lwfans, a rhagwelir y bydd tua 94% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac felly y byddwn yn osgoi dirwy sylweddol.

**Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

5.4.5 Mae aelodau staff y gwasanaeth rheoleiddio yn parhau i gael mewnbwn i'r mesurau, gan gynnwys gofalwyr, swyddogion parcio a glanhau. Yn sgil hyn, mae nifer o fesurau wedi eu hadnabod sy'n mesur yn erbyn pwrpas yr unedau.

5.4.6 Eiddo 2- Canran cwsmeriaid y ddesg gymorth cynnal a chadw sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd.
Mae'r perfformiad wedi dirywio ychydig ers y chwarter diwethaf, a'r gwasanaeth wedi sefydlu bwrdd gwyn er mwyn cadw cofnod o'r sylwadau sy'n codi, er mwyn darganfod patrymau ac ymateb i rwystrau. Mae hyn yn dangos fod yna ddiwylliant o adnabod a gwneud rhywbeth am rwystrau.

5.4.7 Eiddo 7- Canran o ddefnyddwyr sy'n hapus gydag adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi eu haddasu.
Ar hyn o bryd mae'r mesur yma'n adrodd perfformiad o 100%, ond er mwyn cael y gorau o'r data mae trafodaethau wedi digwydd sy'n nodi y byddai fwy buddiol mesur bodlonrwydd hyd at y ddwy flynedd gyntaf, ac nid yn syth ar ôl cwblhau'r adeilad. Byddai hyn yn rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r adeilad ar gyfer ei bwrpas a gwneud asesiad fwy cywir o'u bodlonrwydd.

5.4.8 PLA004b- Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod a pa mor sydyn maent yn cael eu penderfynu ar gyfartaledd. Mae'r achosion sy'n mynd heibio i'r terfyn amser yn cael eu nodi ar fwrdd gwyn er mwyn adnabod unrhyw rwystrau a patrymau yn y data. Mae penderfyniad hefyd wedi ei wneud i adrodd hwn fel dau fesur, un ar gyfer y canran o fewn y terfyn amser a'r llall ar gyfer yr amser cyfartalog.

5.4.9 PLA005- Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn
Cafwyd trafodaeth ar y mesur yn y cyfarfod perfformiad a nodwyd mai negodi ydi'r datrysiad gorau yn hytrach na gorfodi, a'r canlyniad cywir sy'n bwysig ar gyfer y ddwy ochr. Mae gwaith dadansoddi manwl yn cael ei wneud ar y mesur, a bydd nifer y diwrnodau a gymerir i ddod i datrysiad yn rhoi syniad o'r amser cyfartalog mae achosion yn eu cymryd.

## 6.0 Casgliad

6.1 Mae perfformiad prosiectau sy'n trawsnewid gwasanaethau'r Cyngor yn unol â'r cerrig milltir a'r amserlen.

6.2 Mae perfformiad ddydd i ddydd y Cyngor yn gadarnhaol ac yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau i bobl Gwynedd drwy ddatblygu mesurau ystyrlon ac ymateb lle adnabyddir meysydd i wella.

## 7.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn hunan-esboniadol. Dim i'w ychwanegu.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

* = Ffigwr is yn welliant

**Atodiad 1 - Mesurau**

**Gofal - Y Cynghorydd Gareth Roberts**



| **Mesur - diffiniad** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf - Chwarter 3** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| OED003 - Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal | 46% | 54% | 45% | Gwella | 54% | Perfformiad yn unol a'r disgwyl. |
| OED019 - Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | - | 95 (Ch3) | 114 (Ch3) | Gwelliant | 129 (Ch3) | Hwn wedi cwrdd â'r targed blynyddol yn barod. |
| SCA/001 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. | 1.16 | 1.55 | 1.05 | Cynnal* | 1.5 | Roedd 7 achos o oediad yn Nhachwedd, o gymharu â 9 yn y 7 mis blaenorol. O'r 7 achos yma, roedd 6 ohonynt wedi digwydd yn Ysbyty Tywyn, gyda diffyg capsiti wedi'i nodi fel problem. Bu 3 achos yn Rhagfyr. Mae targed y flwyddyn yn barod wedi ei fethu. A gyda 3 mis pellach i'w adrodd rhagwelir bydd perfformiad diwedd y flwyddyn rhwng 1.53 - 2.04. |
| SCA/002a - Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. | 46.53 | 46.21 | 45.07 | Gwelliant* | 44.1 | Perfformiad y mesur yma yn unol â'r hyn a ddisgwylir. Mae'r mesur yma yn eithaf traddodiadol yn ôl y gwasanaethau sy'n cael eu cyfrif, ac eleni fydd y flwyddyn olaf y byddwn yn adrodd arno'n genedlaethol. |
| SCA/002b - Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul | 24.69 | 25.59 | 24.15 | Gwelliant* | 23.1 | Perfformiad y mesur yma yn unol â'r hyn a ddisgwylir - gyda chyfradd is o bobl hyn yn cael eu lleoli o fewn cartrefi gofal. Dyma'r flwyddyn olaf i hwn gael ei |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf - Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. | | | | | | gasglu yn genedlaethol, ond er gwendidau yn y mesur, mae'n ddefnyddiol i ni weld os ydym yn lleoli llai o bobol mewn gofa preswyl fel cyfradd o'r boblogaeth. |
| SCA/002b (Lleol) – Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu. | - | 20.08 | 18.48 | Gwelliant* | 17.8 | Perfformiad y mesur yma yn unol â'r hyn a ddisgwylir ac yn cyd fynd a thuedd y mesur cenedlaethol uchod. Mae'r fersiwn hwn yn un lleol ac yn wahanol i'r un cenedlaethol gan ei fod yn eithrio hunan-arianwyr. |
| SCA/007 - Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 77% | 85% | 83% | Cynnal | 78% | Mae perfformiad anghyson ar draws Gwynedd wedi achosi'r llithriad. Arfon yn 91%, Dwyfor yn 86%, Meirionnydd yn 68%. Perfformiad Pobl Hyn yn 82%, Anableddau Dysgu yn 67% (e.e. AD Arfon 59%, AD De Gwynedd 78%). |
| SCA/019 – O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | - | - | Gwella | 94% | Mae'r perfformiad o 94.2% yn hytrach na 100% yn golygu fod 6 achos heb eu rheoli. Sylwadau yn dilyn ymchwil pellach yn yr adroddiad blaen. |

* = Ffigwr is yn welliant

**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai - Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caff06d- Canran gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol | 40.35 | 40.33 | 40.42 | Gwelliant | 40.48 amcangyfrif hanner blwyddyn | |
| Caff07 - Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmniau o fewn Gogledd Cymru (os yw'r prif swyddfa gyda cod post o fewn Gogledd Cymru) | 57% | 58% | 54% | Gwelliant | Adrodd ar ffigyrau 2015-16 yn ystod chwarter 1 2016-17 | |
| Caff08 - Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmniau o fewn (os yw'r prif swyddfa gyda cod post o fewn Cymru) | 61% | 61% | 58% | Gwelliant | Adrodd ar ffigyrau 2015-16 yn ystod chwarter 1 2016-17 | |
| ACH03 - Canran cwsmeriaid sy'n fodlon hefo'r gwasanaeth Archifau | 97 | 97 | 98 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |
| Celf06- Canran cwsmeriaid sy'n fodlon hefo'r gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | Mesur Blynyddol | |
| TMGC4 - Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,994,155.4 | £4,666,626 | £4,814,867 | Bodlon Gweld Gostyngiad | Mesur Blynyddol | |
| Uchel 07 - Nifer y swyddi gwerth uchel wedi'u creu | - | - | 34 | Gwelliant | 22 | Rydym wrthi'n gwirio ffigyrau sydd â'r potensial i ychwanegu 10+ o swyddi at y mesur yma erbyn diwedd 2015/16. |
| PENECON01- Nifer y swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr | - | Newydd i 2014-15 | 234.5 | Bodlon Gweld | 56.5 | Gostyngiad mewn cyrhaeddiad yn unol â'r disgwyl yn sgil cwblhau nifer o |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adran Economi a Chymuned | | | | Gostyngiad | | gynlluniau sylweddol megis y Gronfa Buddsoddi Lleol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig.<br><br>Rydym wrthi'n gwirio ffigyrau sydd a'r potensial i ychwanegu 150 o swyddi at y mesur yma erbyn diwedd 2015/16. |
| PENECON02 - Nifer y busnesau wedi eu cefnogi yng Ngwynedd gan yr Adran Economi a Chymuned | - | 92 | 67 | Bodlon Gweld Gostyngiad | 46 | Gostyngiad yng nghyrhaeddiad yn unol â'r disgwyl yn sgil cwblhau nifer o gynlluniau sylweddol megis y Gronfa Buddsoddi Lleol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig. |
| GD01- Nifer cymuned (daearyddol / o ddiddordeb) yn defnyddio technoleg mewn ffordd newydd / | - | - | - | Gwelliant | Mesur Blynyddol | |
| GD02 - Nifer o unigolion wedi derbyn cymorth i fynd ar-lein i ddefnyddio'r we er eu budd personol. | - | - | - | Gwelliant | Mesur Blynyddol | |
| YRE1- Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes / e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth Gwynedd Digidol | - | - | - | Gwelliant | Mesur Blynyddol | |

* = Ffigwr is yn welliant

**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai - Y Cynghorydd Ioan Thomas**

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf - Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.01- Datblygu trefniadau ar gyfer cydymffurfio efo cynlluniau yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yng Nghwynedd rhwng Medi a Thachwedd 2015, gan gynnwys hyfforddiant addas i staff a chydymffurfiaeth â thelerau'r Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi. | - | Do | Do | Cynnal | Do | Mae dyddiadau pendant erbyn hyn, sef Credyd Cynhwysol yn cychwyn yng Ngwynedd ar 26.10.15. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ef'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), a llwyddwyd i gytuno ac arwyddo Cytundeb Partneriaeth efo'r DWP i ddarparu cymorth i drigolion. |
| CD12.03 - Yr amser (nifer dyddiau) a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budddaliadau'r Dreth Gyngor | 21.03<br><br>(Ch3) | 21.77<br><br>(Ch3) | 15.23<br><br>(Ch3) | Cynnal* | 16.95 | Rydym yn ffyddiog y byddwn yn gallu parhau i berfformio ar y lefel yma am chwarter 4, a hefyd am y flwyddyn ganlynol. |
| CD12.04 - Yr amser (nifer dyddiau) a gymrwyd i brosesu digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | 3.79<br><br>(Ch3) | 5.20<br><br>(Ch3) | 3.62<br><br>(Ch3) | Cynnal* | 6.27 | Rydym yn ffyddiog y byddwn yn gallu parhau i berfformio ar y lefel yma am Chwarter 4, a hefyd am y flwyddyn ganlynol. |
| LCL/001b - Nifer ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5040 | 5301 | 4199 | - | Mesur Blynyddol | Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno yn Mehefin. |
| LLYF05- Canran o'r defnyddwyr sy'n graddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn dda iawn neu dda | 97.7 | 95.5 | 96 | Cynnal | Mesur Blynyddol | Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno yn Mehefin. |
| DAT01 Nifer eiddo gwag hir dymor yn y Sir (6 mis neu fwy) wedi dod nol i ddefnydd | 35<br>(Ch3) | 43<br>(Ch 3) | 59<br>(Ch3) | Cynnal | 48 | Llai wedi ei gwblhau na Ch3 llynedd (48 o'i gymharu â 59), ond uchelgais eleni ychydig yn is, a'r mesurydd wedi cwrdd â'r targed. |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf - Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DAT04 Nifer o dai ar y cynllun Tai Cynllun Lesu | 61 (Ch3) | 56 (Ch3) | 57 (Ch3) | Cynnal | 55 | Er ein bod wedi methu'r uchelgais o 3, mae'r Gwasanaeth Tai yn fodolon gyda'r niferoedd hyd yn hyn. Mae'r tuedd dros y blynyddoedd yn dangos fod niferoedd wedi syrthio ond nad oes chwaith angen mwy o eiddo. Mae cynyddu'r ffigwr yma yn gallu arwain at or-wariant.<br>Un eiddo arall ar y gweill yn mis Ionawr ond dim galw am fwy. |
| PSR/002 Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 298 | 242 | 311 | Gwelliant* | 270 | Y perfformiad yn unol â'r disgwyl. |
| PSR/004 Canran o'r anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | - | 4.17% (Ch3) | 2.09% (Ch3) | Gwelliant | 4% | Y perfformiad yn unol â'r disgwyl. |
| Strat6 Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | - | 43 (Ch3) | 97 (Ch3) | Cynnal | 46 | Er bod perfformiad y mesur hwn yn is o'i gymharu â'r llynedd (46 o'i gymharu â 97), rydym yn parhau i berfformio yn eithaf da. Uchelgais eleni ychydig yn is, a'r mesurydd wedi cwrdd â'r targed. |
| TAI 03 Y nifer o unedau llai sydd wedi eu sefydlu yn y sir mewn ardaloedd o angen o ganlyniad i: Ddarpariaeth tai fforddiadwy, Ddarpariaeth unedau tai gwag nôl i ddefnydd | - | Dim data | 86 (Ch3) | Cynnal | 40 | Y mesurydd yn cael ei weld fel 'data gweithgaredd' a dim uchelgais ffurfiol sydd angen ei gwrdd. Mae'r mesur hwn yn gysylltiedig hefo Strat6 a TAI 05 ac felly yn dilyn yr un patrwm. |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf - Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TAI 05 Nifer o unigolion/cyplau/teuluoedd sydd wedi elwa o ganlyniad i: o Ddarpariaeth tai fforddiadwy. | - | Dim data | 132 (Ch3) | Cynnal | 79 | Mae’r perfformiad yn is o’i gymharu â’r llynedd ac mae hyn yn cyd fynd a’r tuedd a welir yn y mesur Start6 uchod. |

**Amgylchedd - Y Cynghorydd John Wynn Jones**

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| THS/011a Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael | 4.40 | 4.40 | 3.50 | Cynnal* | Mesur Blynyddol | |
| THS/011b Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael | 4.40 | 4.70 | 3.70 | Cynnal* | Mesur Blynyddol | |
| THS/011c Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael | 7.50 | 14.70 | 14.2 | Cynnal* | Mesur Blynyddol | |
| THS/009 Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd | 2.40 | 2.70 | 3.50 | Cynnal* | Mesur Blynyddol | |
| PB8 Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wnaethpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd | 97.00 | 97.20 | 97.00 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |
| PB9 Canran o'r archwiliadau diogelwch wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod penodedig | 98.00 | 98.30 | 98.00 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |
| STS/005a Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 71.88 | 73.5 | 70.65 | Cynnal | 76.11 | Chwarter (Ch)3 yn seiliedig ar yr arolwg mewnol ac allanol. |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| STS/005b Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyr sydd a'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 94.12 | 93.5 | 94.3 | Cynnal | 96.42 | Ch3 yn seiliedig ar yr arolwg mewnol ac allanol |
| STS/006 Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith I'r amser hysbyswyd | 93.8 | 97.3 | 96.5 | Cynnal | 96.00 | Amcangyfrif seiliedig ar Ch 1 a 2 |
| PB15 Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100 | |
| PB16 Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100 | |
| WMT/004 Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi | 47.31 | 45.94 | 43.33 | Gwelliant* | 36.1 | Mae'r ffigyrau ar gyfer Chwarter 3 yn amcangyfrifon. |
| WMT/009 Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio | 51.18 | 54.3 | 55.25 | Gwelliant | 58.22 | Mae'r ffigyrau ar gyfer Chwarter 3 yn amcangyfrifon. |
| PB51 Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 27.3 | 30.79 | 35.45 | Gwelliant | 42.81 | Mae'r ffigyrau ar gyfer Chwarter 3 yn amcangyfrifon. |
| PB60 Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans tirlenwi) | 20695 | 19650 | 18603 | Gwelliant* | 18061 (96% o'r lwfans) | Mae'r ffigyrau ar gyfer Chwarter 3 yn amcangyfrifon. |
| PB56 Canran galwadau Gwastraff a ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 94.5 | 95 | Gwelliant | 96.28 | |
| PB57 Canran galwadau Bwrdeistrefol ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 92.6 | 91.3 | Gwelliant | 95.98 | |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PB58 Canran galwadau Cynnal Priffyrdd a ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 86.70 | 90.00 | Gwelliant | 94.99 | |
| PB59 Canran Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer wedi eu bodloni gydag ymateb yr Adran | Dim data | Dim Data | 94.1 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |
| Eiddo9-Canran y lleihad yn lefel yr allyriadau carbon sy’n cael ei gynhyrchu trwy weithgareddau’r Cyngor | 15.1 | 24.8 | 26.1 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |
| Eiddo10-Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | 17.98 | 30.76 | 30.3 | I’w sefydlu | Mesur Blynyddol | Mae casglu gwybodaeth nwy, trydan, olew a phropan ar gyfer oddeutu 800 o adeiladau yn dasg aruthrol ac nid yw gwybodaeth am un rhan o'r flwyddyn yn rhoi darlun dibynadwy i ni allu dysgu ohono. Felly mae'r mesur hwn yn cael ei gyfrifo'n flynyddol. |
| Elw yn erbyn y targed | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Gwelliant | Rhagolygon diwedd blwyddyn £71,400 | |
| CC1- Capasiti (kWh) trydan y gall y Cyngor ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddol yn ei adeiladau ei hun | - | - | 303230 | Gwelliant | Mesur Blynyddol | |
| CC2- Capasiti (kWh) gwres y gall y Cyngor ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddol yn ei adeiladau ei hun. | - | - | 343720 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |
| CC3- Canran newid mewn allyriadau carbon sy’n gysylltiedig â theithiau busnes. (ac eithrio achlysuron sydd allan o reolaeth). | - | 2 | 11.1 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |

* = Ffigwr is yn welliant

**Amgylchedd - Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo1- Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw | 12.6 | 11 | 9 | Bodlon gweld Gostyngiad* | 8.00 | Perfformiad yn parhau yn dda iawn. |
| Eiddo2-Canran cwsmeriaid y ddesg gymorth cynnal a chadw sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd | - | - | 97.5 | Cynnal | 94.70 | Er yn parhau yn uchel, mae'r ganran sy'n fodlon wedi gostwng. 7 ymateb anfodlon allan o 131 o'i gymharu â 3 allan o 157 pan adroddwyd yn Chwarter 2. Rheolwr wedi siarad gyda'r 7 i ddeall mwy ac wedi ymchwilio i bob achos unigol. Rydym yn cadw cofnod o'r sylwadau ar y wal er mwyn gweld os ydynt yn codi eto neu yn broblem unwaith ac am byth. Mae'r trefniadau sydd wedi bod mewn lle gyda'n contractwyr ers blynyddoedd maith newydd ddod i ben cyn y Nadolig. Mae'n anodd felly mynd at wraidd pob un o'r achosion gan nad yw rhai o'r contractwyr yn gweithio i 'r Cyngor bellach. |
| Eiddo3-Canran yr adeiladau'r Cyngor yng nghategori cyflwr da neu dderbyniol | 93.1 | 96 | 96 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |
| Eiddo4-Canran adeiladau gyda systemau diogelwch priodol mewn lle i alluogi defnyddio'r adeilad i ddarparu gwasanaeth | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 63 | Dyma'r tro cyntaf i ni adrodd ar y mesur yma yn dilyn cyflwyno'r mesur fel rhan o'r adolygiad Ffordd Gwynedd. Hyd nes y bydd y cylch cyfan cyntaf o archwiliadau wedi eu cwblhau bydd yn anodd deall y perfformiad yn iawn. Mae'r cylch cyntaf o archwiliadau yn darganfod llawer o bethau sydd angen sylw cyn y gellir datgan fod "systemau diogelwch priodol |

| **Mesur - diffiniad** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | mewn lle". Heb gyflwyno'r drefn newydd ni fyddem wedi darganfod y problemau hyd nes i rywbeth fynd o'i le. |
| Eiddo5-Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon fod y gwasanaeth a gafwyd yn effeithlon a phwrpasol | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 100% | Mae'r ymateb i'r drefn newydd gyflwynwyd o ganlyniad i'r adolygiad Ffordd Gwynedd wedi bod yn ardderchog. Roeddem yn ceisio cyfarch y problemau amlygwyd gan ein cwsmeriaid yn ystod yr adolygiad ac mae'r sylwadau ydym yn eu derbyn yn cadarnhau ein bod wedi llwyddo hyd yma: "gwych gret, falch iawn o weld un ymweliad yn cwmpasu'r cyfan. Ffurflen adroddiad yn user friendly a llywodraethwyr friendly hefyd. Diolch " "I ddweud y gwir, nid wyf y gallu meddwl sut y buasech yn gwella'r gwasanaeth y cawsom ni eleni gennych. Roedd o'n broffesiynol iawn ac yn ddi-drafferth. A hoffwn ddiolch am y gefnogaeth. " "Yr adroddiad cymaint gwell, yn fwy user friendly, mwy o wybodaeth, mwy o ddyfnder ( y “smiley face” yn dda)" |
| Eiddo6-Canran o adeiladau newydd (neu addasiadau) sy'n cael eu cyflawni o fewn yr amserlen a'r gyllideb | 100 | 79 | 88.2 | Gwelliant | 100% | |
| Eiddo7-Canran o ddefnyddwyr sy'n hapus gydag adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi eu haddasu | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100% | |

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo11- Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth gafwyd gan Uned Datblygu Eiddo yn ystod y prosiect | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur newydd- trefniadau yn cael eu gosod | |
| Eiddo 8a-Incwm o waredu eiddo sydd ar gael i'r Cyngor ail ddefnyddio | £871,000 | £1,551,000 | £1,967,000 | Bodlon Gweld Gostyngiad | £469,185 | Rydym yn cyflawni fel y byddem wedi ei obeithio ar y mesur. Rydym hyd yma wedi denu incwm gwell na'r disgwyl ac yn agos i gyrraedd ein huchelgais. |
| Eiddo8b- Canran o brydlesi wedi eu hadolygu yn amserol | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur newydd- trefniadau yn cael eu gosod | |
| Eiddo12a- Cost y pen ar gyfer gofod swyddfa Caernarfon | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur newydd- trefniadau yn cael eu gosod | |
| Eiddo12b- Bodlonrywdd staff gyda'u gofod swyddfa h.y. ydi o'n addas ar gyfer gallu cyflawni eu gwaith? | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur newydd- trefniadau yn cael eu gosod | |
| Eiddo 13a- Bodlonrwydd rheolwyr safle gyda'r gwasanaeth glanhau/ gofalu | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur newydd- trefniadau yn cael eu gosod | |
| Parcio4- Canran o apeliadau i'r beirniad anibynnol sy'n cael eu caniatau | - | - | - | Gwella | 58 | Aeth 12 apêl ymlaen at y Beirniad a cafodd 7 ohonynt eu caniatau. Roedd y rhan helaeth ohonynt yn ymwneud gyda pharcio ar y Maes yng Nghaernarfon. Rydym hefyd yn derbyn nifer o heriau cam 1 (her i'r Cyngor cyn mynd at y Beirinad) ar faterion yn ymwneud â'r |

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Maes. Rydym yn y broses o adolygu'r trefniadau presennol yno i weld os oes modd gwneud y sefyllfa'n gliriach i ddefnyddwyr. |
| Parcio5- Canran o apeiliadau i'r Cyngor sy'n cael eu caniatau | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | Mesur newydd-trefniadau yn cael eu gosod | Mae hwn yn fesur newydd gafodd ei gyflwyno y chwarter yma. Gan fod y data yn cael ei ddal gan y WPPP, Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, mae wedi bod yn anodd cael gwybodaeth ddeallus er mwyn gallu mesur yn gywir. Rydym yn sefydlu trefniadau ar hyn o bryd ar gyfer gallu adrodd yn Chwarter 4. |
| Parcio03- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | - | Gwella | 70.27 | Mae'r ganran wedi cynyddu ryw ychydig. Mae rhan helaeth yn sylwadau a dderbynnir yn parhau ar yr un trywydd h.y. eisiau parcio am ddim, prisiau yn rhy uchel. Mae rhai hefyd yn gofyn am dariff newydd fyddai'n cynnig parcio am hanner awr yn hytrach na gorfod talu am awr. Y ffi isaf ar hyn o bryd mewn maes parcio tymor byr yw £1am hyd at awr. Yn dilyn derbyn y sylwadau hyn byddwn yn rhoi ystyriaeth i oblygiadau ac ymarferoldeb cyflwyno tariff hanner awr. |
| PLA004b Lleol- Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod a pa mor sydyn maent yn cael eu penderfynu ar gyfartaledd. | - | | - | Sefydlu Gwaelodlin | 80.9%- 33 diwrnod | 288 cais, a 233 wedi eu penderfynu o fewn 8 wythnos - 80.9% Cyfartaledd nifer o ddyddiau:<br>Ceisiadau o fewn 8 wythnos - 33 diwrnod. Ceisiadau dros 8 wythnos - 143 diwrnod. Cyfartaledd penderfynu'r holl geisiadau - 51 diwrnod sydd yn gyflymach na Ch2. |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mesur Cenedlaethol: PLA004b Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos | 73.13 | 72.86 | 76.44 | Cynnal | Mesur Blynyddol | |
| PLA006b Lleol- Canran o dai fforddiadwy ganiatawyd gyda cheisiadau cynllunio am dai. | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 46% | 56 o dai wedi eu cymeradwyo gyda 26 yn fforddiadwy drwy 106 neu yn fforddiadwy beth bynnag. |
| Mesur Cenedlaethol:PLA006b Nifer o unedau tai fforddiadwy a gafodd eu darparu fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd eu darparu yn ystod y flwyddyn drwy'r drefn cynllunio | 30 | 41 | 50 | I'w sefydlu | Mesur Blynyddol | |
| PLA005- Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn | 85.1 | 69.5 | 71.43 | Cynnal | 69.50% | Cynnydd ar perfformiad Ch2. 95 cwyn a 66 wedi eu cau o fewn 12 wythnos - 69.5% . Cyfartaledd nifer o ddyddiau: Cwynion o fewn 12 wythnos – 23 diwrnod. Cwynion dros 12 wythnos – 581 diwrnod. Holl gwynion - 193 diwrnod. |
| PLA002- Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu a gafodd eu cymeradwyo | 95.56 | 94.76 | 93.28 | Cynnal | 90.30% | Cynnydd ar Ch2 sydd yn dangos Cynllunio cadarnhaol gyda 288 cais a 260 wedi eu cymeradwyo - 90.3% |
| Cynllunio01- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 90.90% | 22 ymateb gyda 20 yn fodlon hefo'r gwasanaeth sydd yn adlewyrchu bodlonrwydd mwyafrif y cwsmeriaid a holwyd. |
| GyC02- Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth. | 96 | 97 | 97 | Cynnal | 98 | Adborth cadarnhaol gan y mwyafrif helaeth o'r cwsmeriaid a holwyd, gyda 56 o holidauron wedi eu cwblhau hyd yma. Mwy o holiaduron yn cael eu gwneud ar gyfer Ch4. |

* = Ffigwr is yn welliant



| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GyC03- Canran y Ceisiadau am Wasanaeth sy'n derbyn ymateb o fewn targed. | 92 | 92 | 95 | Cynnal | 91 | Perfformiad yn gyson gyda 5444 o 6011 o geisiadau wedi derbyn ymateb o fewn targed. |
| GyC04- Canran y Ceisiadau am Wasanaeth a chafodd eu datrys o fewn 6 mis o'r dyddiad derbyn. | 93 | 93 | 92 | Gwelliant | 88 | Cynnydd ar Ch2 gyda 5755 o 6558 o geisiadau wedi'u cau o fewn 6 mis o'u derbyn. |
| GyC07- Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sy'n agored i gael arolygiad yn ystod y flwyddyn. | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 63 (yn unol â'r proffil) | Mae 23 o'r 32 busnes wedi eu harchwilio, ond 3 heb eu cofnodi oherwydd problemau cofnodi, (gwir berfformiad yn 72%). |
| GyC22- Canran o fusnesau anghydffurfiol sy'n gwerthu nwyddau gyda chyfyngiad oed sydd bellach yn cydymffurfio | 86 | 86 | 94 | Cynnal | 77 | Cynnydd at Ch2 gyda 33 o 43 busnes wedi cydymffurfio â rheoliadau gwerthu nwyddau cyfyngiad oed. |
| GyC23- Canran yr ymatebion i geisiadau am wasanaeth parthed cŵn strae o fewn un diwrnod gwaith | 96 | 78 | 92 | Cynnal | 86.92 | Hyn yn is na'r targed ond dal yn dderbyniol, gyda 226 o 260 o geisiadau wedi derbyn ymateb o fewn 1 diwrnod gwaith. |
| GyC25- Canran y busnesau newydd wedi eu canfod ac sydd wedi cael ymweliad asesu risg neu gwnaeth ddychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn | - | Newydd i 2014-15 | 90 | Cynnal | 78 | Cynnydd ar Ch2 gyda 417 o 518 busnes newydd wedi cael ymweliadau asesu risg. (Rhai busnesau'n agor a chau cyn cael ymweliad). |
| GyC26- Canran y busnesau uchel eu risg sy'n agored i gael arolygiad sydd wedi ei dderbyn. | - | Newydd i 2014-15 | 100 | Cynnal | 73 (yn unol â'r proffil) | Ar darged I gyrraedd 100% ar gyfer y flwyddyn, gyda 492 o 674 archwiliadau risg uchel wedi eu cyflawni. 51 archwiliad ddim yn bosib oherwydd busnesau yn cau lawr neu yn newid risg. |
| PAM9aCanran o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4/5 safonau hylendid bwyd. | - | 91 | 93 | Gwelliant | 92 | Perfformiad yn parhau'n dda iawn ar gyfer sefydliadau bwyd sydd o fewn system graddio, gyda 1652 o 1792 sefydliadau bwyd efo sgôr 4 neu 5. |

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PPN/007- Canran y troseddau sylweddol a gafodd eu cywiro drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd | 87.5 | 92 | 88 | Gwelliant | 71 | Cynnydd ar Ch2 gyda 285 o 403 o achosion wedi cael eu cywiro drwy ymyrraeth. |
| PPN/009- Canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n fras' a safonau hylendid bwyd. | 95.42 | 97.49 | 97.2 | Gwelliant | 97.42 | Perfformiad yn parhau'n dda iawn gyda 2113 o 2169 sefydliadau bwyd yn cydymffurfio'n fras. |
| Cludiant01- Canran o siwrnai cludiant cyhoeddus (bysus) sydd wedi eu monitro sydd o fewn y terfynau dibynadwyedd (amseroldeb bysus) | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 100 | 8 allan o 8 gwasanaeth wedi ei fonitro o fewn y ffiniau prydlon. Swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar wneud arolwg bysiau ac felly ddim wedi bod yn rhoi llawn amser i fonitro gwasanaethau yn ôl yr arfer. Data ddim yn cynnwys gwasanaethau addysg sydd wedi eu monitro. |
| Cludiant02- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 50 | Staff wedi bod yn canolbwyntio ar yr arolwg bysiau yn hytrach na chasglu data bodlonrwydd cwsmer. O'r sylwadau am wasanaethau sydd dan reolaeth y Cyngor, mae 67% yn hapus gyda'r gwasanaeth.<br>Mae'n amlwg fod mwy o anfodlonrwydd ar wasanaethau masnachol na ellir ei rheoli. O'r bobl oedd yn anhapus gyda'r gwasanaeth, roedd 60% yn seiliedig ar wasanaethau masnachol. |
| THS/007- Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau Teithio rhatach ar y bws. | 84.7 | 84.6 | 80.3 | - | Mesur Blynyddol | |
| Traffig01- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 100 | Canlyniadau positif o ran y rhai sydd wedi ymateb. |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf – Chwarter 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GStryd01- Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 97.50 | Canlyniadau positif o ran y rhai sydd wedi ymateb. |
| Parcio01b- Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/ hyfforddiant | - | - | Newydd i 2015-16 | Sefydlu Gwaelodlin | 100% | Cynhaliwyd amryw o wersi yn ystod y cyfnod yma sef hyfforddiant seiclo, kerbcraft a diogelwch y ffyrdd yn gyffredinol. Fe oedd yr adborth a dderbyniwyd gan y cwsmeriaid yn wych ac yn datgan bod yr hyfforddwyr yn broffesiynol ac amyneddgar dros ben a bod y plant wedi bod yn ffodus i elwa o hyfforddiant o'r fath a chael y cyfle i ddysgu sgiliau gydol oes ac ymdopi gyda sefyllfaoedd heriol. Datganwyd bod y plant gymerodd rhan yn yr hyfforddiant wedi mwynhau yn fawr iawn gyda'r sesiynau yn rhai hwyliog a bod cyfathrebu cyson wedi bod pob tro. Yn ogystal â chynnal hyfforddiant bu i'r uned gynnal 2 ymgyrch gwerthfawr sef Gwrth Yfed a Gyrru ag hefyd Gyrwyr Hyn. Roedd llawer iawn o'r cwsmeriaid yn datgan bod yr ymgyrchoedd yn rhai gwych ac yn syniad ardderchog. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol hefyd am y swyddogion oedd ynghlwm â'r ymgyrch sef eu bod hwy wedi dwyn sylw a chyflwyno'r wybodaeth i'r cwsmeriaid yn dda. Yn dilyn yr ymgyrch Gyrwyr Hyn derbyniwyd llawer o enwau i fynychu'r hyfforddiant. |

**ADRODDIAD I'R CABINET**

Dydd Mawrth 15/03/2016

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd William Gareth Roberts

**Pwnc:** Effaith y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar Bolisi Codi Tâl Gwasanaethau Oedolion

**Swyddog cyswllt:** Meilys H. Smith, Uwch Reolwr Busnes, Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

---

**Y penderfyniad a geisir**

1. Cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn ymarfer y disgresiwn a ganiateir gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i godi tâl am Wasanaethau Gofal i Oedolion o'r 6/04/2016 ymlaen.
2. Mabwysiadu Polisi Codi Tâl newydd y Gwasanaeth Oedolion fydd yn weithredol o'r 6/04/2016.
3. Cymeradwyo'r ffioedd am wasanaethau gofal ar gyfer 2016/17.
4. Rhoi caniatâd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gychwyn ymgynghoriad ym mis Mai 2016 ar newidiadau sydd eu hangen i'r Polisi Codi Tâl.

---

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol.

---

**1. Cyflwyniad**

1.1 Ar 6 Ebrill 2016 bydd y fframwaith ar gyfer asesiadau ariannol a chodi tâl o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dod i rym. Bydd y fframwaith yn weithredol o'r dyddiad hwn ac o ganlynid bydd rhaid i Awdurdodau Lleol ddewis a ydynt am ymarfer, neu ddim, eu disgresiwn o dan y ddeddf i godi tâl am wasanaethu gofal. Bydd y Ddeddf yn disodli'r fframwaith presennol a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol i godi tâl gan ei adael yn fater o ddisgresiwn y Cynghorau Lleol.

Mae'r Gwasanaeth Oedolion yn argymell bod y Cyngor yn cytuno i ddefnyddio'r disgresiwn a ganiateir gan y Ddeddf ac yn parhau i godi tâl am wasanaethau preswyl a dibreswyl yn unol â'r trefniadau sydd eisoes yn eu lle.

1.2 Mae polisi codi tâl newydd wedi cael ei ysgrifennu er mwyn ymgorffori'r trefniadau codi tâl presennol i fframwaith statudol newydd y Ddeddf. Mae'r Gwasanaeth Oedolion yn argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r polisi hwn er mwyn parhau a'r trefniadau codi tâl presennol tu hwnt i'r 6 Ebrill 2016.

Gweler y Polisi Codi Tâl newydd yn Atodiad A.

1.3 Mae'r Gwasanaeth Oedolion wedi adnabod yr angen i wneud newidiadau i'r Polisi Codi Tâl. Mae diffyg amser i ymgynghori ar y newidiadau hyn cyn 6/04/2016 yn golygu bod yn rhaid parhau gyda'r trefniadau presennol tu hwnt i'r 6/04/2016. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth Oedolion ymgymryd â phroses ymgynghori ffurfiol yn ystod y misoedd nesaf er mwyn gwneud y newidiadau sydd eu hangen i ddiweddaru'r polisi codi tâl, a galluogi'r Gwasanaeth i godi incwm ychwanegol a chysoni elfennau o'r polisi gyda pholisïau Cynghorau eraill Gogledd Cymru.

## 2 Rhesymau dros argymell y penderfyniad

*2.1 Mae codi* tâl am wasanaethau preswyl a dibreswyl yn ffynhonnell incwm hanfodol i'r Gwasanaeth Oedolion sydd yn gyfwerth ac oddeutu £10 miliwn pob blwyddyn. Os na fydd y Cyngor yn ymarfer ei ddisgresiwn i godi tâl am wasanaethau, ac yn mabwysiadu'r polisi codi tâl bydd hawl y Gwasanaeth Oedolion i gasglu'r incwm hwn yn dod i ben ar 6 Ebrill 2016.

O ganlyniad i fabwysiadu'r polisi hwn, fydd yna ddim newid gweithredol i'r ffordd mae codi tâl ac asesiadau ariannol yn cael eu cwblhau yn ymarferol, a fydd yna ddim effaith ar y defnyddwyr gwasanaeth.

2.2 Yn unol â'r gofyn blynyddol i adolygu'r ffioedd safonol sydd yn cael eu codi ar ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau preswyl a dibreswyl, mae'r newidiadau isod yn cael eu hargymell ar gyfer 2016/17.

2.3 <u>Gofal Preswyl/ Nyrsio</u>

Mae'r tabl isod yn dangos y newidiadau sydd yn cael eu hargymell i'r ffioedd preswyl a nyrsio. Mae'r newidiadau yn adlewyrchu yn union y newid sydd yn mynd i fod i'r ffioedd safonol sydd yn cael eu talu i'r darparwyr. Noder nad oes newid i'r ffi safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl Cyngor Gwynedd. Does dim cyfiawnhad yn deillio o gostau rhedeg y gwasanaeth hwn, i gyfiawnhau codi'r ffi safonol.

Byddai peidio cynyddu'r ffi i'r defnyddiwr gwasanaeth sydd mewn cartrefi Preifat/ Annibynnol yn golygu bod gwahaniaeth yn mynd i fod rhwng y ffi sydd yn cael ei dalu i'r darparwyr a'r ffi sydd yn cael ei dalu gan y defnyddiwr gwasanaeth. Byddai hyn yn golygu colled incwm sylweddol dros amser i'r Gwasanaeth Oedolion.

| **Tabl Ffioedd Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio – *Residential & Nursing Care Fees Table 2016/17*** | |
|---|---|
| **Ffi Safonol Cartrefi Preswyl Cyngor Gwynedd**<br>*Standard Fee Gwynedd Council Care Homes* | £581.28 yr wythnos/<br>per week<br>Dim newid/ *no change* |
| | |
| **Cartrefi Gofal Preifat ac Anibynnol/ *Private and Independent Sector Care Homes*** | |
| **Categori gofal/ *Category of Care*** | |
| Preswyl (yn cynnwys dibyniaeth uchel)<br>*Residential (including high dependency)* | Cynnydd o/ *an increase from* £465.90<br>i/ to<br>£483.46 yr wythnos/ *per week* |
| Preswyl – dementia/EMI<br>*Residential – dementia/EMI* | Cynnydd o/ *an increase from* £509.72<br>i/ to<br>£532.07 yr wythnos/ *per week* |
| Nyrsio<br>*Nursing* | Cynnydd o/ *an increase from* £523.83<br>i/ to<br>£546.27* yr wythnos/ *per week* |
| Nyrsio – dementia/EMI<br>*Nursing – dementia/EMI* | Cynnydd o/ *an increase from* £549.00<br>i/ to<br>£573.58* yr wythnos/ *per week* |
| * Dim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd/ *Not including the Health Board Contribution.* | |

2.4 Gwasanaethau Dibreswyl

Mae'r tabl isod yn rhestru'r ffioedd Dibreswyl sy'n cael eu cynnig ar gyfer 2016/17. Does dim newid yn y ffioedd hyn i'r rhai a oedd yn weithredol yn 2015/16.

Ar amser cyflwyno'r adroddiad nid yw'r ffioedd sydd yn mynd i gael eu talu i'r darparwyr gofal dibreswyl wedi eu pennu ar gyfer 2016/17. O ganlyniad, does dim modd cynnig unrhyw newid i'r ffioedd safonol ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth.

Gan ei fod yn fwriad gan y Gwasanaeth Oedolion i adolygu'r Polisi Codi Tâl yn fuan eto yn y flwyddyn ariannol newydd (Mis Mai 2016). Mae bwriad adolygu'r ffioedd dibreswyl eto ar yr adeg yma, er mwyn adlewyrchu unrhyw newid i'r ffioedd fydd yn cael eu talu i'r darparwyr.

**Tabl Ffioedd Gwasanaethau Dibreswyl- 2016/17**

***Non Residential Fees Table- 2016/17***

| **Math o Wasanaeth/ *Type of Service*** | ***2016/17*** |
|---|---|
| Gofal Cartref/ *Home Care* | **£14.35*** yr awr/*per hour* |
| Gofal Cartref- Oriau Nos/ *Home Care- Night Time Hours* | **£14.35*** yr awr/*per hour* |
| Llety gyda Chymorth/ *Assisted Living Accommodation* | **£14.35*** yr awr/*per hour* |
| Taliadau Uniongyrchol/ *Direct Payments* | £11.35 yr awr/*per hour* |
| Teleofal Pecyn Sylfaenol/ *Telecare Basic Package* | **£3.30** yr wythnos/ *per week* |
| Cynllun Lleoli Oedolion/ *Adult Placement Scheme* | Dim- Yn cael ei adolygu<br>*No charge- Review in progress* |
| Cynhaliaeth mewn Gofal Dydd/ *Sustenance at Day Care Centres* | £4.20 y dydd/*per day* |

- * Mewn amgylchiadau prin bydd y Cyngor yn gallu negodi contractau rhatach gyda darparwyr gofal. Os bydd cost y gofal yn rhatach na £14.35 yr awr bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn talu'r raddfa ratach.
- ** In some rare circumstances the Council may be able to negotiate cheaper contracts with care providers. If the cost of the care is cheaper than £14.35 per hour the service user will be charged at the cheaper rate.*

2.5 Gofynnir am ganiatâd i ymgynghori ar newidiadau i'r Polisi Codi Tâl oherwydd bod dyfodiad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth Oedolion wneud newidiadau i'r Polisi. Mae nifer o faterion yn y polisi blaenorol wedi bod angen eu haddasu ers amser, rhai sydd yn gysylltiedig â chynlluniau arbedion* sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo gan y Cabinet. Mae materion eraill angen eu newid o safbwynt symleiddio'r polisi a chysoni trefniadau gyda'r rhai sydd yn weithredol ar draws Cynghorau Gogledd Cymru. Mae rhai o'r newidiadau yn cael eu rhestru isod:

- Mabwysiadu gofynion 'isafswm incwm' rheoliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gofal dibreswyl yn hytrach na pharhau gyda pholisi lleol Cyngor Gwynedd i ganiatáu diystyriaeth isafswm incwm uwch i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd dan oed pensiwn.*
- Codi llog ar gytundebau taliadau gohiriedig yn unol â'r hawliau newydd a ddaw yn sgil y Ddeddf.
- Dileu hawl y defnyddwyr gwasanaeth sydd mewn cartrefi preswyl i beidio talu am eu gofal yn ystod absenoldebau 'gwyliau'.

Yn ogystal, er na fyddai'n arwain at yr angen i newid y polisi, byddwn yn ymgynghori ar y bwriad i godi tâl unffurf ar bawb sy'n derbyn gwasanaeth Teleofal.

## 3 Ystyriaethau perthnasol

Mae'r angen i gynnal asesiad cydraddoldeb wedi cael ei gydnabod ac mae asesiad wedi cael ei gwblhau. Mae Atodiad B yn cynnwys copi o'r asesiad cydraddoldeb. Canfyddiad yr asesiad oedd na fyddai effaith ar y defnyddwyr gwasanaeth yn sgil mabwysiadu'r polisi newydd o'r 6/4/2016. Fodd bynnag bwriad y Gwasanaeth Oedolion yw cwblhau ail asesiad cydraddoldeb llawn cyn ymgynghori ar y darpar newidiadau i'r polisi codi tâl ym mis Mai.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

| | |
|---|---|
| Ebrill 2016- | Gorffen adnabod yr holl newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Polisi Codi Tâl. |
| Mai 2016- | Ymgynghori ar y newidiadau. |
| Gorffennaf 2016- | Cyflwyno'r Polisi newydd i'r Cabinet am gymeradwyaeth. |
| Awst- | Gweithredu ar y Polisi diwygiedig. |

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Yn amlwg, mae'r newid yn y cyd-destun deddfwriaethol yn golygu nawr bod gan y Cyngor fwy o ddisgresiwn. Fodd bynnag, fel y noda'r adroddiad, mae'r trefniadau codi incwm yn ffynhonnell incwm hanfodol i'r Gwasanaeth Oedolion. Yn y cyd-destun ariannol presennol, byddai gorfod dygymod heb hynny yn drychinebus o ran lefelau gwasanaeth.

Yn amlwg, fel y dywed yr adroddiad, bydd angen ymgynghori ymhellach i'r penderfyniad hwn ar newidiadau sydd eu hangen i'r polisi.

**Y Swyddog Monitro:**
Nodi'r yn benodol yn yr adroddiad fod angen i'r Cyngor weithredu ar y sail yma i warchod ein gallu i godi ffioedd mewn ymateb i sefyllfa ble mae deddfwriaeth newydd yn dod i rym. Fe gydnabyddir hyn yn yr adroddiad a'r bwriad i wneud gwaith pellach i sefydlu cynllun tymor hir. Mae cyd cyswllt hefyd rhwng yr adroddiad yma a sefydlu lefelau ffioedd cartrefi preifat ac annibynnol ac mae angen sicrhau fod hyn yn cael ei gyfarch yn y drefn briodol. Byddaf yn rhoi arweiniad pellach yn y cyfarfod.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae'r adroddiad yn trafod ffioedd taladwy i'r Cyngor gan ddefnyddwyr gwasanaethau preswyl a dibreswyl. Nodaf bydd y polisi yn cael ei adolygu yn fuan yn 2016/17. Bydd taflen penderfyniad ar wahân yn trafod y ffioedd taladwy gan y Cyngor i ddarparwyr gofal. Cadarnhaf fod cyfrifiad y ffioedd preswyl a nyrsio yn rhesymegol a bod darpariaeth cyllideb briodol mewn lle ar gyfer talu i'r darparwyr.

---

**Atodiadau**

Atodiad A- Polisi Codi Tâl Gwasanaethau Gofal a Chefnogaeth Oedolion

Polisi Codi Tal
Gwasanaeth Oedolior

Atodiad B- Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad B- Asesiad
Effaith Cydraddoldeb

**ADRODDIAD I'R CABINET**
15/3/16

**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

**Pwnc: Cynllun Rheoli Asedau Eiddo**

**Swyddog cyswllt: Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol**

---

## Y penderfyniad a geisir

Fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo a Pholisiau Eiddo a welir yn Atodiad A a B er mwyn atgyfnerthu a chefnogi'r hyn sydd eisioes wedi ei gyflawni drwy'r Strategaeth Eiddo Corfforaethol.

---

## Barn yr aelod lleol

Ddim yn fater lleol

---

**1.0 Cyflwyniad**


1.1 Pwrpas y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo hwn yw gosod allan strategaeth a chynllun gweithredu'r Cyngor o ran rheoli tir ac adeiladau i gefnogi darpariaeth gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

1.2 Yn Hydref 2009 mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Asedau Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2008/09 - 2018/19. Am y tro cyntaf, yn dilyn proses flaenoriaethu gynhwysfawr gan holl Aelodau'r Cyngor, bu i'r Cyngor lunio cynllun strategol tymor canolig sydd yn gosod allan ei holl flaenoriaethau gwariant cyfalaf ac yn adnabod ffynonellau cyllido. Mae hefyd yn datgan pa adeiladau fydd yn cael eu gwaredu dros y cyfnod gyda'r nod o ddargyfeirio'r derbynion cyfalaf i gyfrannu tuag at ariannu blaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor.

1.3 Y strategaeth sydd yn blaenoriaethu holl wariant cyfalaf y Cyngor ac yn delio gyda'r dull o ariannu'r gwariant hwnnw. Nid yw'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo hwn yn edrych ar yr ochr arianol felly.

1.4 Mae'r Strategaeth yn un corfforaethol yn cyfeirio at holl asedau'r Cyngor ar draws ei ystod o Adrannau gan gynnwys Eiddo, Priffyrdd a Strwythurwaith, Technoleg Gwybodaeth, Grantiau ayb,

ac yn amlygu'n glir fod angen Cynllun Rheoli Asedau penodol ar gyfer pob maes gwaith sy'n rhan ohono. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo a welir yn Atodiad A.




1.5 Dengys y diagram uchod y berthynas rhwng y Strategaeth Asedau Corfforaethol , y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo hwn, a'r Cynlluniau a Strategaethau ar gyfer y meysydd perthnasol eraill. Dengys hefyd y cyswllt uniongyrchol gyda'r Strategaeth Ariannol. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn deillio'n uniongyrchol o'r Strategaeth Asedau. Mae'r Rhaglen Waredu hefyd yn deillio'n uniongyrchol o'r Strategaeth Asedau ac (heblaw am gyfraniad o 20% hyd at uchafswm o £20,000 sy'n mynd i'r Adran berthnasol) mae'r derbynion cyfalaf o waredu eiddo yn cael ei ddargyfeirio yn ôl i ariannu'r Strategaeth.

1.6 Yn 2003 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad yr angen i bob Awdurdod Lleol lunio a mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo yn amlinellu eu strategaeth ar gyfer darparu adeiladau priodol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r Cyhoedd.

1.7 Mewn ymateb i hyn, mabwysiadwyd Cynllun Rheoli Asedau Eiddo gwreiddiol y Cyngor yn 2004. Bellach mae angen diweddaru'r Cynllun hwnnw, yn arbennig yng ngoleuni'r ffaith fod y Strategaeth Asedau Corfforaethol wedi sefydlu'r trywydd ar gyfer y cyfnod dan sylw.

1.8 Wrth adolygu'r Cynllun hwn, cymerwyd y cyfle i adolygu ein Polisiau a Chynlluniau Gweithredu mewn meysydd penodol i sicrhau eu bod yn parhau yn gyfredol ac yn addas i bwrpas. Gweler rhain yn Atodiad B.

2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo a Pholisiau Eiddo a welir yn Atodiad A a B er mwyn atgyfnerthu a chefnogi'r hyn sydd eisioes wedi ei gyflawni drwy'r Strategaeth Eiddo Corfforaethol.

---

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

Bydd aelodau yn cofio'r gwaith hynod o drylwyr a wnaed gan aelodau ac eraill rai blynyddoedd yn ôl i sefydlu a rhesymoli gofynion y Cyngor o ran ei asedau.

Mae'r cynllun sydd gerbron yn diweddaru ac yn dwyn ynghyd safbwynt polisi presennol y Cyngor am yr eiddo sydd yn ei feddiant o ran ei bwrpas a'r rheolaeth ohono a rwyf yn ei gymeradwyo i sylw'r Cabinet. Yn ei hanfod, adnodd i gefnogi gwasanaeth yw ein holl eiddo a rhaid cofio hynny wrth sicrhau bod y polisiau iawn yn cael eu gweithredu.

### Y Swyddog Monitro:

Fel y nodir yn yr adroddiad mae'n amserol adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo. Dim sylwadau pellach i'w cynnig o safbwynt priodoldeb.

### Y Pennaeth Cyllid:

Mae'r adroddiad yma yn ymwneud â Chynllun Rheoli Asedau Eiddo a Pholisïau Eiddo, sef gosod allan manylion gweithredu'r Cyngor o ran rheoli tir ac adeiladau i gefnogi darpariaeth gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Ar wahân i hyn, mae gan y Cyngor hefyd Strategaeth Asedau cynhwysfawr sydd yn cynnwys nid yn unig eiddo, ond holl asedau pob gwasanaeth arall o fewn y Cyngor, a hefyd yn ymgorffori'r ymhlygiadau ariannol a chyllidol perthnasol. Yn ddiweddar, bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau hefyd, a bydd hwnnw yn destun adroddiad arall i'r Cabinet ystyried mewn cyfarfod dilynol

---

## Atodiadau

Atodiad A – Cynllun Rheoli Asedau Eiddo

Atodiad B – Polisiau Rheoli Eiddo

# Chynllun Rheoli Asedau Eiddo




# 2015/16 - 2018/19

**1.0 CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN POLISI**

1.1 Pwrpas y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo hwn yw gosod allan strategaeth a chynllun gweithredu'r Cyngor o ran rheoli tir ac adeiladau i gefnogi darpariaeth gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

1.2 Yn Hydref 2009 mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Asedau Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2008/09 - 2018/19. Am y tro cyntaf, yn dilyn proses flaenoriaethu gynhwysfawr gan holl Aelodau'r Cyngor, bu i'r Cyngor lunio cynllun strategol tymor canolig sydd yn gosod allan ei holl flaenoriaethau gwariant cyfalaf ac yn adnabod ffynonellau cyllido. Mae hefyd yn datgan pa adeiladau fydd yn cael eu gwaredu dros y cyfnod gyda'r nod o ddargyfeirio'r derbynion cyfalaf i gyfrannu tuag at ariannu blaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor.

1.3 Mae'r Strategaeth yn un corfforaethol yn cyfeirio at holl asedau'r Cyngor ar draws ei ystod o Adrannau gan gynnwys Eiddo, Priffyrdd a Strwythurwaith, Technoleg Gwybodaeth, Grantiau ayb,
ac yn amlygu'n glir fod angen Cynllun Rheoli Asedau penodol ar gyfer pob maes gwaith sy'n rhan ohono.




1.4 Dengys y diagram uchod y berthynas rhwng y Strategaeth Asedau Corfforaethol , y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo hwn, a'r Cynlluniau a Strategaethau ar gyfer y meysydd perthnasol eraill. Dengys hefyd y cyswllt uniongyrchol gyda'r Strategaeth Ariannol. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn deillio'n uniongyrchol o'r Strategaeth Asedau. Mae'r Rhaglen Waredu hefyd yn deillio'n uniongyrchol o'r Strategaeth Asedau ac (heblaw am gyfraniad o 20% hyd at uchafswm o £20,000 sy'n mynd i'r Adran berthnasol) mae'r derbynion cyfalaf o waredu eiddo yn cael ei ddargyfeirio yn ôl i ariannu'r Strategaeth.

1.5 Yn 2003 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad yr angen i bob Awdurdod Lleol lunio a mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo yn amlinellu eu strategaeth ar gyfer darparu adeiladau priodol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r Cyhoedd.

1.6 Mewn ymateb i hyn, mabwysiadwyd Cynllun Rheoli Asedau Eiddo gwreiddiol y Cyngor yn 2004. Bellach mae angen diweddaru'r Cynllun hwn, yn arbennig yng ngoleuni'r ffaith fod y Strategaeth Asedau Corfforaethol wedi sefydlu'r trywydd ar gyfer y cyfnod dan sylw.

1.7 Wrth adolygu'r Cynllun hwn, cymerwyd y cyfle i adolygu ein Polisiau a Chynlluniau Gweithredu mewn meysydd penodol i sicrhau eu bod yn parhau yn gyfredol ac yn addas i bwrpas. Gweler y Polisiau Rheoli Ediddo.

**2.0 PORTFFOLIO EIDDO'R CYNGOR**

2.1 Mae'r Cyngor yn berchen ar eiddo gweithredol yn bennaf, er mwyn galluogi darparu gwasanaethau uniongyrchol. Mae hefyd yn berchen ac yn defnyddio eiddo anweithredol i hyrwyddo polisïau ac amcanion y Cyngor. Mae'r eiddo anweithredol yma'n creu incwm refeniw blynyddol oddeutu £1M i'r Cyngor.

2.2 Mae'r Cyngor yn berchen ar 946 o adeiladau wedi eu lleoli ar 512 o safleoedd ledled y sir. Mae cyfanswm arwynebedd y stad yn 272,000m2, sef y 9fed o ran maint ymysg awdurdodau lleol Cymru. Golyga natur wasgaredig aneddleoedd Gwynedd fod gennym adeiladau ar lawer mwy o safleoedd na sydd gan nifer o awdurdodau eraill gyda mwy o boblogaeth. Ar gychwyn y Rhaglen Waredu a osodwyd gan y Strategaeth Asedau Corfforaethol yn 2009/10, roedd cyfanswm arwynebedd ein hadeiladau yn 357,000m2. Rydym wedi gweld lleihad o 24% dros y 5 mlynedd ddiwethaf felly. Gwaredu eiddo anweithredol yn bennaf sydd wedi arwain at y lleihad yma ac mae'n golygu ein bod bellach yn defnyddio stad adeiladau llai ac mwy effeithlon ar gyfer darparu gwasanaethau.

2.3 Ymysg pethau eraill, mae'r adeiladau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor yn cynnwys:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd | 102 | Amgueddfa | 8 |
| Toiledau Cyhoeddus | 83 | Canolfan Ieuenctid | 7 |
| Manddaliadau | 42 | Canolfan Groeso | 6 |
| Canolfan Gymuned | 18 | Safle Gwaredu Gwastraff | 6 |
| Depo | 17 | Ysgol/Uned Arbennig | 6 |
| Llyfrgell | 15 | Canolfan Ddydd - Anableddau Dysgu | 4 |
| Ysgol Uwchradd | 14 | Maes Parcio Aml Lawr | 4 |
| Safleoedd gydag Unedau Diwydiannol | 15 | Canolfan Ddydd - Henoed | 3 |
| Cartref Preswyl - Henoed | 11 | Theatr/Sinema | 3 |
| Ty | 18 | Archifdy | 2 |
| Adeiladau Hamdden | 21 | Cartref Preswyl - Anableddau Dysgu | 2 |
| Adeilad Harbwr/Morwrol | 8 | Cartref Plant | 1 |
| | | Safle Sipsiwn | 1 |

2.4 Mae'r Cyngor hefyd yn berchen ar 540 o lecynnau tir, sydd yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

| | |
|---|---|
| Cae chwarae | 137 |
| Maes Parcio | 115 |
| Tir agored cyhoeddus | 94 |

| | |
|---|---|
| Safle diwydiannol | 20 |
| Mynwent | 17 |
| Tir Pori | 23 |
| Cyfleusterau hamdden | 13 |
| Safle Trin Carthffosiaeth | 11 |
| Gwarchodfa natur | 8 |
| Cyn safle gwastraff | 6 |

2.5 Gosododd Prisiad Asedau 2015 werth o £205M ar ein portffolio eiddo.

2.6 Mae natur yr eiddo yn golygu fod rhan helaeth y portffolio yn adeiladau arbenigol wedi eu dylunio i bwrpas penodol. Eithriadau prin yw adeiladau sy'n debyg i'w gilydd. Mae'r portffolio wedi datblygu o eiddo oedd ym mherchnogaeth y tri cyn Gyngor Dosbarth, yr hen Gyngor Sir Gwynedd ac adeiladau wedi eu prynu neu adeiladu yn oes Cyngor Gwynedd, o 1996 ymlaen. Yn gyffredinol mae'r eiddo yn hen ac ychydig iawn o adeiladu newydd modern sydd yn rhan o'r portffolio. Mae'r angen i sicrhau fod yr eiddo yn parhau yn addas i bwrpas, mewn cyflwr derbyniol, yn effeithlon o ran defnydd ynni ac yn cwrdd â'r llu o ofynion statudol yn her barhaus gyda phortffolio o'r natur hwn, ac yn draul ar adnoddau ariannol y Cyngor.

2.7 Er mwyn cynnal yr ystâd, mae'r Cyngor yn neilltuo'r prif gyllidebau refeniw canlynol (15/16):

| | |
|---|---|
| Cynnal a chadw | £1.9M |
| Trethi | £3.2M |
| Yswiriant adeiladau | £0.4M |
| Trydan | £1.7M |
| Nwy/Olew | £1.2M |
| Dwr | £0.7M |
| Cyfanswm refeniw blynyddol | £9.1M |

**3 PWRPAS EIDDO'R CYNGOR**

3.1 Yng ngoleuni'r uchod, prif bwrpas portfolio asedau eiddo'r Cyngor yw:

- darparu eiddo o safon derbyniol sy'n addas i bwrpas er mwyn gallu darparu gwasanaethau sylfaenol.
- uchafu'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau sylfaenol drwy sicrhau rheolaeth effeithlon o'n hasedau eiddo

3.2 Er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni ein pwrpas, rydym wedi amlygu'r canlynol fel ein prif egwyddorion gweithredu:

i. Cymryd pob cyfle synhwyrol i leihau maint ein portffolio eiddo gyda'r nôd o sicrhau ein bod yn defnyddio'r nifer lleiaf posib o adeiladau ar gyfer gallu darparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

ii. Ni fyddwn yn caffael eiddo newydd os oes gofod addas eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor. Caffael eiddo newydd fydd yr opsiwn olaf a dim ond ar ôl derbyn cyfiawnhad na ellir cyflawni'r gwasanaeth heb yr eiddo dan sylw.

iii. Cymryd pob cyfle i sicrhau fod ein portffolio presennol yn cael ei reoli mor effeithlon â phosib gan dalu sylw penodol i ddwysedd defnydd, costau rhedeg ac allyriadau carbon.

iv. Lleihau ein defnydd o ynni ar bob cyfle posib gan roi ystyriaeth i ynni adnewyddol a gwella defnydd adeiladau o ynni ar bob cyfle posib yn unol â'r dyheadau sydd wedi eu nodi yn ein Cynllun Rheoli Carbon.

v. Cydweithio gydag Adrannau'r Cyngor i adolygu eu defnydd o eiddo. Byddwn yn defnyddio data rheoli asedau i gefnogi adolygiadau strategol allasai arwain at gyfleoedd i leihau maint ein portffolio eiddo.

vi. Cydweithio gyda phartneriaid eraill y sector gyhoeddus a'r trydydd sector i adnabod cyfleoedd i rannu eiddo. Byddwn yn agored hefyd i ystyried trosglwyddo asedau i gyrff eraill lle bo hynny er budd trigolion Gwynedd.

vii. Cydweithio ar gyfleon datblygu gyda Chymdeithasau Tai a datblygwyr preifat os oes cyfle i weld buddiannau i'r Cyngor neu gyfle i hyrwyddo amcanion y Cyngor.

viii. Cyd-leoli gwasanaethau'r Cyngor lle bo hynny'n bosib a byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio cyn lleied â phosib o ofod swyddfa' r gyfer ein gweithgareddau gweinyddol.

ix. Sicrhau fod yr eiddo a ddefnyddiwn mewn cyflwr derbyniol ar gyfer darparu gwasanaethau. Byddwn yn anelu i ymwared â'n ôl groniad cynnal a chadw ac yn ymdrechu i osgoi iddo ail gronni yn y dyfodol.

x. Rhoi blaenoriaeth i sicrhau fod ein hadeiladau yn ddiogel ac yn cwrdd â gofynion statudol o ran diogelwch a chyflwr.

xi. Ymdrechu i sicrhau mynediad i adeiladau sy'n cydymffurfio a gofynion y Ddeddf Mynediad i'r Anabl lle bo hynny'n ymarferol bosib.

xii. Rheoli prydlesi ar ein hadeiladau mewn modd rhagweithiol gan geisio uchafu'r incwm posib o eiddo er mwyn ei ail fuddsoddi mewn darpariaeth gwasanaeth.

3.3 Eisoes mae'r Strategaeth Asedau Corfforaethol wedi gosod cyfeiriad a chynllun arianol pendant ar gyfer cefnogi'r uchod. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo newydd hwn yn delio gyda'r manylder o safbwynt ein tir ac adeiladau.

## 4 RHEOLI'R PORTFFOLIO EIDDO

4.1 Mae'r Cyngor wedi datgan fod pob eiddo sydd yn ei berchnogaeth yn ased corfforaethol. Mae'r gwaith o'i reoli'n effeithlon yn gorwedd yn ganolog gyda'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol o fewn yr Adran Rheoleiddio.

4.2 Mae'r cyfrifoldeb am benderfyniadau gwleidyddol wedi eu dirprwyo gan y Cabinet i'r Aelod Cabinet perthnasol dros faterion Eiddo, oni bai am faterion strategol eu natur neu achos o ystyried gwerthu eiddo am lai na gwerth y farchnad yn unol â Chaniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003. Bydd materion penodol yn cael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau fel bo'r gofyn a materion penodol hefyd yn cael sylw o dro i dro gan y pwyllgor Archwilio.

4.3 Mae canllawiau rheoli asedau'r Llywodraeth yn gofyn i Awdurdodau Lleol adnabod unigolyn o fewn yr Awdurdod sydd yn gymwys (aelod o Sefydliad Brenhinol Y Syrfewyr Siartredig - RICS) i arwain ar Reoli Asedau Eiddo o fewn y sefydliad. Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod y swydd Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol i ymgymryd â'r gofyn hwn. Mae'r Cyngor hefyd yn penodi staff wedi eu cymhwyso'n broffesiynol i nifer o swyddi allweddol eraill o fewn y Gwasanaeth, yn hybu datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac wedi ymgymryd ag ymarferiad Cynllunio'r Gweithlu wrth edrych tuag at y dyfodol.

4.4 Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu polisïau/cynlluniau penodol ar gyfer y meysydd canlynol, ac maent i'w hystyried fel atodiadau i'r Cynllun hwn a rhif 1-5 i'w gweld yn y ddogfen Polisiau Rheoli Eiddo. Mae'r gweddill wedi eu mabwysiadu'n unigol gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch neu'r Cabinet.

1. Polisi Gwaredu Eiddo
2. Polisi Gwaredu am lai na'r gydnabyddiaeth orau
3. Polisi ôl-ddefnydd Ysgolion
4. Polisi Gosod am rent is na gwerth y farchnad
5. Polisi Caffael Eiddo
6. Cynllun Rheoli Carbon (1 a 2)
7. Polisi Asbestos
8. Cynllun Rheoli Asbestos
9. Polisi Tân
10. Cynllun Rheoli Risg Tân
11. Cynllun Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr
12. Cynllun Rheoli Radon

4.5 Mae holl ddata eiddo'r Cyngor ynghyd a dogfennaeth statudol yn cael ei gadw ar un system gorfforaethol gyda mynediad i bob gwasanaeth sydd ei angen.

4.6 Mae'r Gwasanaeth Eiddo wedi ymrwymo'n llwyr i ymgorffori egwyddorion Ffordd Gwynedd ym mhob agwedd o'n gwaith. Mae dwy uned wedi bod ymysg y cyntaf o fewn y Cyngor i fynd drwy ymarferiad cynhwysfawr i ail ddylunio'r ffordd ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'r ail ddylunio wedi arwain at ffordd fwy effeithlon o weithredu, trefniadau clir a chadarn i sicrhau'r gwerth gorau ac arbedion blynyddol dros £150,000. Yn bwysicaf oll, mae sicrhau eiddo pwrpasol ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd yn greiddiol i'n holl weithgareddau.

## 5 RHEOLI'R PORTFFOLIO A CHYFLAWNI PWRPAS BERCHEN YR EIDDO

5.1 Mae adeiladau'r Cyngor yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd ar gyfer derbyn gwasanaethau megis addysg, gofal a gwasanaethau statudol. Maent yn cael eu defnyddio ar gyfer hamddena, cael mynediad at wybodaeth a hybu'r economi. Mae gan y Cyngor ddyletswyddau statudol tuag at ddefnyddwyr yr adeiladau ac mae'n amcanu i gyflawni'r ddau bwrpas a nodir yn 2.3 uchod yn y gwahanol feysydd fel a ganlyn:

| Maes gwaith | Beth sydd wedi ei gyflawni? | Beth ydym yn anelu i'w gyflawni o fewn oes y Cynllun hwn? | Amcanion tymor canolig/hir | Sut fyddwn ni'n mesur ein llwyddiant? |
|---|---|---|---|---|
| **Stadau a Rheoli Asedau** | Wrth lunio'r Strategaeth Asedau Corfforaethol heriwyd y pwrpas o fod yn berchen ar bob adeilad unigol o fewn y portfolio. Edrychwyd ar y gofynion buddsoddi cyfalaf a'r costau refeniw ar gyfer pob eiddo. Blaenoriaethwyd y meysydd lle'r oedd y Cyngor yn dymuno buddsoddi ynddynt ac adnabuwyd pob eiddo oedd am fod yn weddill i anghenion darparu gwasanaeth gyda'r derbyniadau cyfalaf i gyfrannu tuag at y costau buddsoddi yn ein holl asedau corfforaethol. Roedd y gofynion buddsoddi fyddai yn ein hwynebu petaem yn parhau mewn perchnogaeth yn ystyriaeth greiddiol wrth lunio'r Strategaeth.<br><br>Rydym yn parhau i asesu'r gofynion buddsoddi yn flynyddol ac yn amlygu adeiladau sy'n perfformio'n wael ac yn asesu pa opsiynau sydd ar gael i reoli'r sefyllfa.<br><br>Rhaglen waredu ers sefydlu'r Strategaeth wedi arwain at £11M o dderbyniadau cyfalaf i'w hail fuddsoddi. Wedi cyflawni'r swm disgwyliedig o dderbynion cyfalaf i gyllido'r Strategaeth pob blwyddyn ers ei sefydlu.<br><br>Polisi defnydd o dderbynion cyfalaf wedi ei adolygu. Bellach 20% o dderbynneb cyfalaf hyd at uchafswm o £20,000 sydd yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth perthnasol gyda'r gweddill yn cael ei ddargyfeirio i gyfrannu tuag at ariannu'r blaenoriaethau buddsoddi yn y Strategaeth Asedau Corfforaethol.<br><br>Prydlesi'r Cyngor i gyd yn cael eu rheoli'n ganolog gydag adolygiadau rhent yn digwydd yn amserol.<br><br>Rhaglen o apeliadau trethi annomestig (ar y cyd gyda Môn a Chonwy) wedi arwain at arbedion refeniw blynyddol parhaol o £185,000 (ac arbedion unwaith ac am byth o £426,000) i | • Cefnogi'r adrannau i wireddu arbedion effeithlonrwydd a thoriadau.<br>• Cyfrannu i lwyddiant prosiect Asedau y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.<br>• Llunio rhaglen o adolygiadau eiddo ardal a gwireddu'r rhai sy'n cynnig y cyfleoedd gorau.<br>• Cefnogi gwasanaethau i gynnal adolygiadau eiddo gwasanaeth.<br>• Llunio rhaglen waredu tir yn dilyn asesu'r portfolio<br>• Parhau i adolygu rhenti i adlewyrchu gwerth y farchnad.<br>• Ymgorffori rheolaeth unedau diwydiannol a chanolfannau menter yn rhan o waith dydd i ddydd yr Uned (yn amodol ar ganlyniad adolygiad o'r trefniadau presennol gan y Panel Gwireddu Arbedion)<br>• Gofod swyddfa Pwllheli a Dolgellau wedi ei adolygu.<br>• Cwblhau cynllun i wagio ac ail leoli defnyddwyr Canolfan Frondeg | • Wedi edrych ar gyfleoedd posib o gynnal adolygiad eiddo ym mhob ardal.<br>• Ymarferiad llawn arall o herio perchnogaeth pob adeilad unigol gan edrych ar gostau rhedeg a'r gost/budd o fod yn berchen ar bob eiddo.<br>• Pob eiddo gweddill i anghenion wedi ei waredu. | • Canran o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd<br>• Cyfanswm y derbynion cyfalaf ar gael i'w hail fuddsoddi ym mlaenoriaethau'r Cyngor. (y Strategaeth Asedau Corfforaethol yn ddibynnol ar symiau penodol o dderbynion cyfalaf yn flynyddol i ariannu'r gwariant)<br>• Canran o brydlesi a adolygwyd yn amserol<br>• Bodlonrwydd staff gyda'u gofod swyddfa<br>• Cost y pen ar gyfer swyddfeydd<br>• Bodlonrwydd Rheolwyr Safle gyda'u gwasanaeth Glanhau/Gofalu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Wynedd.<br><br>Cyfres o adolygiadau eiddo lleol wedi eu cwblhau gan arwain at ddefnydd mwy effeithlon o asedau drwy gyd leoli gweithgareddau. Hyn wedi arwain at arbedion refeniw a derbynion cyfalaf.<br><br>Adolygiadau wedi eu cynnal ar feysydd penodol o eiddo e.e. unedau diwydiannol, manddaliadau gan sefydlu egwyddorion gweithredu ar gyfer rheolaeth effeithlon yn y dyfodol.<br><br>Adolygiad o swyddfeydd Caernarfon wedi ei gwblhau gan arwain at incwm rhent newydd i'r Cyngor oddeutu £150,000. Nifer o adeiladau swyddfa wedi eu gwagio/gwaredu yn ddiweddar gan gynnwys, Brown Horse, Bristol House a'r Lawnt yn Nolgellau, Victoria Chambers, Stryd y Plas a'r Galeri yng Nghaernarfon. Swyddfeydd Ardal hefyd wedi eu cau ac yn y broses o gael eu gwaredu. Cynllun gweithio hyblyg wedi ei gyflwyno i rai staff yn Nolgellau gyda chanllawiau a chefnogaeth wedi ei ddarparu i weddill Gwasnaethau'r Cyngor.<br><br>Cam cyntaf o adolygiad o'r holl diroedd wedi ei gwblhau gan adnabod cyfleoedd i waredu er mwyn creu derbynion cyfalaf.<br><br>Pob eiddo wedi ei gofrestru o fewn y system genedlaethol ePims er mwyn uchafu cyfleoedd i wneud defnydd effeithlon o eiddo ar y cyd gydag asiantaethau cyhoeddus eraill. Rydym ar hjyn o bryd yn chwarae rhan allweddol ym mhrosiect asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac yn cydweithio gyda chynghorau Môn a Chonwy ar sawl prosiect rheoli eiddo.<br><br>Wedi gwneud defnydd llawn o gronfeydd Loteri (Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol) gyda 4 allan o'r 18 trosglwyddiad o eiddo i ofalaeth y gymuned yng Nghymru | Pwllheli/Swyddfa Ffordd y Traeth, Felinheli (yn amodol ar ganlyniad y strategaeth Toriadau) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wedi digwydd yng Ngwynedd e.e. Pwll Nofio Harlech a chyn gartref Henoed Bryn Llywelyn, Llanffestiniog. Wedi defnyddio pwerau statudol lle bo'n briodol i hwyluso cynlluniau lle bo buddiannau cymunedol, amgylcheddol neu economaidd yn deillio o waredu eiddo am lai na gwerth y farchnad e.e. cynlluniau ôl ddefnydd adeilad ysgol, cynlluniau Tai Fforddiadwy.<br><br>Polisïau Eiddo perthnasol wedi eu mabwysiadu ar gyfer y meysydd caffael a gwaredu eiddo.<br><br>Rhaglen fuddsoddi wedi ei chyflawni ar gyfer sicrhau mynediad i'r anabl (yn unol â gofynion DDA) i'n prif adeiladau a swm wedi ei neilltuo wrth gefn ar gyfer gwelliannau pellach fel bo'r gofyn yn y dyfodol. | | | |
| **Diogelwch** | **Asbestos** - arolwg asbestos wedi ei gyflawni a chofrestr asbestos mewn ar gyfer pob adeilad, a phob darn asbestos yn cael ei archwilio'n flynyddol yn unol â gofynion statudol. Trefn "trwydded i weithio" mewn lle cyn gall unrhyw waith gychwyn ar ddeunydd yn cynnwys asbestos. Unrhyw waith a drefnir tu allan i'r Gwasanaeth Eiddo yn gorfod cyflwyno cais am ganiatâd (C1) cyn cychwyn. Asbestos a adnabyddir mewn cyflwr drwg yn cael ei waredu.<br>**Tân** – asesiad risg tân a chynllun gweithredu wedi ei gwblhau ar gyfer pob safle pob tair blynedd gydag adolygiadau blynyddol yn unol â gofynion statudol. Rhaglen o waith ymateb i risgiau sylweddol wedi ei chwblhau a gwaith ymatebol rhagofalon tân yn cael eu blaenoriaethu ar sail risg. Polisi'r Cyngor yw canolbwyntio ar fesurau sy'n gwarchod bywyd defnyddwyr yn hytrach na gwarchod yr adeilad. Rydym yn buddsoddi i ddatrys risgiau sylweddol yn unig.<br>**Clefyd y Lleng Filwyr** - Asesiadau risg Legionella wedi eu cwblhau ar bob safle a gwaith ymatebol i liniaru risg yn cael ei gwblhau wrth iddo gael ei adnabod. Trefniadau monitro | • Cynnal y trefniadau rheoli presennol i gwrdd â gofynion statudol a sicrhau diogelwch defnyddwyr ein hadeiladau<br>• Rhaglennu gwaredu asbestos risg uchel neu mewn cyflwr gwael er mwyn osgoi wynebu sefyllfaoedd ymatebol brys a lleihau risg i'r defnyddwyr.<br>• Parhau i ddelio gyda risgiau sylweddol tân.<br>• Gwella safon archwiliadau tân a'u gwneud yn llai beichus i reolwyr safle.<br>• Cyflwyno trefniadau monitro ansawdd a thymheredd dwr er mwyn lleihau'r risg o Glefyd y Lleng Filwyr ym | • Cynnal y trefniadau rheoli presennol i gwrdd â gofynion statudol a sicrhau diogelwch defnyddwyr ein hadeiladau<br>• Asbestos risg uchel a chanolig wedi ei waredu'n ddiogel.<br>• Yr angen i wario ar faterion asbestos a thân wedi lleihau'n sylweddol<br>• Trefniadau monitro Legionella | • Canran o adeiladau gyda systemau diogelwch o safon derbyniol i alluogi darparu gwasanaethau<br>• Canran o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ansawdd a thymheredd dwr misol mewn lle ar gyfer adeiladau risg uchel.<br>**Radon** – archwiliadau cam 1 wedi eu cwblhau ar gyfer pob adeilad. Gwaith monitro wedi ei gwblhau ar safleoedd risg uchel gyda phob canlyniad o fewn y trothwy statudol.<br><br>**Rheolwyr safle** – mae Rheolwr Safle wedi ei benodi ar gyfer pob adeilad ac maent yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn derbyn hyfforddiant ffurfiol gan y Cyngor. Maent yn derbyn Bwletin Eiddo chwarterol gyda'r newyddion diweddaraf am reoli eiddo o fewn y Cyngor.<br><br>Mae trefn ffurfiol wedi ei sefydlu sy'n mynnu fod Rheolwr Safle yn gorfod cyflwyno cais am ganiatâd cyn gwneud unrhyw waith o sylwedd ar adeilad ym mherchnogaeth y Cyngor. Mae hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i sicrhau fod unrhyw waith yn angenrheidiol ac yn cael ei drefnu'n ddiogel ac mewn modd sy'n rhoi gwerth am arian. | mhob safle perthnasol.<br>• Cynnal gwaith monitro lefelau Radon ym mhob safle risg canolig ac uchel.<br>• Cyflwyno'r holl drefniadau newydd yn dilyn yr ymarferiad Ffordd Gwynedd.<br>• Contractau mewn lle ar gyfer y rhan helaeth o waith cylchol | effeithiol mewn lle.<br>• Risgiau Radon wedi eu lliniaru cymaint ag sy'n rhesymol bosib. | |
| **Cynnal a Chadw** | **Ymatebol** - Yr uned waith wedi bod drwy ymarferiad Ffordd Gwynedd. Mae'r trefniadau bellach yn effeithlon iawn gyda "job" cynnal a chadw yn cael ei gwblhau ar gyfartaledd o 10 diwrnod yn hytrach na 89 o dan yr hen drefniadau. Bodlonrwydd cwsmer yn gyson agos i 98%. Desg gymorth 24/7/365 yn delio gydag oddeutu 8,000 o alwadau blynyddol. Trefniadau gweithio symudol mewn lle. Archebion yn cael eu hanfon yn syth o safle ac anfonebau yn cael eu prosesu'n electroneg. Wedi penodi dau swyddog i wneud gwaith trwsio ein hunain ar gyfnod prawf. Wrthi'n treialu trefn o reoli safleoedd a gwaith cynnal a chadw ar ran Ysgolion uwchradd. Wrthi'n sefydlu fframwaith o gontractwyr dan delerau cystadleuol ar gyfer mân waith. Gorwariant hanesyddol bellach dan reolaeth. Un gyllideb gorfforaethol cynnal a chadw ymatebol dan reolaeth ganolog y Gwasanaeth Eiddo.<br><br>**Cylchol** – Yr uned wedi bod drwy ymarferiad Ffordd Gwynedd sydd wedi arwain at drefn waith gwbl newydd | • Cynnal y safon gwasanaeth a'r lefel bodlonrwydd cwsmer presennol – gall toriadau arfaethedig effeithio ar ein gallu i wneud hyn.<br>• Parhau i adeiladu ar lwyddiant yr ymyrraeth Ffordd Gwynedd gan sicrhau fod yr egwyddorion yn ganolog i'r holl wasanaeth.<br>• Ymestyn y tîm swyddogion cynnal mewnol os fydd y cyfnod prawf cychwynnol yn llwyddiant.<br>• Mabwysiadu'r Fframwaith contractwyr mân waith.<br>• Sefydlu contractau cylchol ar gyfer gweddill yr elfennau | • Cynnal y safon gwasanaeth a'r lefel bodlonrwydd cwsmer presennol – gall toriadau arfaethedig effeithio ar ein gallu i wneud hyn. | • Nifer o ddyddiau a gymer i gyflawni darn o waith cynnal a chadw ymatebol<br>• Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth a gafwyd.<br>• Canran o adeiladau sydd mewn cyflwr da neu dderbyniol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sydd wrthi'n cael ei sefydlu. Pob elfen o adeilad sydd angen ei wasanaethu a'i brofi wedi ei gofnodi gyda threfniadau mewn lle i gadw'r wybodaeth yn gyfredol. Contractau cylchol wedi cychwyn cael eu sefydlu ar gyfer peth o'r elfennau gan symud i ffwrdd o'r drefn hanesyddol o drefnu'r gwaith drwy ddulliau tameidiog aneffeithlon. Gofynion gwasanaethu a phrofi statudol yn cael eu cyfarch.<br><br>**Rhaglenedig -** cyflwr pob eiddo yn cael ei archwilio'n flynyddol gyda gwaith adferol yn cael ei flaenoriaethu yn ôl effaith ar allu darparu gwasanaeth o'r adeilad. Canlyniadau'r arolygon wedi cyfrannu tuag at lunio'r Strategaeth Asedau Corfforaethol a'r Rhaglen Gyfalaf sy'n deillio ohono. Y Cyngor wedi blaenoriaethu adnoddau cyfalaf i sicrhau nad yw'r ôl groniad cynnal a chadw yn gwaethygu yn y dyfodol ac ar yr un pryd wedi mabwysiadu rhaglen o fuddsoddi yn yr ôl groniad hanesyddol - wedi arwain at welliant sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf gyda'r ganran o adeiladau sydd mewn cyflwr da neu dderbyniol bellach dros 96%. Fodd bynnag, mae 88% o'r rhain yn y ctaegori "derbyniol" ac mae risg i rhain ddisgyn i'r categori nesa ac felly pe baem yn gorffwys ar ein rhwyfau gallem weld y sefyllfa yma yn newid yn sydyn iawn. | hanfodol o'r adeiladau.<br>• Parhau i sefydlu'r trefniadau newydd a ddeilliodd o'r ymarferiad Ffordd Gwynedd ar y maes Cylchol. | | |
| **Cadwraeth Ynni** | Mae lleihau ein hallyriadau carbon yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac rydym wedi gweithredu Cynllun Rheoli Carbon 5 mlynedd. Roedd y Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau unigol rhwng 2010 a 2015. Ar ddiwedd y cynllun roeddem wedi sicrhau gostyngiad o 31% yn ein hallyriadau carbon o adeiladau o'i gymharu gyda'r flwyddyn waelodlin yn 2005/06.<br><br>Rydym wedi gosod dros 500kW o baneli ffotofoltaidd ar 54 o adeiladau'r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys 30 Ysgol Gynradd; 12 Ysgol Uwchradd; 4 Canolfan Hamdden; 2 Swyddfa a 6 Cartref Preswyl. Rydym yn edrych ar fudd | • Cynnal a gwella ar y lefel gostyngiad allyriadau sydd wedi ei wireddu hyd yma.<br>• Cwblhau'r rhaglen prosiectau yn yr ail Gynllun Carbon gan anelu i wireddu'r arbedion a broffwydir.<br>• Parhau i gynorthwyo gwasanaethau eraill i leihau eu defnydd o ynni<br>• Cyflwyno trefniadau | • Parhau i leihau ein defnydd ynni ar bob cyfle posib.<br>• Llunio Cynlluniau Carbon pellach ar gyfer y dyfodol.<br>• Cyflwyno trefniadau monitro a | • Canran y lleihad yn yr allyriadau carbon<br>• Canran y lleihad yn yr allyriadau carbon o adeiladau yn unig. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ariannol i'r Cyngor o bron i £2miliwn dros oes y paneli, sef yr 20 mlynedd nesaf.<br><br>Rydym hefyd wedi cyflawni nifer o brosiectau mwy traddodiadol eu natur gyda phob un yn creu arbedion ynni ac arbedion ariannol am flynyddoedd lawer e.e.<br>• Uwchraddio goleuadau (arbediad o £1,781,000 dros 20 mlynedd);<br>• Ynysu pibellau gwres (£877,460 dros 20 mlynedd);<br>• Uwchraddio Boeleri (£721,460 dros 20 mlynedd);<br>• Uwchraddio Rheolyddion Gwres (£1,004,160 dros 10 mlynedd);<br>• Ynysu Waliau (£522,216 dros 30 mlynedd);<br>• Gosod Unedau Rheoli Foltedd (£3,185,760 dros 30 mlynedd);<br>• Codi Ymwybyddiaeth er mwyn hybu defnydd effeithiol o adeiladau ac offer (£160,248 dros 3 mlynedd);<br>• Unedau gwresogi ac ynni cyfun (CHP) mewn pyllau nofio (£952,680 dros 20 mlynedd);<br>• IWEMS ('*Integrated Water and Energy Management System'*) mewn pyllau nofio (£348,620 dros 20 mlynedd);<br><br>Bu inni weithio ar gynllun ysgolion sef Cynllun Sbarci a Fflic. Roedd rhaid inni fynd i'r afael a newid meddylfryd pobl er mwyn gallu llwyddo. Wrth gydweithio gyda'r ysgolion bu inni ddod ar draws enghreifftiau o orddefnyddio cyson. Llwyddom i gefnogi ysgolion i arbed ynni mewn cyfnod ble maent yn dibynnu ar fwy o offer technoleg gwybodaeth, a hefyd ble mae nifer o geginau yn cael eu huwchraddio sydd yn cynyddu defnydd trydan ysgolion.<br><br>Roedd nifer o brosiectau yn y Cynllun yn ymwneud â lleihau ein defnydd o drydan. O ganlyniad i'r lleihad yma mae'n golygu nad ydym fel Cyngor yn defnyddio digon o drydan i | monitro a thargedu ffurfiol ar gyfer yr adeiladau sy'n defnyddio fwyaf o ynni.<br>• Parhau gyda'r ymdrechion i osgoi bod yn rhan o'r Ymrwymiad Lleihad Carbon (CRC) drwy gadw'n defnydd yn llai na'r trothwy (gan gymryd na fydd newid i'r trothwy) | thargedu ffurfiol ar gyfer pob adeilad o sylwedd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | orfod talu treth ynni a ddaeth i rym yn 2010 o'r enw "Carbon Reduction Commitment", tan o leiaf 2018. Mae hyn edi arwain at arbediad o £1.75M dros y cyfnod.<br><br>Mae ein harbedion blynyddol o wireddu'r prosiectau'r Cynllun Carbon bellach yn £770,000. Rydym wedi buddsoddi swm unwaith ac am byth £3.7M i gyflawni hyn ond mae'r arbedion cronnus ers 2010-11 eisoes yn £2.2M. Yn bwysicach fyth, rydym wedi cyflawni arbedion carbon sy'n hanfodol er mwyn ceisio gwarchod ein hamgylchedd i bobl Gwynedd.<br><br>Mae'r ail Gynllun Carbon (hyd at 2020/21) wedi ei fabwysiadu ac rydym yn cychwyn ar y prosiectau newydd eleni. Ein huchelgais yw gweld ein gostyngiad yn cyrraedd 40%. Mae'n golygu ymrwymiad i fuddsoddi £3.3M pellach ar gynlluniau arbed ynni gan arwain at arbedion refeniw blynyddol parhaol o £645,000.<br><br>Defnydd ynni yn ystyriaeth graidd wrth asesu caffael eiddo newydd, codi adeilad o'r newydd neu ymgymryd â gwaith adnewyddu/uwchraddio. | | | |
| **Datblygu** | Mae'r Uned Datblygu Eiddo yn dwyn at ei gilydd holl amcanion yr unedau eraill wrth ymgymryd â phrosiect adeiladu, bod yn adeilad gwbl newydd, yn estyniad neu'n brosiect adnewyddu adeilad presennol.<br><br>Er mwyn sicrhau'r adeilad gorau posib i bwrpas darparu gwasanaeth, ein nod yw sicrhau fod unrhyw fuddsoddiad mewn prosiect cyfalaf yn arwain at adeilad effeithlon i'w redeg a'i gynnal, yn cwrdd â'r holl ofynion statudol o safbwynt diogelwch a gofynion amgylcheddol (gan gynnwys EPC A a BREEAM), yn addas i bwrpas ac mewn cyflwr da.<br><br>Ers 2011 rydym wedi adeiladu neu adnewyddu'n sylweddol | • Gorffen y Rhaglen Band A Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.<br><br>• Cynorthwyo i baratoi cais Band B Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.<br><br>• Adolygu strwythur staffio'r uned i adlewyrchu llwyth gwaith ar ddiwedd y rhaglen bresennol a chreu arbedion effeithlonrwydd. | • Adeiladu ar lwyddiant Band A gyda rhaglen o gynlluniau newydd yn Band B<br>• Parhau i wella ein rheolaeth o gynlluniau adeiladu | • Canran o adeiladau wedi eu cwblhau o fewn y gyllideb ac ar amser.<br>• Canran o gwsmeriaid yn hapus gyda'u hadeiladau newydd.<br>• Canran o gwsmeraid oedd yn hapus gyda'r gwasanaeth a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 7 o ysgolion cynradd o dan y rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar hugain. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn rhedeg prosiectau pellach ar 4 ysgol gynradd, un ysgol Gydol Oes (3-19) ac un Ysgol Arbennig gydag uned breswyl gofal ysbaid. Mae'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn fuddsoddiad o £36M erbyn 2018. Prosiectau hyd yma wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol CEW, RICS, RTPI.<br><br>Rydym hefyd yn ymgymryd â nifer sylweddol o brosiectau cyfalaf eraill e.e. Oriel ac Amgueddfa Gwynedd, Canolfan Iaith Bangor, nifer o unedau Dechrau'n Deg, delio ag adeiladau o wneuthuriad is safonol (Vic Hallam), adnewyddu tai fferm yn dilyn llifogydd, uwchraddio cyfleusterau mewn cartrefi gofal ayb.<br><br>Rheolir pob prosiect gan Swyddog Client cymwys a phrofiadol sy'n cynrychioli'r cleient ac yn sicrhau fod pob datblygiad yn cwrdd â holl ddyheadau'r Cyngor o ran darparu adeiladau addas i bwrpas darparu gwasanaethau.<br><br>Defnyddir trefn o gadw cofrestr risg ar y cyd gyda'r contractwr ar gyfer pob cynllun ac ar ddiwedd cynllun cynhelir ymarferiad dysgu gwersi er mwyn bwydo i mewn i'r cynllun nesaf.<br><br>Fframweithiau yn eu lle ar gyfer penodi ymgynghorwyr a thimau dylunio, a chontractwyr ar gyfer cynlluniau dros hicyn OJEU.<br><br>Proses gaffael wedi ei sefydlu a'i mireinio yn dilyn adolygiadau o gynlluniau sydd wedi eu cwblhau. Strategaeth gaffael yn cael ei llunio ar gychwyn pob cynllun unigol. Defnyddio amrywiaeth o ddulliau caffael gan gynnwys dyluniad llawn traddodiadol, pecyn dylunio ac adeiladu (D& B) neu fewnbwn cynnar gan gontractwyr (ECI). Rydym yn defnyddio Teclyn Caffael Cynaliadwy'r Cyngor gyda'r nod o sicrhau'r buddiannau economaidd a chymdeithasol gorau | • Sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu adeiladau newydd sy'n cwrdd â'n dyheadau o ran safon adeiladau i ddarparu gwasanaethau, drwy ddysgu o wersi'r prosiectau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd.<br><br>• Sicrhau ein bod yn parhau i wella ein rheolaeth o gynlluniau adeiladu gan anelu i gwblhau cymaint â phosib o fewn y gyllideb ac ar amser. | | gafwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | posib i'r Sir wrth gaffael cynlluniau adeiladu. Wedi ennill gwobr Cymru a Phrydain gan Ragoriaeth Adeiladu (Constructing Excellence) am gaffael cynaliadwy. | | | |

5.1 Yn ogystal â defnyddio'r mesurau a amlinellir uchod i sicrhau ein bod yn cyflawni'n pwrpas, rydym hefyd yn aelod gweithgar o grwpiau Eiddo Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW), Cymdeithas Prif Syrfewyr Stadau (ACES) a grŵp Asedau CPIFA, ac yn defnyddio data meincnodi blynyddol er mwyn cymharu perfformiad ein portfolio gyda gweddill awdurdodau Cymru. Rydym yn cyfrannu at waith y Gweithgor Asedau Cenedlaethol (NAWG) a Rhagoriaeth Adeiladu Cymru (CEW).

5.2 Rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth greu arbedion refeniw drwy reoli'n ystad yn effeithlon a chyflwyno dulliau gweithio yn seiliedig ar egwyddorion ffordd Gwynedd. Mae ein harbedion effeithlonrwydd yn cynnwys, yn fras:

- Lleihad defnydd ynni - £770,000
- Uchafu dwysedd defnydd swyddfeydd a gosod gofod gweddill i anghenion - £100,000
- Apeliadau trethi a lleihau costau rhedeg cyffredinol - £185,000
- Ymarferiad Ffordd Gwynedd (Uned Cynnal a Chadw) - £100,000
- Arbedion effeithlonrwydd 11/12 – 14/15 - £280,000
- Arbedion effeithlonrwydd 15/16 ymlaen - £214,000

**Cyfanswm bras arbedion refeniw blynyddol (11/12 hyd at 17/18) o £1,649,000**

(Yn ychwanegol i hyn mae £645,000 o arbedion pellach wedi eu hadnabod yn yr ail Gynllun Carbon fydd yn cael eu gwireddu rhwng nawr a 20/21.)

## 6 CYNLLUNIAU ASEDAU'R GWASANAETHAU

6.1 Mae hwn yn Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Mae amcanion a strategaethau'r Cynllun hwn felly yn berthnasol i holl eiddo'r Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn llunio cynlluniau gwahanol ar gyfer eiddo Gwasanaethau unigol felly, ond yn hytrach yn cynnwys eu blaenoriaethau unigol o fewn yr un cynllun integredig hwn.

6.2 Mae'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol yn arwain neu'n rhoi cymorth i nifer o Wasanaethau unigol i gynnal adolygiadau o'u heiddo. Gellir crynhoi'r prif Adolygiadau Eiddo Gwasanaeth diweddar/cyfredol fel a ganlyn:

| Gwasanaeth | Adolygiad | Diweddariad/Casgliadau |
|---|---|---|
| Addysg | Ysgolion | Cynllun Trefniadaeth Ysgolion yn seiliedig ar nifer o adolygiadau dalgylch ysgolion uwchradd. Adolygiadau wedi eu cwblhau ym Mro Dysynni, Y Gader, Y Berwyn a rhan o ddalgylch Dyffryn Nantlle. Sylw hefyd yn cael ei roi i adeiladau mewn cyflwr bregus gan flaenoriaethu'r rhain yn y rhaglen e.e. Glan Cegin a Groeslon. Bydd nifer y safleoedd cynradd wedi lleihau o 107 i 89 erbyn 2018. Erbyn hynny byddwn wedi adeiladu neu adnewyddu'n llwyr 11 o ysgolion.<br><br>Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol yn rhan o'r Bwrdd Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion ac yn rhan o'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus. Materion Eiddo yn cael sylw teilwng cyn dod i benderfyniad. Data cyflwr a gofynion buddsoddi statudol yn cael ei ddefnyddio ym mhob ymgynghoriad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Y cam nesaf fydd symud ymlaen i Band B y Rhaglen Ysgolion G21 lle bydd mwy o bwyslais eto ar gyflwr adeiladau. |
| Addysg | Ysgolion arbennig | Ysgol Pendalar wedi ei hadeiladu o'r newydd ers 2007 ac yn delio gyda'r galw yng Ngogledd y Sir. Mae adolygiad o weddill ein trefniadau wedi arwain at yr angen am Ysgol Arbennig newydd i wasanaethu de'r sir gan fod yr ysgol Hafod Lon bresennol yn rhy fychan. Cyllid wedi ei sicrhau dan raglen Ysgolion G21 ar gyfer yr ysgol newydd ac mae'r gwaith adeiladu wedi cychwyn. Bydd nifer o unedau AAA presennol yn cael eu hymgorffori yn rhan o'r datblygiad newydd gan ganoli arbenigedd a gwneud gwell defnydd o adeiladau. Bydd hefyd yn cynnwys uned breswyl gofal ysbaid newydd. Yn dilyn cwblhau'r datblygiad bydd strategaeth y Cyngor am y tymor canolig/hir wedi ei gyflawni ar gyfer y maes hwn. |
| Eiddo | Swyddfeydd | Dwysedd defnydd y Pencadlys wedi ei adolygu gan arwain at allu cartrefu 4 tenant o'r sector breifat a fydd yn cynhyrchu incwm oddeutu £150,000 y flwyddyn. Byddwn yn parhau i adolygu'r defnydd yn sgil unrhyw doriadau staff a llwyddiant cynlluniau gweithio hyblyg. Swyddfeydd lloeren mewn nifer o adeiladau wedi eu cau gan adael y Pencadlys a Swyddfa Penrallt yn unig yng Nghaernarfon.<br><br>Dolgellau - swyddfeydd lloeren (3 safle yng nghanol y dref) wedi eu cau a'r staff wedi eu hail leoli i brif swyddfa Cae Penarlag. Rhan o'r safle honno wedi ei dymchwel hefyd. Byddwn yn adolygu dwysedd defnydd yno eto ymhen dwy flynedd yn dilyn yr ymarferiad toriadau.<br><br>Pwllheli - yr opsiwn i gau swyddfa Frondeg yn rhan o'r cynigion toriadau posib. Os caiff ei gynnwys yn y pecyn terfynol byddwn angen ail leoli oddeutu 40 o staff i'r swyddfa arall yn Ffordd y Cob. Os na fydd Frondeg yn cael ei gau byddwn yn cynnal ymarferiad adolygu dwysedd defnydd ar y ddau safle.<br><br>Yr unig adeilad "swyddfa" arall yw'r Ganolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth – mae effeithlonrwydd y safle wedi cael sylw a byddwn angen ail edrych ar hyn eto o fewn y flwyddyn nesaf. |
| Eiddo | Manddaliadau | Adolygiad Strategol wedi ei gynnal o'r stad Manddaliadau gan Weithgor o Aelodau. Casglwyd eu bod yn chwarae rhan allweddol yn cynnig cyfleoedd i unigolion gychwyn yn y diwydiant amaethyddol a'u bod yn cynhyrchu incwm i'r Cyngor. Casglwyd fod angen anelu i gyflwyno telerau modern (FBT) ar bob cyfle sy'n codi. Byddwn yn cynnal adolygiad rhent dros y flwyddyn nesaf. Mae'r adnodd staff sy'n cael ei roi i reoli'r ystad yn fychan iawn ac mae'r arddull rheoli yn un adweithiol yn hytrach na rhagweithiol o ystyried blaenoriaethau eraill y Gwasanaeth. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cartrefi Preswyl Henoed | Gwasanaeth Eiddo wedi bod yn cefnogi adolygiad Strategol ac yn rhan o'r Bwrdd Rhaglen Lletya. Tri chartref wedi cau a'r safleoedd wedi eu gwaredu. Tai Gofal Estynedig wedi eu datblygu mewn partneriaeth gyda'r Cymdeithasau Tai. |
| Oedolion, Iechyd a | Cartrefi Preswyl Anableddau Dysgu | Hyd yn ddiweddar roedd gan y Cyngor dri chartref. Unedau Gofal Estynedig wedi eu datblygu bellach ar safle Pant yr Eithin a'r cartref wedi |

| | | |
|---|---|---|
| Llesiant | | cau. Ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar ddyfodol cartref Frondeg gyda model unedau Gofal Estynedig yn opsiwn. Gwasanaeth Eiddo yn arwain ar ddatblygu cynllun cyfalaf hyfyw gyda Chymdeithas Dai gan ddefnyddio asedau eraill cyfagos yn rhan o un cynllun cyfansawdd. |
| Economi a Chymuned | Llyfrgelloedd | Adolygiad ar y gweill a data cyflwr adeiladau wedi bod yn ystyriaeth. Cydweithio ar hyn o bryd ar wella ac uno darpariaeth mewn adeiladau eraill yn y Bala a Porthmadog. |
| Economi a Chymuned | Unedau Diwydiannol | Nifer yr unedau wedi eu haneru ers sefydlu'r Strategaeth Asedau Corfforaethol yn 2009. Wedi canolbwyntio ar waredu'r rhai yn y cyflwr gwaethaf gan gadw meddiant o unedau mewn cyflwr gwell fydd a'r gallu i barhau i gynhyrchu incwm rhent am flynyddoedd lawer.<br><br>Adolygiad o drefniadau rheoli'r stad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y cyd gyda'r Adran Economi a Chymuned. |
| Economi a Chymuned | Canolfannau Menter | Mae gan y Cyngor dair Canolfan Fenter. Penderfyniad mewn lle i waredu Canolfan Maenofferen a phrynwr wedi ei adnabod. Trafodaethau am ddyfodol Mentec ac Intec ar y gweill a byddwn angen cynnal adolygiad o'r trefniadau rheoli a thenantiaeth bresennol o fewn y ddwy flynedd nesaf. |
| Eiddo | Tai a safleoedd datblygu tai | Partneriaeth lewyrchus yn bodoli gyda'r Cymdeithasau Tai. Cyfleon datblygu yn cael eu cynnig yn y Bartneriaeth Strategol Tai gyda phob Cymdeithas yn cael y cyfle i ddatgan diddordeb. Cydweithio ar hyn o bryd ar waredu ac ail ddatblygu tri safle Strategol yng Nghaernarfon ac wedi llwydo i ddenu grant VVP i hwyluso'r gwaith.<br><br>Tai unigol ym mherchnogaeth y Cyngor wedi eu hadolygu ac wedi eu cynnwys ar y rhaglen waredu lle bo hynny'n bosib. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Toiledau cyhoeddus | Adolygiad wedi ei gwblhau a nifer o doiledau wedi eu hadnabod yn weddill i anghenion. Rhain ar y rhaglen waredu gyda nifer wedi eu gwerthu yn barod. |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo masnachol | Pob eiddo masnachol wedi ei adolygu a herio pwrpas parhau yn berchnogion. Lle bo incwm teg yn cael ei gynhyrchu a dim goblygiadau gwario sylweddol, byddwn yn parhau i'w perchen. Fel arall rydym eisoes wedi penderfynu eu gwaredu. Byddwn angen cynnal adolygiad pellach o'r rhain ymhen oddeutu tair blynedd i sicrhau nad oes cyfleon gwaredu synhwyrol newydd wedi dod i'r amlwg. |
| Economi a Chymuned | Cyfleusterau Hamdden | Bydd dyfodol y canolfannau hamdden yn ddibynnol i raddau helaeth ar benderfyniadau ar doriadau. Yn dilyn hynny byddwn yn cynorthwyo gydag adolygiad. |
| Economi a Chymuned | Amgueddfeydd, orielau a sinemâu | Mae prif amgueddfa ac oriel y Sir ar fin ail leoli o'i gartref anaddas presennol i ail ddatblygiad sylweddol (gyda nawdd grant) yn hen Neuadd y Dref ym Mangor. Mae Adolygiad wedi ei gynnal o Neuadd Buddug yn y Bala gyda throsglwyddiad dros dro ar fin ei gytuno i grŵp lleol. Bydd adolygiadau pellach yn dilyn unrhyw benderfyniadau ar doriadau yn y maes yma. |
| Plant | Gofal Plant | Mae gan y Gwasanaeth Plant nifer o leoliadau a ddefnyddir i hwyluso cyswllt rhieni gyda phlant neu gynnig gofal. Mae'r Gwasanaeth Eiddo wedi cynorthwyo gydag adolygu rhai o'r trefniadau hyn. Mae un lleoliad bellach yn wag ac angen ei waredu ac mae trafodaethau ar y gweill ar leoliadau eraill. |

## 7 ADOLYGU CYNNYDD

7.1 Byddwn yn adolygu'r ddogfen hon yn barhaus ac ar sail y dystiolaeth a ddaw allan o'r mesurau sydd mewn lle ac y cyfeirir atynt yn rhan 5 uchod.

7.2 Byddwn yn parhau i ddefnyddio data meincnodi cenedlaethol i gymharu ein perfformiad gydag awdurdodau eraill.

7.3 Byddwn angen adolygu ein trefniadau unwaith yn rhagor ar ddiwedd y broses toriadau sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd gan ystyried os oes cyfleon pellach i leihau maint y stad neu wella ei heffeithlonrwydd.

7.4 Bydd yr Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am faterion Eiddo yn derbyn diweddariad rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod a gall cynnydd hefyd gael ei herio gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn ol y gofyn.

# Polisiau Rheoli Eiddo



# Mawrth 2016

**CYNNWYS**

1. Polisi Gwaredu Eiddo
2. Polisi Gwaredu am lai na'r gydnabyddiaeth orau
3. Polisi ôl-ddefnydd Ysgolion
4. Polisi Gosod am rent is na gwerth y farchnad
5. Polisi a Strategaeth Caffael Eiddo

# 1. POLISI GWAREDU EIDDO

## 1. Cyflwyniad

Yn y polisi hwn nodir y drefn i'w mabwysiadu yng nghyswllt gwaredu eiddo nad oes eu hangen mwyach ac eiddo a danddefnyddir.

Mae Cyngor Gwynedd wedi dynodi pob eiddo yn adnodd corfforaethol. Mae'n cydnabod bod gan yr Awdurdod, o bosib, eiddo nad yw'n gymorth wrth ddarparu gwasanaethau neu nad yw'n cwrdd ag amcanion y portffolio anweithredol (eiddo nad yw'n cael ei ddal i bwrpas darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol)

Mae'r angen i gyfiawnhau cadw eiddo o'r fath yn egwyddor sylfaenol o reoli asedau yn dda.

Bydd y Cyngor yn ceisio'n barhaus i adnabod eiddo nad oes ei angen mwyach neu eiddo a danddefnyddir a, lle bo'n bosib, gael gwared ag o.

## 2. Diffiniad o Eiddo Nad oes ei Angen Mwyach/ Eiddo a Danddefnyddir

Credir nad oes ar y Cyngor angen eiddo os :

- Nad yw'n cyfrannu at waith darparu gwasanaethau'r Cyngor
- Nad oes iddo bosibiliadau o ran dibenion strategol neu adfywio / ailddatblygu yn y dyfodol
- Oes safle arall wedi ei adnabod a fyddai'n arwain at ddarparu gwasanaeth mwy cost effeithiol

Credir y tanddefnyddir eiddo os:

- Yw'r incwm a grëir o'r safle yn is na'r hyn y gellid ei gael o:
  - Ei ddefnyddio i bwrpas arall
  - Gwaredu'r eiddo a buddsoddi'r incwm
  - Gwneud defnydd helaethach o'r defnydd presennol
- Yw rhan o'r eiddo yn wag ac yn debygol o fod yn wag am y dyfodol rhagweladwy

## 3. Adnabod Safleoedd i'w Gwaredu

Mae modd adnabod safleoedd ar gyfer eu gwaredu fel a ganlyn:

- Trwy iddynt gael eu dynodi i bwrpas penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol
- Trwy'r Adran Gwasanaeth yn datgan bod safleoedd penodol nad oes eu hangen mwyac
- Wrth dderbyn  ceisiadau i brynu i bwrpas penodol gan ddatblygwyr, partneriaid cyheoddus y cyngro neu unigolion.
- Yn sgil Adolygiad o Eiddo ardal

- Trwy chwilio yn y Gofrestr Asedau yn gyson

**4.** **Ffyrdd o Waredu Eiddo**

Yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol  fydd yn gyfrifol am fabwysiadu'r dull mwyaf synhwyrol o waredu eiddo.

Er hynny, er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan Adran 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn dwyn y teitl "Gwaredu Tir am Bris sy'n Llai na'i Werth", rhaid i'r Cyngor gael y pris gorau y mae'n rhesymol ei gael ar gyfer pob eiddo y datgenir nad oes arno ei angen mwyach.  Ystyrir darpariaethau Caniatâd Cyffredinol i Gael Gwared ag Eiddo (Cymru) 2003 dan amgylchiadau eithriadol yn unig.

O'r herwydd, polisi'r Cyngor yw gwaredu ar y farchnad agored fel bod gan pawb sydd â diddordeb gyfle i brynu, er mwyn sicrhau y ceir y pris gorau a dangos tryloywder.

At hyn, mae rhai darnau o dir nad oes ond un prynwr posib ar eu cyfer, a hynny oherwydd eu maint, natur a'u lleoliad,.  Gwastraff amser ac adnoddau fyddai cynnig y rhain ar y farchnad agored.  Yn wir, byddai gwneud hyn, fwy na thebyg, yn arwain at un cynnig yn unig a hwnnw am swm pitw.  Mewn achosion o'r fath, argymhellir gwaredu'r eiddo trwy gytundeb preifat i'r un prynwr posib.  Er hynny, ceisir caniatâd penodol i wneud hynny ym mhob achos unigol. Bydd y cyfryw eiddo yn cael ei waredu am Werth y Farchnad.

Dan rai amgylchiadau efallai y bydd  y Cyngor eisiau gwaredu tir i ddiben penodol, er enghraifft er mwyn cynyddu cyflogaeth.  Mewn achosion o'r fath dylid diffinio'n fanwl y defnydd arfaethedig a ganiateir a chael y caniatâd cynllunio priodol cyn cynnig yr eiddo ar y farchnad agored. Dylai pawb a allai gwrdd â'r amodau gael cyfle i gael eiddo.

Mae'n bosibl o dan rai amyglchiadau y bydd y Gwasanaeth Tai angen i dir gael ei werthu i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn datblygu llety i gwrdd a'r anghenion tai lleol.  O dan yr amgylchiadau yma ystyrir bod y Cyngor mewn partneriaeth gyda'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ac fel arfer bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i ddewis tenant i'r llety.  Yn y sefyllfa yma bydd y tir yn cael ei werthu yn uniongyrchol i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gyda'r Prisiwr Dosbarth yn pennu'r pris gwerthu a bydd yntau yn gweithredu ar ran y ddau barti.

**6.** **Tir a Brynwyd dan Orfodaeth**

Pan fo tir y credir nad oes ei angen mwyach wedi'i brynu dan orfodaeth, neu fygythiad gorfodaeth, mae'n ofynnol, yn gyffredinol, i gynnig y tir yn ôl i'r perchennog gwreiddiol neu i'w olynwyr cyn ei gynnig i neb arall.

Mae eithriadau i'r gofynion hyn, er enghraifft, tir amaethyddol a brynwyd cyn 1935, tir sydd wedi newid mewn cymeriad, wedi ei ddatblygu neu sy'n rhan o safle mwy ac a fyddai'n colli ei bris yn sylweddol pe câi ei rannu.

Os nad oes gan y perchennog gwreiddiol ddiddordeb mewn prynu'r eiddo neu onid oes modd cytuno ar delerau cyn pen dau fis, gall y Cyngor waredu'r eiddo ar y farchnad agored.

**7.** **Strategaeth Farchnata**

Yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol fydd yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth farchnata un ai'n fewnol neu drwy gyrff allanol.

Bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag unrhyw bosibilrwydd o waredu'r eiddo (hyd yn oed pen na byddai'r costau yn arwain i werthiant gwirioneddol) yn cael eu rhoi yn erbyn yr Adran Gwasanaeth/neu'r gyfran a ganiteir o'r dderbyneb cyfalaf terfynol. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau prisio a marchnata, costau diogelwch ac ynni pan nad yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio ac unrhyw gostau eraill sy'n hwyluso gwerthu'r eiddo.

**8.** **Caniatâd cyfansoddiadol**

Bydd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol yn paratoi Taflen Benderfyniad er ystyriaeth yr Aelod Cabinet sydd a chyfrifoldeb am faterion Eiddo, oni bai ei fod yn achos o werthu am llai na gwerth y farchnad.

**9.** **Derbyniadau Cyfalaf**

Yn sgil derbyniadau cyfalaf a ddaw o waredu eiddo, fe aiff 20% i'r Gwasanaeth (hyd at uchafswm o £20,000) a'r gweddill i'r gronfa gorfforaethol i ariannu blaenoriaethau y Strategaeth Asedau Corfforaethol..

Bydd cyfle i Wasanaeth wneud cais i ddefnyddio cyfran uwch o unrhyw dderbynneb cyfalaf drwy'r gyfundrefn ceisiadau cyfalaf neu drwy geisio sel bendith penodol gan y Cabinet.

**12.** **Arbedion Refeniw**

Yr arbedion hyn yw'r rhai y byddai defnyddwyr yr eiddo, fel arfer, wedi gorfod eu talu'n flynyddol o gyllidebau eiddo sydd bellach wedi'u gwaredu. Maent yn cynnwys:

- Costau Ynni – trydan, nwy, dŵr ac ati
- Trethi
- Profi offer ymladd tân a chyfarpar cludadwy
- Costau rheoli safle – gofalwr, glanhawr, cynnal a chadw tiroedd ac ati

Bydd arbedion refeniw a fydd yn deillio o werthu eiddo yn cael eu hail gylchu yn unol â pholisi Arbedion Effeithlonrwydd y Cyngor.

Noder na fydd unrhyw arbedion cynnal a chadw yn cael eu datgan fel arbedion ond yn hytrach bydd yn cael ei ail fuddsoddi yng ngweddill portffolio eiddo'r Cyngor.

## 2. POLISI GWAREDU EIDDO AM LLAI NA'R GYDNABYDDIAETH ORAU

1.0 **CEFNDIR**

Mae Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 ddaeth i rym ar y 31, Rhagfyr, 2003 yn darparu caniatâd cyffredinol sy'n dileu'r angen i Awdurdodau Lleol gael cymeradwyaeth benodol gan y Cynulliad i ystod eang o diroedd ac eiddo a werthir am lai na'r gydnabyddiaeth orau. Mae Awdurdodau yn derbyn caniatâd mewn amgylchiadau lle nad yw'r tanbrisiad dros £2 filiwn a lle fo'r Awdurdod sy'n gwerthu yn ystyried bod yr hyn a werthir yn debygol o gyfrannu i lwyddiant hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y cyfan neu unrhyw ran o'r ardal neu'r cyfan neu unrhyw bersonau sy'n byw neu yn bresennol yn ei ardal. Yr Awdurdod Lleol fydd yn penderfynu os oes unrhyw eiddo neu dir arbennig a werthir yn cwrdd â'r meini prawf yma neu yn parhau i fod angen caniatâd penodol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Wrth benderfynu a ddylid gwerthu tir neu beidio am lai na'r gydnabyddiaeth orau dylai'r Awdurdod gael barn prisiwr proffesiynol cymwys ynglŷn â swm tebygol y tanbrisiant. Yn ychwanegol, dylid cael cyngor cyfreithiol am y cwestiwn os yw'r eiddo/tir a werthir yn syrthio o fewn telerau'r caniatâd. Mae'r Llywodraeth yn cynghori y gall hi fod yn ddefnyddiol i'r Cyngor roi gwybod i'r archwilydd a benodwyd am unrhyw gyngor cyfreithiol mae'n ei dderbyn a'r camau arfaethedig mae'n dymuno eu cymryd.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol fedru dangos eu bod wedi gweithredu yn rhesymol wrth gytuno i waredu am llai na phris y farchnad; mae'n annhebygol y bydd darpar brynwyr, prynwyr sy'n tybio iddynt gael cam neu rai aflwyddiannus (neu yn wir drigolion lleol) yn derbyn y penderfyniad ymhob achos. Mater sylfaenol fydd y gallu i ddangos rhesymoldeb ac ystyried y polisïau cymwys.

2.0 **CYD-DESTUN POLISI LLEOL**

Un o amcanion polisi sylfaenol y Cyngor yw darparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf posibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael, io gwrdd ag anghenion trigolion Gwynedd. Elfen bwysig o hyn yw cael y gwerth gorau o werthu eiddo sy'n weddill I anghenion er mwyn gallu dargyfeirio'r cyfalaf a dderbynnir tuag at gyllido'r blaenoriaethau a amlygir yn y Strategaeth Asedau Gorfforaethol. O ganlyniad, lle fo unrhyw werthiant am llai na phris y farchnad yn cael ei argymell

bydd angen dangos y bydd buddiannau economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol yn deillio'n uniongyrchol o'r gwerthiant, na ellid eu sicrhau heb fodlonni gwaredu am bris gostyngol.

Cydnabyddir mai eithriadau prin fydd unrhyw werthiannau am lai na phris y farchnad.

## 3.0 CYMORTH Y WLADWRIAETH

Bydd unrhyw waredu am llai na phris y farchnad angen cydymffurfio gyda rheolau cymorth gwladwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd. Wrth gael gwared o dir am lai na'r pris gorau mae'r Awdurdodau yn rhoi cymhorthdal i'r perchennog, datblygwr a/neu ddeilydd y tir. Pan fo hyn yn digwydd mae'n rhaid i Awdurdodau sicrhau bod natur a swm y cymhorthdal yn cydymffurfio gyda rheolau cymorth y wladwriaeth. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu bod y cymorth yn anghyfreithlon.

## 4.0 PROTOCOL GWEITHREDU

1. Bydd unrhyw werthiant am lai na'r gydnabyddiaeth orau yn cael ei gyfeirio i Gabinet y Cyngor er ystyriaeth a chymeradwyaeth.

2. Bydd angen i'r adroddiad Cabinet, gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol, amlygu'n glir beth fyddai'r golled arianol damcaniaethol i'r Cyngor a beth fyddai'r buddion amgylcheddol, economaidd neu gymdeithasol fyddai'n deillio o werthu am bris gostyngol.

3. Rhaid i'r adroddiad i'r Bwrdd gynnwys gwybodaeth ddigonol ac amlygu'r cyfiawnhad i alluogi Aelodau i ddod i gasgliad os fydd y gwarediad yn cynrychioli y defnydd priodol o'r Caniatâd Gwaredu o ystyried dyletswyddau ymddiriedol y Cyngor i'r trethdalwyr.

## 3. Ôl Ddefnydd Safleoedd Ysgol sy’n Weddill i Anghenion

- Yn amlwg mae unrhyw gynllun sy’n edrych ar ddyfodol safleoedd eiddo yn gallu arwain at safleoedd fydd yn y dyfodol yn weddill i anghenion y Cyngor ar gyfer cyflwyno gwasanaeth.

- Mewn achosion o’r fath mae’r broses o ystyried dyfodol y safleoedd hyn wedi ei nodi yn glir ym mholisïau gwaredu eiddo'r Cyngor.

- Mae’r polisïau hyn, i raddau helaeth iawn, wedi eu seilio ar ofynion statudol sy’n wynebu pob Awdurdod Lleol. Yn benodol mae Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi’n glir fod yn rhaid i’r Cyngor geisio sicrhau’r telerau gorau posib er budd y trethdalwyr. Golyga hyn felly mae polisi'r Cyngor i ymateb i’r gofyn yma yw drwy waredu pob safle a ddaw yn weddill i anghenion ar y farchnad agored. Mae hyn yn galluogi i’r Cyngor wneud ymdrech deg i sicrhau gwerth gorau a hefyd yn rhoi cyfle i bawb allasai fod â diddordeb i gyflwyno cynigion mewn modd agored a thryloyw.

- Nid yw sicrhau'r telerau gorau yn golygu marchnata ar y farchnad agored ym mhob achos wrth gwrs. Mewn rhai achosion, oherwydd natur neu leoliad eiddo, mae’n amlwg mai drwy werthu i un prynwr penodol y bydd y Cyngor yn gallu sicrhau'r telerau gorau, e.e. dim ond un prynwr all gael mynediad at y tir, cyfuno tir y Cyngor â thir perchennog cyfagos yn cynyddu ei werth yn sylweddol, a.y.b.

- Mewn achosion o’r fath gall y Cyngor waredu yn uniongyrchol heb farchnata yn agored yn amodol ar dderbyn adroddiad gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol yn cadarnhau fod y telerau gwerthu yn cynrychioli gwerth gorau i’r Cyngor a’r trethdalwyr.

- Mewn achosion eraill bydd y Cyngor yn dymuno gwaredu eiddo er mwyn hyrwyddo amcanion strategol, e.e. darparu tai fforddiadwy, ac mewn achosion o’r fath mae modd i’r Cyngor waredu yn unionyrchol heb farchnata yn amodol eto ar dderbyn adroddiad gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol yn cadarnhau fod y telerau gwerthu yn cynrychioli gwerth gorau i’r Cyngor a’r trethdalwyr. Bydd achosion o’r fath fel arfer yn werthiannau i bartneriaid y Cyngor sy’n gweithio tuag at yr un amcanion strategol, e.e.

Cymdeithasau Tai mewn achosion o ddarparu Tai Fforddiadwy.

- Yn ychwanegol i hyn, mewn achosion arbennig, a pan fo tystiolaeth gadarn i gefnogi achosion o’r fath, mae modd i’r Cyngor waredu eiddo am lai na’r gwerth ariannol gorau. Mae Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn rhoi’r hawl statudol i Awdurdodau Lleol ystyried gwaredu yn y modd yma os oes tystiolaeth gadarn yn profi y byddai’r gwerthiant yn arwain at fuddiannau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol uniongyrchol na ellid eu sicrhau heb waredu am swm sy’n llai na phris y farchnad.

- Mater i bob Awdurdod yn unigol yw ystyried os yw’r buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn gorbwyso'r golled ariannol o werthu am lai na phris y farchnad. Mae gofyn statudol i hysbysu archwilwyr allanol y Cyngor o bob achos o’r fath.

- Yn amlwg felly polisi'r Cyngor yw ystyried ceisiadau o’r fath ar sail cynllun busnes a gyflwynir gan y sawl sy’n gwneud y cynnig. Dim ond drwy asesu cynllun busnes y gall y Cyngor ystyried:-

    - a yw’r buddiannau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn gorbwyso’r golled ariannol, sef y gwahaniaeth rhwng pris y farchnad agored a’r pris a gynigir yn yr achos penodol o dan ystyriaeth ?

    - a yw’r cynllun sydd gan yr ymgeisydd dan sylw yn hyfyw ? Nid oes pwrpas i’r Cyngor waredu am lai na phris y farchnad os nad yw’n ymddengys fod y cynllun dan sylw yn gyraeddadwy fforddiadwy a chynaliadwy.

    - a oes modd sicrhau'r buddiannau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol heb waredu am lai na phris y farchnad ?

Mae’r uchod felly yn cadarnhau fod modd i’r Cyngor waredu safleoedd ysgol a ddaw yn weddill i anghenion am lai na’r telerau gorau, ond dim mewn amgylchiadau penodol ac yn dilyn derbyn cynlyn busnes sy’n cyfiawnhau'r golled ariannol yn glir. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Cabinet y Cyngor ar bob achos o’r fath.

# 4. GOSOD EIDDO AM RENT IS NA RHENT Y FARCHNAD

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Gwneir ceisiadau, o dro i dro, i'r Cyngor ystyried gostyngiadau neu ddiddymiadau mewn lefel rhenti ar gyfer mudiadau sy'n prydlesu eiddo gan yr Awdurdod. Gall y mudiadau yma gynnwys elusennau cofrestreedig, cynghorau cymuned / tref, a sefydliadau cymunedol.

1.2 Gwerthfawrogir y gwaith a wneir gan y mudiadau yma, sydd yn aml yn gweithredu dan amodau cyllidol caeth, ag yn arferol yn ceisio am ostyngiadau yn y rhent talaldwy i'r Cyngor.

## 2. POLISI CYFREDOL

2.1 Un o brif amcanion y Cyngor yw darparu gwasanaethau o'r safon uchaf oddi mewn yr adnoddau sydd ar gael yn unol a dyheadau y trethdalwyr. Rhan allweddol o hyn yw sicrhau yr incwm gorau posib pan yn gosod asedau y Cyngor er mwyn gallu cyfranu at gyllidebau y Cyngor i wneud darpariaeth o'r fath.

2.2 Mae'n ddyletswydd ar swyddogion y Gwasanaeth Eiddo i lynu at y polisi yma, er sicrhau fod y Cyngor yn derbyn yr elw gorau posibl am yr ased.

## 3. GWRYO O'R POLISI

3.1 Pan gyfyd achlysuron lle gwneir ceisiadau am ostyngiadau, awgrymir mabwysiadu'r polisi canlynol :-

(a) Fod yr Adain Eiddo yn cytuno ar rent sy'n cyfateb a rhent y farchnad agored. Y Gwasanaeth sy'n gyfrifol am yr Eiddo sy'n derbyn y rhent.

*(b)* Fod y cais am ostyngiad rhent yn cael ei anfon i'r Gwasanaeth sy'n gysylltiedig a gweithgareddau'r defnyddiwr, a bod y Gwasanaeth i ddelio â'r cais, h.y. gall yr

Adran berthnasol  wneud y gwahaniaeth i fyny yn unol â threfn gweithredu grantiau y Gwasanaeth hwnnw.

## 4. CASGLIAD

4.1 Bydd derbyn yr argymhellion uchod yn sicrhau fod y  Cyngor yn derbyn rhent teg am yr eiddo, mewn ffordd agored a chyfrifol, tra'n galluogi'r mudiadau i gyflawni eu gwasanaethau gyda llai o ymrwymiad ariannol.

4.2 Bydd y  polisi yn caniatau cofnodi ariannol cywir gyda chefnogaeth i fudiadau yn ymddangos fel gwariant yn hytrach na chael eu guddio fel gostyngiad mewn incwm oddi wrth asedion. Dengys hyn fod y Cyngor yn cefnogi mudiadau, yn ogystal â derbyn rhent teg am yr asedau.

4.3 Gellir trefnu gyda mudiadau eu bod yn talu'r symiau net i'r Cyngor, sef y gwahaniaeth rhwng y rhent talaldwy a'r cymorthdal a dderbynnir gan yr Awdurdod.

4.4 Bydd yn angenrheidiol ystyried y cyllidebau ar gyfer yr Adrannau os mabwysiadir y polisi, er sicrhau fod yr effaith ar y gyllideb gyfan yn niwtral.

4.5 Ymgynghorwyd â holl Adrannau'r Cyngor wrth lunio'r polisi hwn yn wreiddiol, a baratowyd ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

# 5. POLISI A STRATEGAETH CAFFAEL EIDDO

**1.0** **Cynllun Rheoli Asedau Eiddo**

**1.1** Strategaeth Asedau Corfforaethol a Chynllun Rheoli Asedau Eiddo Cyngor Gwynedd yw'r sail strategol dros reoli holl ddefnydd eiddo i bwrpas gweithredol neu wireddu amcanion anweithredol.

**1.2** Prif amcanion y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo yw:-

- darparu eiddo o safon derbyniol sy'n addas i bwrpas er mwyn gallu darparu gwasanaethau sylfaenol.
- uchafu'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau sylfaenol drwy sicrhau rheolaeth effeithlon o'n hasedau eiddo

**1.4** Mae'n ofynnol felly i unrhyw ofyn am eiddo newydd gael ei adnabod yn y Cynlluniau Corfforaethol neu fod achos busnes clir a diamwys wedi dod i'r amlwg ers hynny.

**2.0** **Proses Weithredol Caffael Eiddo**

**2.1** Mae'r broses yma'n berthnasol i gaffael pob math o eiddo gan gynnwys prynu rhyddfraint neu gymryd prydles newydd.

**2.2** Bydd y Gwasanaeth sy'n dymuno caffael eiddo yn anfon cyfarwyddyd cychwynnol at yr Uned Eiddo Corfforaethol a fydd yn gwirio'r cais yn erbyn cynnwys y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.

**2.3** Os na fydd yr angen am yr eiddo dan sylw wedi ei adlewyrchu yn y Cynllun Rheoli Asedau bydd gofyn i'r Gwasanaeth gyflwyno cyfiawnhad strategol a gweithredol dros brynu'r eiddo ac os na ellir darparu cyfiawnhad rhesymol ni fydd modd parhau gyda'r achos.

**2.4** Wrth gyfarwyddo'r Uned Eiddo Corfforaethol bydd gofyn i'r Gwasanaeth ddarparu briff cryno o'u anghenion (math o eiddo, maint, natur y defnydd, lleoliad, amserlen ayb),

**2.5** Bydd yr Uned Eiddo Corfforaethol yn ystyried eiddo sydd eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor fel cam cyntaf i ateb gofynion y Gwasanaeth.

**2.6** Os nad oes eiddo addas i bwrpas ar gael, ac nad oes modd addasu eiddo, bydd yr Uned Eiddo yn ymchwilio i bob opsiwn posib sydd ar gael yn y farchnad leol. Bydd y Gwasanaeth Eiddo yn ystyried pa ddull caffael a pha ddiddordeb cyfreithiol fyddai'n cynrychioli'r gweth gorau i'r Cyngor yn seiliedig ar y gofynion penodol ym mhob achos.

**2.7** Y Gwasanaeth sy'n dymuno caffael yr eiddo fydd yn gyfrifol am yr holl gostau prynu/prydlesu gan gynnwys unrhyw gostau atodol megis ffioedd ymgymerwyr, costau refeniw, costau cyfreithiol ayb.

**2.8** Ni ddylai'r Gwasanaeth agor trafodaethau yn uniongyrchol gyda pherchnogion eiddo rhag tanseilio gallu'r Cyngor i sicrhau gwerth gorau ym mhob achos.

**2.9** Yn dilyn ymchwilio'r farchnad bydd yr Uned Eiddo Corfforaethol yn cyflwyno opsiynau cychwynnol i'r Gwasanaeth ac yn dilyn derbyn eu cadarnhad/cyfarwyddyd pellach, bydd yr Uned yn agor trafodaethau manwl gyda'r perchennog gyda'r bwriad o gytuno telerau yn amodol ar gytundeb a sêl bendith cyfansoddiadol y Cyngor.

**2.10** Ni fydd modd symud ymlaen i gaffael unrhyw eiddo os na ellir sicrhau telerau, sydd ym marn yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol, yn cynrychioli gwerth gorau i'r Cyngor. Mae hawliau dirprwyedig ar gael i gaffael eiddo drwy bryniant gorfodol os fydd angen ac os oes sail cyfreithiol.

**2.11** Os gellir cytuno telerau derbyniol, bydd Uned Gyfreithiol y Cyngor yn cael eu cyfarwyddo i gwblhau'r pryniant unwaith y bydd sel bendith cyfansoddiadol wedi ei dderbyn.

**3.0 Materion Cyfansoddiadol/Statudol**

**3.1** Mae'r hawl cyfansoddiadol i awdurdodi caffael unrhyw eiddo cyffredinol gan yr Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am faterion Eiddo yn dilyn derbyn taflen benderfyniad gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol.

**3.5** Ym mhob achos bydd gofyn i'r Gwasanaeth sicrhau cyllid digonol ar gyfer holl gostau unwaith ac am byth a chostau parhaol ynghlwm i'r pryniant.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
15.03.2016

**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

**Pwnc: Gwerthiant cyn safle Ysgol yr Hendre, Caernarfon**

**Swyddog cyswllt: Dafydd Gibbard**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i werthu cyn safle Ysgol yr Hendre, Caernarfon, yn uniongyrchol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) am lai na gwerth y farchnad er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol.

---

**Barn yr aelod lleol**

**Y Cynghorydd William Roy Owen:**

"Rwy'n cefnogi'r argymhelliad ac yn falch iawn o weld fod cyfle i gydweithio gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd i weld datblygiad tai ar y safle fydd yn cynnig canran uwch na'r arfer o dai fforddiadwy. Byddai gweld datblygiad newydd ar y safle hefyd yn golygu gwella llecyn o dir sydd wedi datblygu i fod yn ddolur llygad ers rhai blynyddoedd."

**Y Cynghorydd Endaf Cooke:**

"Os ydym yn gwerthu heddiw neu beidio, rhyw ddydd bydd datblygiad tai yn siwr o ddigwydd ar y safle. Mae'n bwysig fod trigolion lleol yn cael mynegi barn ar y datblygiad ei hun ac mae gen i bryderon am yr effaith ar draffig yn yr ardal honno o'r dref. Hoffwn i'r Cabinet fodloni eu hunain fod y pris yn deg o dan yr amgylchiadau."

---

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn dilyn adleoli Ysgol yr Hendre i'w adeilad newydd, mae safle'r hen ysgol wedi bod yn wag ers 2012. Mae briff datblygu a baratowyd gan y Gwasanaeth Cynllunio yn datgan fod y safle yn addas ar gyfer datblygiad tai.

1.2 Yn dilyn trafodaethau yn y Bartneriaeth Strategol Tai, mae cais wedi ei dderbyn gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig brynu'r safle ar gyfer datblygiad preswyl a fyddai'n cynnwys canran uwch na'r hyn sy'n ofynol o dai fforddiadwy. Dengys asesiadau hyfywdra economaidd gan CCG fod angen gallu prynu'r safle am swm ddim uwch na £600,000 os yw'r datblygiad am fod yn hyfyw yn ariannol.

1.3 Ar sail yr asesiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon rhyddhau arian grant cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol, cyn belled a bod penderfyniad ffurfiol mewn lle gan y Cyngor i werthu'r safle i CCG.

1.4 O dderbyn penderfyniad ffafriol, bydd CCG yn gallu hawlio'r grant, symud ymlaen i gyflwyno cais cynllunio ac yna cwblhau'r pryniant yn dilyn derbyn caniatad cynllunio. Dylai hyn gael ei gyflawni cyn diwedd y flwyddyn galendr bresennol.

## 2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad

2.1 Er mwyn sicrhau gwerth gorau am ei asedau, yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dull traddodiadol o waredu eiddo'r Cyngor yw drwy hysbysbu ar y farchnad agored gan wahodd tendrau cystadleuol.

2.2 Bu i'r Cyngor farchnata'r safle ar y cyd ag Asiant Cenedlaethol yn ystod 2011, cyn i adeiladau'r ysgol gael eu dymwchwel. Prin oedd y diddordeb gan ddatblygwyr preifat, a dim ond un tendr ddaeth i law, a hynny am swm o £221,000. Ers hyny mae'r adeiladau'r ysgol wedi eu dymchwel gan y Cyngor ar gostau o oddeutu £100,000.

2.3 Yn dilyn derbyn datganiad o ddiddordeb yn y safle gan CCG, yn unol â threfn arferol y Cyngor wrth bennu prisiadau

ar gyfer trosglwyddo asedau rhwng dau gorff lled gyhoeddus, aed ati i gomisiynu prisiad marchnad agored gan y Prisiwr Dosbarth, yn seiliedig ar yr hyn a ganiateir o safbwynt Cynllunio. Nodir yn y briff cynllunio fod y safle yn addas ar gyfer oddeutu 42 o dai, ac y byddai gofyn i ganran o oddeutu 35% fod yn dai fforddiadwy.

2.4 Wrth ystyried gwerth y safle, mae'n annodd bod yn bendant gan na wyddom pa effaith y gaiff presenoldeb olion archeolegol ar y costau datblygu. Oherwydd ei leoliad yn ardal caer Segontiwm, bydd amodau ynghlwm i unrhyw ganiatad cynllunio a fydd yn golygu yr angen i wylio'r safle'n agos pan yn cloddio. Gwyddom wrth i'r Cyngor ddatblygu Ysgol Newydd yr Hendre ar safle cyfagos, fod delio gyda'r agweddau archeolegol wedi costio oddeutu £220,000.

2.5 Hyd nes i'r gwaith gychwyn does dim ffordd o wybod beth fydd yr oblygiadau cost ynghlwm i'r archeoleg. Mae ansicrwydd o'r fath yn creu nerfusrwydd ymysg unrhyw ddarpar brynnwr ac roedd yn factor allweddol arweiniodd at dendr mor isel pan roddwyd y safle ar y farchnad yn 2011.

2.6 Ar sail hyn, barn y Prisiwr Dosbarth yw fod gwerth y safle ar y farchnad agored unrhywle rhwng £675,000 a £930,000 ar gyfer datblygiad tai gyda 55% yn dai fforddiadwy.

2.7 O gofio fod asesiadau hyfywdra economaidd CCG yn dangos yr angen i allu prynu'r safle am ddim mwy na £600,000, nid ydynt mewn sefyllfa i gynnig y pris sydd wedi ei bennu gan y Prisiwr Dosbarth. Felly, os am dderbyn cynnig CCG byddai'n rhaid i'r Cyngor fodloni ei hun fod cyfiawnhad i werthu am rhwng £75,000 a £330,000 yn llai na gwerth y farchnad.

2.8 Mae hawl cyfreithiol gan y Cyngor yn unol â phwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i werthu am lai na phris y farchnad mewn achosion lle mae buddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn cael eu darparu.

2.9 Ystyrir y byddai gwaredu yn uniongyrchol i CCG yn hwyluso'r buddiannau canlynol:-

- Darparu canran o oddeutu 55% o dai fforddiadwy (23 uned) sy'n sylweddol uwch na'r 35% a fyddai'n debygol o gael ei darparu gan ddatblygwr preifat yn unol â pholisïau cynllunio.

- Yn wahanol i ddatblygwr preifat mae CCG yn ymgymryd i sicrhau fod y cyfan o'r tai fforddiadwy (23 uned) yn dai rhent cymdeithasol. Mae'r rhestrau aros cyfredol a ddarparwyd gan Dîm Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd (Rhagfyr 2015) ar gyfer yr ardal yn cadarnhau'r angen ar gyfer tai rhent cymdeithasol yn yr ardal. Ymhellach, mae Uned Strategol Tai y Cyngor wedi cynnwys safle Hendre ar y rhaglen wrth gefn ar gyfer derbyn grant tai cymdeithasol, gan bwysleisio'r angen am dai rhent cymdeithasol ar y safle. Rhagwelir y byddai'r mwyafrif o ddatblygwyr preifat yn dymuno gwerthu'r cyfan o'r unedau fforddiadwy. Dylid cadw mewn cof fod rhent ty cymdeithasol yn is na'r hyn fyddai'n daladwy mewn ty preifat ac yn amlwg mae hyn yn cael effaith ar hyfywdra unrhwy ddatblygiad gan Landlord Cymdeithasol.

- Yn unol â'r cytundeb rhwng CCG a'r contractwr llwyddiannus bydd gofyn i gontractwr llwyddiannus CCG ddarparu hyfforddiant - trwy gyfuniad o gyfleoedd i brentisiaid a chyfleoedd gwaith taledig.

- Bydd CCG hefyd yn ymrwymo i annog y defnydd o gontractwr ac isgontractwyr lleol. Bydd CCG yn annog ac yn hwyluso perthnasau rhwng y contractwr a'r colegau addysg bellach lleol yn ogystal â gwasanaethau cefnogol lleol megis Canolfan Byd Gwaith i hybu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant o fewn yr ardal.

2.10 Bydd gofyn i aelodau'r Cabinet gloriannu'n ofalus y buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd hyn yn erbyn y gostyngiad ariannol posib.

2.11 Wrth ystyried hyn, ni ellir anwybyddu'r ffaith fod y Cyngor eisoes wedi marchnata'r tir fel safle datblygu tai a bod y cynnig uchaf a dderbyniwyd yn sylweddol is na'r hyn sy'n cael ei gynnig heddiw o dan gynllun CCG. Dylai'r Aelodau hefyd fod yn ymwybodol nad ydym wedi derbyn unrhyw ddiddordeb yn y safle ers yr ymgyrch farchnata yn 2011.

2.12 Felly, er bod y Prisiwr Dosbarth wedi nodi fod gwerth y safle yn uwch na'r hyn all CCG ei gynnig, nid oes unrhyw sicrwydd pa

bryd, os o gwbl, fyddai modd dennu cynnig o'r fath gan ddatblygwr arall.

## 3.0 Camau nesaf ac amserlen

3.1 Bydd y Gwasanaeth Eiddo yn cyfarwyddo'r Gwasanaeth Cyfreithiol i gychwyn ar y broses o drosglwyddo'r safle i CCG gan anelu i gwblhau'r gwerthiant elenni.

3.2 Bydd penderfyniad ffafriol gan y Cabinet yn caniatau i CCG gwblhau hawliad grant Llywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn arianol bresennol, ar gyfer prynu'r safle cyn gynted a phosib.

3.3 Dylai Aelodau'r Cabinet fod yn ymwybodol fod y cyfan o'r dderbynneb cyfalaf o waredu'r safle yma eisoes wedi ei ymrwymo fel rhan o becyn ariannu'r ysgol newydd.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Mae gwaredu tir yn y ffordd hwn yn rhywbeth y mae'n rhaid bod yn ofalus amdano gan bwyso'r buddiannau cymdeithasol amlwg fyddai'n codi os y gwireddir y cynllun yn erbyn y "golled" i'r Cyngor am waredu am lai na'r hyn y gellir ei ddisgwyl fel pris y fachnad. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad yn nodi, ac y mae'r Pennaeth Cyllid yn cadarnhau, mae ansicrwydd am allu'r Cyngor i sicrhau "pris y farchnad" fel y mae wedi ei nodi. Felly, y sefyllfa yw bod gan y Cyngor gyfle i sicrhau incwm a sicrhau'r budd amlwg o ddatblygiad tai y mae cryn alw amdano, yn cynnwys yr elfen fforddiadwy allweddol o'r datblygiad."

**Y Swyddog Monitro:**

"Fe nodir yn yr adroddiad y gall y Cyngor i waredu eiddo mewn unrhyw fodd a ystyrir yn briodol ar yr amod nad yw am werth sydd yn llai na'r hyn y gellir yn rhesymol ei dderbyn (Adran 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972). Caniateir y Cyngor i waredu eiddo am lai na'r gwerth yma yn unol â

Gorchymyn Caniatâd Gwaredu Cyffredinol 2003 yn amodol fod yr awdurdod o'r farn y byddai'r trosglwyddiad er budd economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol i'r ardal, rhan o'r ardal neu unrhyw rai sydd yn byw neu'n bresennol yn yr ardal. Mae'r adroddiad yn cloriannu'r ffactorau perthnasol wrth ddod i argymhelliad ond bydd angen sicrhau fod yr elfennau yma yn cael eu gwireddu wrth drosglwyddo'r tir. Gan fod tai marchnad agored yn rhan o'r datblygiad gan y Gymdeithas Dai rhaid sicrhau hefyd fod y budd o safbwynt tai cymdeithasol fydd yn deillio o'r gwerthiant yn gymesur a'r gostyngiad a gynigir."


**Y Pennaeth Cyllid:**

"Gwir werth marchnad unrhyw eiddo ydi'r swm y mae rhywun yn fodlon talu amdano.  Er fod y Prisiwr Dosbarth yn datgan fod gwerth y tir rhwng £675,000 a £930,000, dangosodd yr ymarferiad a gynhaliwyd yn 2011 fod y swm y byddai unrhyw ddatblygwr potensial yn fodlon ei dalu yn sylweddol is na hyn.  Nid wyf wedi fy argyhoeddi fod newid digonol wedi bod yn y farchnad eiddo nac yn yr amgylchiadau lleol i awgrymu yn rhesymol y gallai'r Cyngor dderbyn mwy am y tir yma ar hyn o bryd na'r hyn sydd yn y cynnig dan sylw.

Oherwydd y cyfleon cymdeithasol ac economaidd fyddai'n deillio o'r gwerthiant yma, a gan nad yw'n debygol y byddai oedi yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddenu swm sylweddol uwch am y tir, nid oes cyfiawnhad ariannol rhesymol dros wrthod y cynnig.  Rwyf yn cytuno â'r dehongliad o'r Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad, a felly byddai penderfyniad i dderbyn y cynnig yn un priodol yn ariannol."

**Atodiadau**

Cynllun Safle




Tud. 161

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd Council

Eitem 13

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| **Chwarter 1 2016/17 –<br>1 Ebrill – 30 Mehefin 2016** | | |
| **12 Ebrill 2016** | Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd | Dyfed Edwards |
| | Strategaeth Technoleg Gwybodaeth | Peredur Jenkins |
| | Asesiad Parodrwydd Cyngor Gwynedd ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | W Gareth Roberts |
| **3 Mai 2016** | | |
| **7 Mehefin 2016** | Cyfrifon Terfynol 2015/16 – Alldro Refeniw | Peredur Jenkins |
| | Rhaglen Gyfalaf 2015/16 – 2017/18 | Peredur Jenkins |
| **28 Mehefin 2016** | Adolygiad o Gronfeydd | Peredur Jenkins |
| | Blaenraglen Waith Cabinet Cyngor Gwynedd | Dyfed Edwards |
| **Eitemau i'w trafod yn Chwarter 1 2016/17 ond heb ddyddiad wedi ei bennu.** | | |
| | Comisiynu Gwasanaethau Oedolion | W Gareth Roberts |
| | Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda | W Gareth Roberts |
| | Materion Parcio | Dafydd Meurig |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i’w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | Ymgynghoriad ar Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Ioan Thomas |
| | Rôl y Cyngor yn y Maes Ynni Adnewyddol | John Wynn Jones |
| | Strategaeth Trechu Tlodi | Ioan Thomas |
| | Egwyddorion Addysg a Strwythur Ardal | Gareth Thomas |
| **Chwarter 2 2016/17 –<br>1 Gorffennaf – 30 Medi 2016** | | |
| **12 Gorffennaf** | Adolygu Strategaeth Ffordd Gwynedd | Peredur Jenkins |
| | Cyllideb Refeniw 2016/17 – Adnabod Risgiau Cynnar | Peredur Jenkins |
| | Rhaglen Gyfalaf 2016/17 – Adolygiad Chwarter 1 | Peredur Jenkins |
| **26 Gorffennaf** | | |
| **13 Medi** | | |
| **Eitemau i’w trafod yn Chwarter 2 2016/17 ond heb ddyddiad wedi ei bennu.** | | |
| | Model Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd | Mair Rowlands |